


# Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2024-2025

## Gan gynnwys ein hail Adolygiad Cyfnodol o berfformiad y BBC

Cyhoeddwyd 28 Tachwedd 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol ........ 3
2. Adeiladu ar gryfderau'r BBC ........ 7
3. Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus ........ 12
4. Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ........ 63
5. Safonau cynnwys ........ 72

## Atodiadau

Mae Atodiadau 1-4 ar gael yma

# 1. Crynodeb Gweithredol

O dan Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC, mae'n ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth, sef gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy’n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Ei nod yw cyflawni hyn drwy ddarparu ei bum Diben Cyhoeddus.

Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi gwahanol rolau a dyletswyddau'r BBC ac Ofcom. Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am lywodraethu'r BBC, am ei bolisi golygyddol, am sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gwaith, ac am bennu cyfeiriad strategol a chreadigol y sefydliad. Mae Ofcom yn gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd ac rydym yn gwneud hyn mewn tair ffordd: goruchwylio perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a rheoleiddio safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC. Bob blwyddyn, fel sy’n ofynnol gan Siarter y BBC, rydym yn cyhoeddi adroddiad ar berfformiad y BBC yn y meysydd yma, a sut aethom ati i gyflawni ein rôl. Mae'n rhaid i ni hefyd gynnal o leiaf ddau Adolygiad Cyfnodol o'r BBC yn ystod y Siarter hon a chyhoeddwyd ein Hadolygiad cyntaf ym mis Tachwedd 2021.

Yn yr wythfed Adroddiad Blynyddol hwn ar y BBC, rydym hefyd yn cynnwys ein hail Adolygiad Cyfnodol. Yn ogystal ag asesu sut mae'r BBC wedi cyflawni ei gylch gwaith dros flwyddyn ariannol 2024/25 hyd at 31 Mawrth 2025, rydym yn rhoi trosolwg o berfformiad y BBC o ran cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd dros gyfnod y Siarter. Gan ddefnyddio data ymchwil cynulleidfa helaeth, gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ers ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf, mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth y gall y llywodraeth ei ddefnyddio wrth iddi gynnal ei hadolygiad o'r Siarter.

Mae'r BBC yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hysbysu a diddanu cynulleidfaoedd ar draws y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar adeg pan mae'r BBC wedi bod yn wynebu argyfwng mawr arall sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau golygyddol wrth galon ei allbwn newyddion a materion cyfoes. Mae hyn wedi arwain at ymddiswyddiad ei Gyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol BBC News and Current Affairs. Mewn ymateb, mae Cadeirydd y BBC wedi amlinellu pwysigrwydd cynnal y safonau uchaf yng nghynnyrch y BBC a'i fod yn parhau i gymryd y camau angenrheidiol i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Cyhoeddodd hefyd ymrwymiad y BBC i 'hogi a chryfhau' prosesau'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol, is-bwyllgor o Fwrdd y BBC.

Mae Ofcom wedi datgan yn gyhoeddus bod yn rhaid i Fwrdd a Gweithrediaeth y BBC fynd i'r afael yn fwy cadarn pan fydd pethau'n mynd o chwith, a gweithredu'n gyflym ac yn dryloyw pan fydd dadleuon yn codi. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd a rhaid iddo nawr fod yn ffocws ar gyfer sut mae'r BBC yn ailosod i ddarparu ar gyfer ei gynulleidfaoedd.

## Prif Ganfyddiadau

### Crynodeb o Berfformiad y BBC yn ystod y Siarter

Yn gyffredinol, yng nghanol pwysau cyllido, ac yn erbyn cefndir o dirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, mae'r BBC wedi perfformio'n gryf o ran cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd dros gyfnod presennol y Siarter. Mae ein hymchwil yn dangos ei fod wedi parhau i fod yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd gydag 83% o oedolion y DU yn dweud eu bod yn defnyddio unrhyw un o wasanaethau'r BBC bob wythnos yn 2024/25. Mae wedi cymryd camau i ymateb i newidiadau yn y sector a'r newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd er mwyn:

**Parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd:** Mae'r BBC wedi llwyddo i gynnal bodlonrwydd cyffredinol cryf ar yr un pryd â pharhau i ganfod ffyrdd o wasanaethu cynulleidfaoedd, er gwaethaf y cynnydd yn y dewis o wasanaethau a chynnwys sydd ar gael gan ddarparwyr eraill. Eleni, gwelwyd arwyddion o wella'r ymgysylltiad â chynulleidfaoedd iau er bod rhai pobl, yn enwedig y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol D neu E, yn dal yn llai bodlon.

**Cynnal effaith gadarnhaol yn y gwledydd a'r rhanbarthau:** Mae'r BBC wedi atgyfnerthu ei ymrwymiad i wasanaethu a chynrychioli gwledydd a rhanbarthau amrywiol y DU drwy ehangu ei bresenoldeb rhanbarthol, buddsoddi mewn cynnwys lleol o ansawdd uchel, cefnogi'r economi greadigol, a gweithredu ei gynllun Across the UK. Mae hyn yn allweddol i gynhyrchu cynnwys amrywiol sy'n taro tant â chynulleidfaoedd ac yn cefnogi'r economi greadigol ledled y DU.

**Cadw ymddiriedaeth cynulleidfaoedd y DU yn gyffredinol:** Yn wyneb tirwedd cyfryngau dameidiog ac sy'n hollti barn yn fwyfwy, mae ein hymchwil yn dangos bod y BBC wedi parhau i fod yn ffynhonnell newyddion ddibynadwy a'r un a ddefnyddir amlaf yn y DU. Mae'n sgorio'n uchel yn gyson am ymddiriedaeth a chywirdeb ymysg defnyddwyr rheolaidd, ac mae wedi gwella ei dryloywder a'i atebolrwydd drwy ddelio'n well â chwynion, mentrau fel BBC Verify ac ymgysylltu'n gliriach â'r cyhoedd.

### Cyflawni yn erbyn y Dibenion Cyhoeddus dros gyfnod y Siarter

**Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas**

Mae cynulleidfaoedd wedi parhau i werthfawrogi rôl y BBC mewn darpariaeth newyddion – er enghraifft yn 2025, mae 70% o wylwyr newyddion teledu rheolaidd y BBC yn ei ganmol am gywirdeb a 68% am ymddiriedaeth. Mae'r sgoriau ar gyfer didueddrwydd yn is ond maent wedi aros yn sefydlog, gyda 58% o wylwyr teledu rheolaidd y BBC yn rhoi sgôr uchel i hyn.

**Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed**

Mae'r BBC wedi parhau i fuddsoddi mewn addysg ffurfiol ac mae canfyddiadau plant o BBC Bitesize yn dal yn gadarnhaol. Mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd â chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu wedi bod yn gyson ar draws y Siarter, gyda 62% o gynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel iddo.

**Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau**

Mae'r BBC wedi perfformio'n dda o ran darparu amrywiaeth eang o gynnwys creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau. Yn wyneb newidiadau enfawr yn y farchnad cyfryngau, mae'r BBC yn dal i wasanaethu ystod eang o gynulleidfaoedd, ac mae gan dri o bob pump (60%) argraff gadarnhaol o'r BBC.

**Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU**

Mae'r BBC wedi canolbwyntio ar gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU ac mae wedi bod yn symud cynhyrchu, gwariant a chomisiynu rhaglenni i'r gwledydd. Fodd bynnag, Diben Cyhoeddus 4 yw'r Diben Cyhoeddus sydd â'r sgôr isaf o hyd – gyda 59% o gynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel i'w ddarpariaeth, a bodlonrwydd yn amrywio rhwng gwledydd.

**Diben Cyhoeddus 5: Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd**

Yn unol â'n dyletswyddau, nid ydym yn rheoleiddio BBC World Service ac yn hytrach mae'n ofynnol i ni ystyried ei berfformiad wrth gyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus mewn Adolygiadau Cyfnodol. Mae ei gyrhaeddiad cyffredinol ar draws teledu, radio a digidol wedi gostwng, o uchafbwynt o 365 miliwn yn 2022 i 313 miliwn yn ystod y flwyddyn ddiwetha, yn rhannol o ganlyniad i gau gwasanaethau oherwydd pwysau ariannol. Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd y DU o berfformiad y BBC yn rhyngwladol wedi aros yn sefydlog ers ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf.

**Cystadleuaeth y BBC**

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, mae'n gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae gan y BBC hanes da o gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â chystadleuaeth deg ac effeithiol ac mae wedi gwella ei dryloywder o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, er enghraifft yn ei gynlluniau i wneud newidiadau i'w wasanaethau. Mae hefyd wedi gwneud newidiadau lle rydym wedi nodi materion, fel yn ein hadolygiad o'i weithgareddau masnachol.

**Safonau'r BBC**

Mae'r BBC wedi gwella ei broses delio â chwynion, wedi gwella tryloywder sut mae'n delio â chwynion ar faterion golygyddol ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd am ei ddidueddrwydd dyladwy yn ystod y Siarter. Yn ddiweddar, fe wnaethom ganfod bod y BBC wedi torri ein Cod mewn perthynas â'r rhaglen ddogfen *Gaza: How to Survive a War Zone.* O ystyried difrifoldeb y tor-amod hwn, fe wnaethom orchymyn y BBC i ddarlledu crynodeb o'n canfyddiadau. Rydym yn croesawu bwriad y BBC i gynnal adolygiad thematig annibynnol o'i sylw i'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol.

## Adeiladu BBC gwell i genedlaethau'r dyfodol

Fel y nodwyd yn ein hadolygiad diweddar o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus - Argyfwng Darlledu - mae'r dirwedd cyfryngau gyfan yn cael ei thrawsnewid yn gyflym. O ystyried y rôl sylweddol y mae'r BBC yn ei chwarae, wrth galon sector cyfryngau'r DU, mae'n hanfodol bod y BBC yn gallu adeiladu ar ei gryfderau a'r hyn mae'n ei wneud yn dda. Mae llawer y gall ei wneud i sicrhau ei ddyfodol ei hun.

Er mwyn parhau i apelio at bawb ledled y DU, rhaid i'r BBC ymgysylltu'n ddyfnach â chynulleidfaoedd llai bodlon, gan gynnwys y rhai sy'n iau ac yn dod o gefndiroedd llai cefnog. Rhaid iddo arloesi a chymryd risgiau i sicrhau bod cynnwys ar gael lle mae pobl eisiau ei wylio - fel ar lwyfannau trydydd parti - a gwneud cynnwys sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac yn eu cyffroi ar y llwyfannau hynny. Wrth galon hyn mae'n rhaid cael amrywiaeth eang o gynnwys, sy'n cael ei gynhyrchu ar draws y DU ac sy'n portreadu amrywiaeth y DU, i sicrhau bod y BBC yn cyrraedd pob cynulleidfa ac yn parhau i gefnogi economi greadigol y DU.

O ystyried y cefndir o ddirywiad mewn ymddiriedaeth mewn sefydliadau a chynulleidfaoedd sy'n fwyfwy darniog, mae'n bwysicach nag erioed bod y BBC yn cynnal ac yn meithrin perthynas ddibynadwy â chynulleidfaoedd lle bynnag maen nhw'n cael eu cynnwys. Mae'r BBC bob amser wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu newyddion cywir, dibynadwy a diduedd i holl gynulleidfaoedd y DU. Mae ei fuddsoddiad mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, i helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu'n feirniadol â newyddion a chynnwys ar-lein, yn dod yn fwyfwy hanfodol. Bydd mynd i'r afael yn dryloyw â phryderon cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd a sut mae'n dal ei hun i gyfrif pan fydd pethau'n mynd o chwith hefyd yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Rydym yn mynd i edrych ar yr hyn sy'n sbarduno ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y BBC a byddwn yn cyhoeddi Cylch Gorchwyl yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Byddwn yn trafod canfyddiadau ein hadroddiad â'r Llywodraeth fel rhan o'i Hadolygiad o'r Siarter. Bydd hyn hefyd yn cynnwys sut mae modd diweddaru'r fframwaith rheoleiddio i roi'r hyblygrwydd i'r BBC ddarparu lle bynnag mae'r cynulleidfaoedd - ar wasanaethau llinol ac ar-lein - gan barhau i gael ei ddal i gyfrif.

# 2. Adeiladu ar gryfderau'r BBC

Wrth i ni nesáu at adnewyddu Siarter y BBC, rydym wedi edrych ar ei berfformiad ar draws y Siarter bresennol, yng nghyd-destun newidiadau sylweddol yn nhirwedd y cyfryngau. Dros y degawd diwethaf, mae cynulleidfaoedd wedi symud fwyfwy o ddarlledu llinol traddodiadol i lwyfannau digidol a byd-eang, gan roi pwysau newydd ar ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fel y BBC. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ystyried sut mae'r BBC wedi ymateb i'r heriau hyn, wedi cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus, ac wedi cynnal ei rôl yn cefnogi economi greadigol y DU.

## Mae'r BBC yn wynebu mwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd

Yn 2015, roedd gan y BBC gyfran o 36% o amser cyfryngau honedig oedolion,[1] roedd gwasanaethau ar-lein yn dal i ddatblygu ac roedd cynulleidfaoedd llwyfannau llinol traddodiadol yn llawer uwch.[2] Cafodd y BBC £3.7bn o ffi'r drwydded yn 2014/15, sy'n cyfateb i ychydig dros £5bn heddiw wrth addasu ar gyfer chwyddiant.[3] Roedd rhanddeiliaid yn y diwydiant yn poeni am effaith y BBC; er enghraifft cyfran y BBC o'r farchnad radio yn tyfu rhagor, ei wasanaethau ar-lein yn gwthio gwasanaethau eraill y DU allan, gan gynnwys teitlau newyddion lleol, ac a allai'r BBC drawshyrwyddo ei wasanaethau masnachol yn annheg. Cafodd y Siarter a'r Cytundeb eu drafftio gyda'r pryderon hyn mewn golwg ac roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar gystadleuaeth rhwng sefydliadau yn y DU (yn hytrach na gan chwaraewyr byd-eang) a gwasanaethau llinol.

Gan symud ymlaen i nawr, ac mae cyfran y BBC o amser cyfryngau honedig oedolion wedi gostwng i 22% (2024),[4] mae cynulleidfaoedd yn symud oddi wrth ddarlledwyr traddodiadol at ddarparwyr ar-lein a byd-eang, ac mae refeniw ffi'r drwydded wedi gostwng i £3.8 biliwn.[5] Mae heriau sy'n gysylltiedig â sut gall y BBC barhau i gyrraedd pob cynulleidfa ac uniaethu â nhw i gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus, gan gefnogi'r economi greadigol, bellach yn bwysicach. Ar yr un pryd, o ystyried presenoldeb sylweddol chwaraewyr byd-eang, mae effaith bosibl y BBC ar eraill wedi lleihau. Mae pryderon nawr yn ymwneud yn bennaf â lle mae'r BBC yn cystadlu â chystadleuwyr domestig, fel ar ei wasanaethau llinol, lle mae ei gyfran o wylio a gwrando wedi aros yn fwy sefydlog. Mae cynaliadwyedd y BBC yn y tymor hwy hefyd wedi cael ei gwestiynu.

## Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r BBC wedi parhau i ddarparu'n llwyddiannus ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU

O ystyried dyletswyddau'r BBC i wasanaethu holl gynulleidfaoedd y DU, mae'n hanfodol ei fod yn parhau i fod yn berthnasol i bawb gydag amrywiaeth eang o gynnwys unigryw o ansawdd uchel. Mae rhaglenni fel *Celebrity Traitors* yn dangos sut gall y BBC gyrraedd cynulleidfaoedd enfawr o hyd, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, ar draws llwyfannau, gyda'r BBC yn dweud bod 14.8 miliwn o bobl yn gwylio ei bennod gyntaf. Yn galonogol, mae ein hymchwil yn dangos bod bodlonrwydd cyffredinol cynulleidfaoedd â'r BBC wedi aros yn uchel ers 2017. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr Adolygiad Cyfnodol cyntaf, mae rhai cynulleidfaoedd sy'n llai bodlon yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys

---

[1] IPA TouchPoints 2015, oedolion Prydain Fawr 15+ oed. Amser cyfryngau = teledu/fideo, sain, newyddion ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

[2] Er enghraifft, roedd sianeli teledu llinol y BBC wedi cyrraedd dros 80% o'r boblogaeth ar setiau teledu yn unig.

[3] Datganiadau Ariannol Llawn y BBC 2014/15, t.7.

[4] IPA TouchPoints 2025 Superhub (ton 2 2024 a thon 1 2025), oedolion Prydain 15 oed a hŷn. Amser cyfryngau = teledu/fideo, sain, newyddion ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

[5] Mae'r refeniw wedi disgyn i £3.8bn yn 2024/25, wrth gymharu â'r ffigur a addaswyd ar gyfer chwyddiant o £5bn yn 2014/15. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2024/25, t.59.

cynulleidfaoedd anabl, gwylwyr iau, a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol D neu E.[6] Rydym wedi dweud bod angen i'r BBC wneud mwy i barhau i fod yn berthnasol i'r cynulleidfaoedd hyn.

Er mwyn llwyddo yng nghanol y gystadleuaeth fyd-eang a chynyddu ymgysylltiad cynulleidfaoedd, mae'r BBC wedi canolbwyntio ar drawsnewid i fod yn sefydliad digidol gyda'i strategaeth digidol yn gyntaf. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, cynyddu'r buddsoddiad yn rhaglenni BBC iPlayer a BBC Sounds ac mewn newyddion fideo a digidol. Mae'r BBC hefyd wedi bod yn datblygu cynnwys wedi'i deilwra ar gyfer llwyfannau trydydd parti. Mae bod ar gael ar y llwyfannau hyn yn llwybr arall i'r BBC gyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Er mwyn cynnal y trawsnewidiad digidol hwn, bydd angen i'r BBC barhau â'i fuddsoddiad mewn technolegau a gwasanaethau newydd. Ar yr un pryd, mae'n canolbwyntio ar wneud llai o raglenni, sydd o ansawdd uwch ac mae'n credu bod hyn yn bwysig i wella bodlonrwydd ymysg cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ac ar gyfer cefnogi cynrychiolaeth a phortreadu.

Yn y frwydr ffyrnig am sylw cynulleidfaoedd, rydym yn dechrau gweld arwyddion cynnar y gallai ei ymdrechion i wella ymgysylltiad â chynulleidfaoedd iau fod yn dechrau cael effaith. Er enghraifft, roedd lefelau gwylio cyffredinol y BBC (ar-alw, yn ogystal â gwylio byw ac wedi'i recordio) wedi cynyddu ar gyfer plant ac oedolion ifanc eleni, ac roedd y BBC wedi cynyddu ei gyfran o holl wylio darlledwyr o 29% i 34% ymysg pobl ifanc 16-24 oed, gyda 2024 yn flwyddyn gryf iawn i chwaraeon.[7] Mae symudiad y BBC i gyrraedd plant lle maent ar lwyfannau fel YouTube hefyd wedi arwain at gynnydd yn lefelau gwylio cynnwys y BBC. Byddwn yn monitro a yw'n gallu cynnal y duedd hon.

## Mae'r BBC wedi cynnal rôl bwysig yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Drwy gydol cyfnod y Siarter, mae ymgysylltiad cyffredinol cynulleidfaoedd â chynnwys y BBC ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau wedi aros yn gryf, ac mae'r BBC yn dal i chwarae rhan unigryw yn cefnogi'r economi greadigol ledled y DU. Yn Argyfwng Darlledu , fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod ei fuddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn hanfodol i gynnal ecosystemau cynhyrchu lleol. Heb bŵer comisiynu'r BBC, byddai llawer o gynhyrchwyr annibynnol y tu allan i Lundain yn ei chael hi'n anodd goroesi.

Mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd yn gweld pobl fel nhw ac yn clywed eu straeon lleol, ac mae'r BBC yn cyflawni hyn drwy ei raglenni effaith uchel sy'n cael eu comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn ogystal â chynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n benodol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd. Rydym yn nodi eleni nad yw'r BBC, mewn rhai gwledydd, wedi cyflawni ei ymrwymiadau ei hun i ddarparu'r cynnwys hwn sy'n benodol i'r gwledydd.[8]

Mae'r BBC yn ffynhonnell hanfodol o newyddion a materion cyfoes yn y gwledydd a'r rhanbarthau ac mae 81% o'r oedolion sy'n dilyn newyddion rhanbarthol/lleol ar deledu rhanbarthol y BBC yn dweud eu bod yn fodlon ar ei ansawdd.[9] Serch hynny, mae heriau i'r BBC, gan fod ein hymchwil wedi canfod bod cynulleidfaoedd fel arfer wedi rhoi sgôr is i'r BBC o ran cyflawni Diben Cyhoeddus 4 na'r

[6] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.
[7] Roedd gwylio ymysg plant 4-15 oed ac ymysg oedolion 16-24 oed wedi cynyddu 9% ac 11% yn y drefn honno. Barb, fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Roedd gwylio chwaraeon wedi cynyddu yn ystod y Gemau Olympaidd ac Ewros y Dynion.
[8] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes (DoMaPP) 2024/25, t.84 a t.92.
[9] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025. Mae cyfran debyg (80%) o'r rhai sy'n dilyn newyddion lleol ar radio gwledydd neu radio lleol y BBC yn dweud eu bod yn fodlon ar ansawdd y newyddion rhanbarthol neu leol maent yn eu darparu.

dibenion cyhoeddus eraill drwy gydol y Siarter. Eleni, roedd 59% o oedolion y DU wedi rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am *'adlewyrchu bywyd a diwylliannau cymunedau ledled y Deyrnas Unedig'*.[10]

Er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well yn y gwledydd a'r rhanbarthau, mae'r BBC wedi bod yn gweithredu ei gynllun [strategaeth Across the UK], a lansiwyd yn 2021, sy'n canolbwyntio ar ddatganoli cynyrchiadau a chynyddu cynrychiolaeth y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau fel cynyddu gwariant comisiynu rhwydwaith y tu allan i Lundain i o leiaf 60% erbyn diwedd cyfnod presennol y Siarter. Mae'r BBC eisoes wedi rhagori ar y targed hwn o flaen yr amserlen, gyda 61% o'i wariant cymwys ar deledu rhwydwaith yn 2024 wedi'i ddyrannu i'r gwledydd a'r rhanbarthau.[11]

Er gwaethaf y cynnydd hwn, nid yw effaith gweithredoedd y BBC wedi newid agweddau cynulleidfaoedd yn llawn yn y gwledydd eto. Mae gwella canfyddiadau o ba mor dda mae'r BBC yn cynrychioli bywyd a diwylliant y DU yn dal yn her ac mae ymchwil ddiweddar y BBC ei hun yn dangos bod cynulleidfaoedd yn ystyried bod y BBC yn llai effeithiol yn y maes hwn.[12] Mae'n dweud ei fod nawr yn ystyried canfyddiadau ei ymchwil, gan gynnwys meysydd fel sut gall fod yn fwy atebol ac ymatebol i anghenion cynulleidfaoedd, a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl wrth i'r DU symud yn llawn i ddyfodol digidol.

Bydd hefyd yn bwysig bod y BBC yn parhau i ddatblygu rhwydwaith ac ôl troed eang o gomisiynwyr, cynhyrchwyr a phartneriaethau gwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Gall comisiynwyr sydd wedi'u lleoli ar draws y  gwledydd a'r rhanbarthau sydd â'r ymreolaeth i gomisiynu cynnwys, dyrannu cyllidebau ac sy'n atebol am gyflawni yn y cymunedau hyn helpu i sicrhau bod rhaglenni dilys yn cael eu datblygu sy'n seiliedig ar wybodaeth leol, ac sy'n taro tant â chynulleidfaoedd ledled y DU. Mae'r cynnwys hwn yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y BBC.

## Mae cynulleidfaoedd y DU yn dal i ymddiried yn y BBC ac yn ei werthfawrogi

Er bod ymddiriedaeth tuag at sefydliadau a darparwyr cyfryngau traddodiadol wedi gostwng,[13] mae ein hymchwil yn dangos bod y BBC wedi cynnal ei safle fel ffynhonnell newyddion ddibynadwy a chywir a darparwr newyddion mwyaf poblogaidd y DU. Roedd tua dwy ran o dair (67%) o oedolion yn y DU wedi defnyddio BBC News ar draws ei holl lwyfannau yn 2025; gyda 68% o ddefnyddwyr rheolaidd yn rhoi sgôr uchel am ddibynadwyedd newyddion teledu'r BBC, a 70% yn rhoi sgôr uchel iddo am gywirdeb adroddiadau – canfyddiadau sydd wedi cael eu cynnal dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd cyfran debyg o bobl ifanc hefyd yn rhoi sgôr uchel i'r BBC o ran dibynadwyedd.[14]

Fel yr oedden ni wedi'i nodi yn ein hadolygiad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae cynulleidfaoedd yn credu mai darparu newyddion dibynadwy a chywir yw un o gyfraniadau pwysicaf y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Gan fod darparu newyddion yn ganolog i gylch gwaith y BBC, mae'n hanfodol ei fod yn cynnal perthynas ddibynadwy â chynulleidfaoedd.

---

[10] Traciwr Perfformiad Ofcom y BBC 2024/25.
[11] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[12] Adroddiad Ein BBC Ein Dyfodol. Roedd 51% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y BBC yn effeithiol nawr o ran adlewyrchu pobl ar draws y DU a gwahanol rannau o'r DU, gan sgorio'n is na phedwar datganiad (allan o chwech) yr holodd y BBC amdanynt.
[13] Reuters Institute Digital News Report 2025, t.67. Roedd y gyfran sy'n ymddiried yn 'y rhan fwyaf o newyddion y rhan fwyaf o'r amser' yn y DU wedi disgyn o 51% yn 2015 i 35% yn 2025.
[14] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025. BBC News yw'r ffynhonnell sy'n cael y sgôr uchaf am ddibynadwyedd ymysg pobl ifanc 16-24 oed o hyd, gyda 67% o ddefnyddwyr rheolaidd yn rhoi sgôr uchel iddo am ddibynadwyedd, cyn ITV (58%) a Sky (55%).

Ar sail cwynion rydym wedi'u cael gan gynulleidfaoedd, mae gan y BBC hanes da o gydymffurfio â rheolau darlledu sydd â'r bwriad o sicrhau bod rhaglenni'n ddigon diduedd. Fodd bynnag, mae ei sgoriau ar gyfer canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd wedi aros yn is na'i sgoriau ar gyfer ymddiriedaeth a chywirdeb ar draws cyfnod y Siarter.[15] Gallai amrywiaeth o ffactorau ddylanwadu ar hyn, gan gynnwys rhoi sylw i sgandalau ac argyfyngau uchel eu proffil neu faterion newyddion dadleuol sy'n effeithio ar y BBC o bryd i'w gilydd. Ar ben hynny, mae cynulleidfaoedd yn aml yn dal y BBC i safon uwch o ddidueddrwydd na darlledwyr eraill.[16]

Mae'r BBC wedi cymryd nifer o gamau i flaenoriaethu'r mater hwn, gan gynnwys drwy weithredu ei gynllun gweithredu didueddrwydd, mwy o dryloywder yn ei broses gwyno BBC yn Gyntaf a mentrau fel BBC Verify, sy'n agor ei brosesau golygyddol newyddion i fwy o graffu cyhoeddus. Yn dilyn Adolygiad Canol Tymor o'r BBC y Llywodraeth, rydym hefyd yn disgwyl cael cyfrifoldebau ychwanegol i adolygu rhagor o benderfyniadau'r BBC ar gwynion nad yw'n eu cadarnhau a gweithredu cod deunydd ar-lein newydd y BBC.

## Mae cyfleoedd i ddiogelu dyfodol y BBC a mynd i'r afael â heriau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r heriau sy'n wynebu'r BBC yn cyd-fynd â'r rheini rydym ni wedi'u nodi yn ein Hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac sy'n wynebu'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Nid oes ateb cyflym i ddatrys y materion hyn ar draws y sector ac fe wnaethom nodi diwygiadau hanfodol sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau allweddol i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Sef:

1. Amlygrwydd a pha mor hawdd yw canfod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar y llwyfannau trydydd parti y mae cynulleidfaoedd yn troi atyn nhw fwyfwy.
2. Cyllid sefydlog a digonol i gynnal ystod eang o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cynnwys newyddion dibynadwy a chywir, a rhaglenni sy'n dangos yr amrywiaeth ledled y DU ac sy'n dod â'r wlad ynghyd.
3. Eglurder ar frys ynghylch sut bydd teledu'n cael ei ddosbarthu yn y dyfodol.
4. Partneriaethau mwy uchelgeisiol ymysg y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.
5. Buddsoddi mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
6. Rheoliadau symlach sy'n cael gwared ar unrhyw hen gyfyngiadau diangen.

Fe wnaethom ddweud bod angen gweithredu nawr ac fe wnaethom amlinellu bod angen ymdrech gan bawb dan sylw, gan gynnwys darlledwyr, y Llywodraeth ac Ofcom.

I'r BBC, mae hyn yn golygu darparu cynnwys sy'n apelio at bob cynulleidfa, ac efallai y bydd angen iddo wneud hyn yn wahanol i'r rheini ar wahanol lwyfannau a gwasanaethau. Bydd gofyn i'r BBC barhau i weithio'n galed yn y gwledydd a'r rhanbarthau - i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd, ond hefyd parhau i gefnogi ac i gryfhau'r economi greadigol ledled y DU.

Gyda golwg ar ei rôl ganolog i ddarparu newyddion sy'n ddigon diduedd, dibynadwy a chywir, mae'n hanfodol bod y BBC yn canfod ac yn mynd i'r afael â materion yn brydlon ac yn dryloyw. Mae camgymeriadau golygyddol mawr yn gallu effeithio ar ganfyddiadau. Rhaid i'r BBC barhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau ymddiriedaeth cynulleidfaoedd, ni waeth sut maen nhw'n cael gafael ar newyddion, i'w helpu i barhau i fod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi, gan gefnogi democratiaeth ac sydd wrth galon y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Bydd Bwrdd y BBC yn

[15] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[16] Ofcom, Mehefin 2022, Drivers of perceptions of due impartiality: The BBC and the wider news landscape, t.7.

chwarae rhan allweddol drwy arwain y gwaith strategol hwn. Ar yr un pryd, mae angen i’r BBC ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i helpu i feithrin a chynnal perthynas ddibynadwy â´r cyhoedd.

Yn unol â'n hargymhellion o'r Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, mae cyfleoedd hefyd i'r BBC ddatblygu partneriaethau strategol a chefnogi defnydd cyfrifol o dechnoleg a deallusrwydd artiffisial.

Wrth i ni edrych tuag at yr Adolygiad o'r Siarter, mae cyfle nawr i'r Llywodraeth gefnogi BBC cynaliadwy sy'n darparu ar gyfer pob cynulleidfa, sy'n cynhyrchu cynnwys pwysig nad yw rhywfaint ohono efallai'n cael ei ddarparu gan y farchnad ac sy'n parhau i gefnogi'r economi greadigol ehangach. Bydd angen fframwaith rheoleiddio cyfredol arno i gefnogi hyn ac i sicrhau bod y BBC yn gallu addasu'n gyflym i newidiadau yn newisiadau cynulleidfaoedd wrth i ni ei ddal i gyfrif yn effeithiol.

# 3. Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus

Yn yr adran hon rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi cyflawni yn erbyn y Dibenion Cyhoeddus ers dechrau Cyfnod y Siarter yn 2017, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygiadau ers yr Adolygiad Cyfnodol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, ac mae'n cynnwys ein hasesiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Rydym hefyd yn trafod sut mae'r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair gwlad. Mae hyn yn wahanol i'n hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddiben Cyhoeddus 4.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol ac yn Atodiadau 1-2, sy'n cynnwys ein hasesiad o gydymffurfiad y BBC â'r gofynion rheoleiddio penodol o dan Drwydded Weithredu'r BBC.

Mae'r Dibenion Cyhoeddus, a nodir yn y Siarter Frenhinol, fel a ganlyn:[17]

## Diben Cyhoeddus 1

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas: dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n gywir ac yn ddiduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus.

## Diben Cyhoeddus 2

Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed: dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd hygyrch a difyr sy'n eu hysbrydoli ac yn eu herio. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.

## Diben Cyhoeddus 3

Dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau: dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydynt i gyd yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol.

[17] Erthygl 6 o'r Siarter Frenhinol.

## Diben Cyhoeddus 4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny: dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddilys fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, wrth gomisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.

## Diben Cyhoeddus 5

**Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd**: dylai'r BBC sicrhau darpariaeth newyddion o safon uchel i gynulleidfaoedd rhyngwladol, sy'n seiliedig ar werthoedd Prydeinig o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch. Dylai ei wasanaethau rhyngwladol roi'r Deyrnas Unedig yng nghyd-destun y byd, gan wella dealltwriaeth pobl o'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, gan gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau lle bo hynny'n briodol. Dylai sicrhau ei fod yn cynhyrchu allbwn a gwasanaethau y bydd pobl yn eu mwynhau yn y Deyrnas Unedig ac ym mhedwar ban byd.

## Sut rydym yn asesu perfformiad y BBC

Rydym yn nodi ein hasesiad o berfformiad y BBC o dan y Dibenion Cyhoeddus mewn perthynas â'r Fframwaith Mesur Perfformiad (PMF). Mae'r Fframwaith yn nodi ein dull o fonitro ac asesu perfformiad y BBC wrth hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus a chyflawni ei Genhadaeth. Mae'n cynnwys pedwar mesur perfformiad (Argaeledd, Defnydd, Effaith a Ffactorau Cyd-destunol) a set o egwyddorion rydym yn eu hystyried wrth eu cymhwyso.

Yn unol â'n dyletswydd i ystyried perfformiad BBC World Service fel rhan o'n Hadolygiadau Cyfnodol,[18] rydym yn crynhoi ei berfformiad (gweler Diben Cyhoeddus 5, tudalen 59-62). Nid yw Ofcom yn rheoleiddio'r gwasanaeth hwn, ac nid ydym wedi adrodd arno ers ein Hadolygiad Cyfnodol blaenorol (Tachwedd 2021).

Yn Atodiad 2 rydym yn rhoi crynodeb o'r ffynonellau data rydym wedi eu defnyddio ar gyfer pob mesur perfformiad yn ein hasesiad a chanllawiau ar sut mae cael gafael ar y data hwn a'i ddefnyddio yn ein hadroddiad rhyngweithiol.

[18] Cytundeb y BBC paragraff 35 (7).

# DIBEN CYHOEDDUS 1

**Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas**

## Defnyddio llwyfannau'r BBC ar gyfer newyddion ymysg oedolion

BBC ONLINE – Cyrhaeddiad o 60% bob mis


BBC TELEDU – Cyrhaeddiad o 43% bob wythnos

BBC RADIO – Cyrhaeddiad o 26% bob wythnos

## Allbwn materion cyfoes a newyddion rhwydwaith

| | |
|---|---|
| 2024 | 22,692 awr |
| 2023 | 22,533 awr |
| 2022 | 22,456 awr |
| 2021 | 22,508 awr |

## Defnydd o PSB ar gyfer newyddion – ar draws y platfformau




## Barn y gynulleidfa am y BBC yn gyffredinol

Newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd – 67% CADARNHAOL

Ymdriniaeth yn y newyddion sy'n ddiduedd – ddim yn ffafrio un ochr dros y llall – 55% CADARNHAOL

Ymdriniaeth yn y newyddion o'r hyn sy'n digwydd yn fy ardal leol – 55% CADARNHAOL

## Barn y gynulleidfa am y BBC yn ôl platfform

- BBC TELEDU: Dywedodd 75% "Mae Teledu...
- BBC AR-LEIN: Dywedodd 73% "Mae Ar-lein...
- BBC Sounds: Dywedodd 70% "Mae Sounds...
- BBC RADIO: Dywedodd 71%† "Mae Radio...
- BBC iPlayer: Dywedodd 70% "Mae iPlayer...

...yn fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw"

*Ffynonellau: Barb fel y'i gwyliwyd, sianeli teledu ac ar–alw, setiau teledu a dyfeisiau eraill wedi'u cysylltu â Wi-fi yn y cartref, 16+ oed (cyrhaeddiad wythnosol 3+ munud); Arolygon Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025; dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data Ipsos Iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfa Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15+ oed, Mawrth 2025; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.*

**DC1 dros Gyfnod y Siarter, gan gynnwys uchafbwyntiau ar gyfer y flwyddyn hon**

Y BBC yw ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd y DU o hyd dros y Siarter. Mae wedi parhau i ddarparu newyddion a materion cyfoes o ansawdd uchel ar draws teledu a radio, gan ehangu ei arlwy ar-lein, gan gynnwys ar lwyfannau trydydd parti i hybu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad. Mae ei gyrhaeddiad wedi bod yn gadarn yng nghanol tarfu digidol parhaus a mwy o gystadleuaeth ac er bod gostyngiad wedi bod yn y defnydd ers 2021, mae 67% o oedolion y DU yn dal i'w ddefnyddio ar gyfer newyddion yn 2025. Mae tua saith o bob deg sy'n defnyddio newyddion teledu'r BBC yn rheolaidd yn rhoi sgôr uchel iddo yn gyson am gywirdeb ac ymddiriedaeth. [19]

**Perfformiad y BBC yn 2024/25:**

- Roedd nifer yr oriau o raglenni newyddion a materion cyfoes ar y teledu yn sefydlog yn 2024, gyda chynnydd bach mewn oriau dangos cynnwys am y tro cyntaf oherwydd etholiadau yn y DU ac yn yr Unol Daleithiau.[20]
- Roedd cyfanswm y gwariant ar raglenni teledu newyddion a materion cyfoes wedi codi 0.4% i £310.5 miliwn yn 2024, ond mewn termau real dyma oedd y lefel isaf o fuddsoddiad yn ystod Cyfnod y Siarter.[21]
- Ehangodd y BBC ei wasanaethau newyddion digidol, gan gynnwys lansio BBC InDepth, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan 2.4 miliwn o ddefnyddwyr unigryw, ac "Eich Llais Eich BBC". Mae hefyd wedi buddsoddi ymhellach yn BBC Verify a ddefnyddiwyd gan 1.2 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol ar gyfartaledd yn 2024-25.[22]

Yn Adolygiad Cyfnodol diwethaf Ofcom, roeddem yn cydnabod mai'r BBC yw'r ffynhonnell newyddion fwyaf dibynadwy sy'n cael ei defnyddio amlaf yn y DU, ac roedd yn cael ei werthfawrogi'n arbennig am ei gywirdeb a'i ansawdd. Fe wnaethom nodi twf cryf yng nghyrhaeddiad newyddion ar-lein y BBC, gyda mwy o ddefnydd o wefan ac ap BBC News, a dyblu nifer y bobl sy'n gwylio YouTube o un flwyddyn i'r llall, wedi'i sbarduno'n bennaf gan Covid-19. Roedd canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd y BBC yn is na'r rhai ar gyfer dibynadwyedd a chywirdeb, ond roeddem wedi nodi'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â mesur y canfyddiadau hyn sy'n cael eu sbarduno gan nifer o ffactorau. Pwysleisiodd Ofcom hefyd fod gan y BBC gyfle i wasanaethu pob cynulleidfa'n well drwy ei newyddion ar-lein, yn enwedig pobl ifanc, gan nodi cyrhaeddiad wythnosol cynyddol gwefan/ap BBC News ymysg pobl ifanc 16-34 oed.

[19] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion. Data o adroddiadau ar draws Cyfnod y Siarter.
[20] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[21] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[22] BBC, DoMaPP 2024/25, t.13. Lansiwyd Eich Llais, Eich Pleidlais yn ystod Etholiad Cyffredinol y DU a chafodd ei ail-lansio fel Eich Llais Eich Newyddion BBC ym mis Hydref 2024.

# Ein hasesiad

## Agweddau cynulleidfaoedd at newyddion y BBC a materion cyfoes

### Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf yn y DU o hyd

Mae 70% yn cael eu newyddion nawr gan wasanaethau ar-lein, gyda 51% o oedolion yn cael newyddion ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.[23] Yn yr Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom nodi manteision ystod ehangach o newyddion i gynulleidfaoedd ar-lein, ond hefyd yr heriau o allu dod o hyd i newyddion cywir a dibynadwy o ansawdd uchel. Mae hyn yn golygu bod rôl y BBC yn bwysicach nag erioed.

Mae wedi parhau i fod y darparwr newyddion sy'n cael ei ddefnyddio amlaf yn y DU drwy gydol cyfnod y Siarter, gan gyrraedd 67% o holl oedolion y DU yn 2025 ar draws ei holl lwyfannau.[24] Er gwaethaf y duedd ar i lawr wrth gael gafael ar newyddion teledu traddodiadol, gyda gwylwyr bellach yn treulio llai na hanner eu hamser gwylio yn y cartref ar deledu byw,[25] BBC One yw'r un gwasanaeth newyddion mwyaf poblogaidd o hyd. Mae ychydig o dan hanner (41%) oedolion y DU yn dweud eu bod yn ei ddefnyddio yn 2025 (i lawr o 53% yn 2022). BBC Ar-lein yw'r darparwr newyddion ar-lein uchaf ei gyrhaeddiad, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan 57% o'r rheini sy'n defnyddio gwefannau neu apiau ar gyfer newyddion.[26]

Ymysg oedolion iau, mae'r BBC yn dal yn ffynhonnell newyddion bwysig, gyda 52% o bobl 16-24 oed yn dweud eu bod yn defnyddio unrhyw un o wasanaethau newyddion y BBC. Mae hefyd wedi parhau i fod y ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd ymysg unigolion ifanc 12-15 oed, gyda 39% yn dweud eu bod yn ei defnyddio (yn weddol gyson) ers 2022.[27] Yn 2024/25, dywedodd dros draean (36%) o blant 3-16 oed eu bod yn gwylio *Newsround* ar CBBC neu ar BBC iPlayer o leiaf unwaith yr wythnos, ac mae 10% yn dweud yr un peth am wefan Newsround, sy'n gyson â'r blynyddoedd blaenorol. Ymysg plant 8–16 oed sy'n defnyddio gwefan Newsround neu sy'n gwylio'r bwletin ar CBBC neu BBC iPlayer, dywedodd 76% fod y ffynhonnell yn ddefnyddiol, cynnydd o 2023/24.[28]

### Mae cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel i ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC

Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal yn gadarnhaol am ddarpariaeth gyffredinol y BBC o ran newyddion a materion cyfoes. Mae wedi cael sgôr dda yn gyson ar draws ei wasanaethau am 'fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw'; yn 2025, dywedodd rhwng 70% a 75% o ddefnyddwyr rheolaidd hyn ar gyfer teledu'r BBC, BBC iPlayer, BBC Sounds, BBC Radio a BBC Ar-lein. Mae tua saith o bob deg defnyddiwr rheolaidd wedi rhoi sgôr uchel yn gyson i'r BBC am gywirdeb ar draws ei wasanaethau teledu, radio ac ar-lein.[29] O gymharu â darlledwyr gwasanaeth

[23] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[24] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion. Data o adroddiadau ar draws Cyfnod y Siarter.
[25] Ofcom, Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. t.14.
[26] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[27] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau 2025.
[28] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2024/25.
[29] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025. Gwasanaethau teledu'r BBC (70%), radio (70%) ac ar-lein (71%).

cyhoeddus a darparwyr masnachol eraill, mae'n perfformio'n dda o ran y rhain a nodweddion eraill.[30]

Fel y nodwyd yn ein [Hadroddiad Blynyddol blaenorol](), mae'r BBC wedi parhau i arloesi mewn newyddion. Er enghraifft, yn 2023, lansiodd BBC Verify, menter gwirio ffeithiau sydd wedi'i dylunio i gefnogi mwy o dryloywder yn ei newyddiaduraeth ac i helpu i fynd i'r afael â chamwybodaeth. Yn 2025, ychwanegodd BBC Verify Live, gan gynnig diweddariadau dilysu treigl drwy gydol y dydd. BBC Verify yw'r gwasanaeth gwirio ffeithiau sy'n cael ei ddefnyddio amlaf ymysg oedolion yn y DU, gyda 21% o'r rheini sy'n 16 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi'i ddefnyddio.[31] Yn 2024, fe wnaeth y BBC lansio BBC *InDepth*, brand newyddion digidol sy'n darparu dadansoddiad a sylwebaeth ar faterion o bwys yn y DU ac yn rhyngwladol, y mae'n dweud sy'n denu 2.5 miliwn o ddefnyddwyr.[32]

Drwy gydol y Siarter, mae cynulleidfaoedd wedi troi'n gyson at y BBC i roi sylw i ddigwyddiadau cenedlaethol mawr fel angladd EM y Frenhines Elizabeth II yn 2022 ac Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024 - gan ddangos ei rôl fel ffynhonnell ddibynadwy o newyddion yn ystod digwyddiadau cyhoeddus arwyddocaol.

**Rôl y BBC yn rhoi sylw i Etholiad Cyffredinol 2024**

Yn ystod Etholiad Cyffredinol 2024 y DU, rhoddodd y BBC sylw cynhwysfawr ar draws llwyfannau a oedd yn tanlinellu ei rôl ganolog o ran rhoi gwybodaeth i ddinasyddion yn ystod adeg ddemocrataidd ganolog.

Roedd ymchwil a gynhaliwyd gennym yn ystod cyfnod yr etholiad yn tynnu sylw at y rôl bwysig mae'r BBC yn ei chwarae. Ymysg cynulleidfaoedd a oedd yn defnyddio'r teledu i gael newyddion a gwybodaeth am yr etholiad cyffredinol, dywedodd bron i bedwar o bob pump (78%) eu bod yn defnyddio'r BBC; dywedodd tua dwy ran o dair (65%) o'r rheini sy'n defnyddio'r radio eu bod yn defnyddio radio'r BBC, ac ar gyfer apiau a gwefannau newyddion ar-lein, dywedodd tri o bob pump (60%) o'r rheini sy'n defnyddio'r math hwn o ffynhonnell eu bod yn defnyddio BBC News ar-lein. Ar draws pob un o'r ffynonellau hyn, y BBC oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf.[33]

Yn 2024, fe wnaeth y BBC wella ei sylw i etholiadau gyda chyfres o gamau arloesol golygyddol a digidol wedi'u dylunio i wella ymgysylltiad cynulleidfaoedd ac ehangu cynrychiolaeth. Roedd y cynllun *Eich Llais, Eich Pleidlais* yn gwahodd y cyhoedd i siapio'r sylw a roddir i faterion nad ydynt yn cael eu cofnodi'n ddigonol - fel trafnidiaeth wledig - a rhannu straeon personol am faterion allweddol fel tai a'r GIG. Roedd mewnbwn y gynulleidfa hefyd yn sail i gyfweliadau Panorama gydag arweinwyr pleidiau.

Cyflwynodd BBC Sounds ffrwd fyw o'r enw "Election 24" yn ystod darllediadau etholiadol y DU, a ddatblygodd yn wasanaeth newyddion treigl 24 awr sydd ar gael drwy ddeial yr hafan, gan gefnogi sylw parhaus i straeon pwysig sy'n torri.

---

[30] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025. Defnyddwyr rheolaidd yn canmol y brand am ei gywirdeb: ITV (69%); Sky (69%); Channel 4 (70%). Mae nodweddion eraill y mae'r BBC yn perfformio'n dda arnynt yn cynnwys ymddiriedaeth lle mae 68% o ddefnyddwyr rheolaidd yn rhoi sgôr uchel i deledu'r BBC am ymddiriedaeth, gan ei sgorio yn unol â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill: ITV (68%); Sky (67%); Channel 4 (72%).

[31] Arolwg Ofcom ar Gamwybodaeth a Thwyllwybodaeth 2024 - Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU, YouGov. Sylfaen: Oedolion y DU 16 oed a hŷn sy'n cynrychioli safbwyntiau gwleidyddol gwahanol o banel ar-lein YouGov.

[32] BBC, DoMaPP 2024/25, t.13.

[33] Ofcom, Arolwg newyddion a ffurfio barn Etholiad Cyffredinol y DU 2024.




## Allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC

### Mae allbwn newyddion a materion cyfoes ar y teledu wedi aros yn sefydlog

Ers adolygiad cyfnodol diwethaf Ofcom, mae'r BBC wedi ailstrwythuro ei wasanaethau newyddion rhwydwaith mewn ymateb i bwysau ariannol a'r newid tuag at ddefnydd digidol. Unodd ei ddwy sianel newyddion ym mis Ebrill 2023 ac fel rhan o gynllun arbedion ehangach gwerth £24m ar draws newyddion a materion cyfoes, cyhoeddodd newidiadau i adroddiadau ymchwiliol a *Newsnight* ym mis Tachwedd 2023.

Yn gyffredinol, mae'r allbwn ar gyfer newyddion a materion cyfoes teledu rhwydwaith wedi aros yn weddol sefydlog drwy gydol Cyfnod y Siarter, gyda chynnydd sydyn yn 2020 oherwydd sylw'r pandemig. Yn 2024, cynyddodd allbwn ychydig o'r flwyddyn flaenorol ac roedd oriau newyddion wedi codi 1% i 20,845, wedi'i sbarduno gan sylw i etholiadau'r DU ac UDA, tra bod oriau materion cyfoes wedi gostwng 5% i 1,847 oherwydd llai o ailddarllediadau. Cynyddodd allbwn newyddion a materion cyfoes gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf o 1% i 16,578 awr, gan ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig.[34]

Cynyddodd gwariant y BBC ar raglenni teledu newyddion a materion cyfoes ychydig mewn termau nominal yn 2024, gan gyrraedd £310.5m - cynnydd o 0.4%, gyda gwariant ar newyddion yn gostwng 1%, tra bod gwariant ar faterion cyfoes wedi cynyddu 7%. Fodd bynnag, wrth addasu ar gyfer chwyddiant, roedd cyfanswm gwariant y BBC ar y rhaglenni hyn yn 2024 ar ei lefel isaf yn ystod y Siarter.[35]

Mae nifer y bobl sy'n gwylio rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar sianeli teledu'r BBC wedi gostwng dros gyfnod y Siarter; ymysg oedolion, gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog yr holl newyddion ar sianeli teledu'r BBC ac ar-alw o 52% yn 2022 i 44% yn 2024. Roedd cyrhaeddiad wythnosol rhaglenni materion cyfoes ar sianeli teledu'r BBC ac ar-alw hefyd wedi gostwng o 18% yn

[34] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC.
[35] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC, sydd yma'n cynnwys gwariant ar raglenni rhwydwaith a gwledydd a rhanbarthau (ac eithrio BBC ALBA).

2022 i 17% yn 2025.[36] Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad BBC ar-lein wedi parhau i gynyddu, a ddefnyddir gan 60% o oedolion bob mis yn 2024/25, o'i gymharu â 55% yn 2023/24, a 54% yn 2022/23.[37] Ar adeg lle mae cynulleidfaoedd yn cael mwy a mwy o newyddion ar-lein, yn hytrach na thrwy wasanaethau llinol traddodiadol,[38] mae cyrhaeddiad parhaus cynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC ar draws gwahanol lwyfannau yn gadarnhaol.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwylio llinol, mae mentrau penodol a gynhaliwyd gan y BBC wedi rhoi hwb i lefelau gwylio mewn achosion penodol. Er enghraifft, mae'r BBC wedi dweud bod ymestyn *BBC Breakfast* o 15 munud yn 2023/24 wedi arwain at gynnydd o bron i 400,000 o wylwyr yn ystod yr wythnos waith[39], ac mae ailfformatio *Newsnight* wedi arwain at gynnydd o 70% yn ei lefelau gwylio ar iPlayer a chynnydd o draean yn y gynulleidfa wythnosol ar draws llwyfannau yn 2025.[40]

Rydym wedi amlinellu o'r blaen pa mor bwysig yw galluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys pwysig, fel newyddion a materion cyfoes, ar wasanaethau ar-lein y BBC ac mae wedi gwneud newidiadau i iPlayer sydd wedi ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys. Efallai fod cyflwyno rheilen newyddion bwrpasol ar hafan BBC iPlayer ym mis Mai 2024, ochr yn ochr â lleoliad gwell yn yr adran “New & Trending”, wedi cyfrannu at gynnydd o 8% yn nifer y cyfrifon gweithredol wythnosol sy'n cael gafael ar gynnwys newyddion. Mae hefyd yn sicrhau bod rhaglenni materion cyfoes ar gael yn gynharach yn y dydd, er enghraifft, mae 95% o raglenni dogfen bellach yn cael eu rhyddhau ar BBC iPlayer am 6am ar y diwrnod darlledu. Mae'r BBC yn dweud bod hyn wedi helpu i gefnogi trawshyrwyddo amserol drwy raglenni brecwast a bwletinau newyddion. Yn 2025, denodd BBC iPlayer 2.7 miliwn o gyfrifon gweithredol wythnosol yn cael gafael ar gynnwys newyddion, i fyny o 2.5 miliwn y flwyddyn flaenorol.[41]

## Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion ar-lein fwyaf poblogaidd ac mae’n tyfu ar gyfryngau cymdeithasol

Yn ogystal â rhoi ei strategaeth Digidol yn Gyntaf ar waith, roedd cynllun arbedion ac ailfuddsoddi'r BBC yn cynnwys ehangu darpariaeth ddydd a nos, gwella ffrydio byw drwy BBC iPlayer ac ap BBC News, a chynyddu argaeledd adroddiadau manwl, effaith uchel ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein, gan ganolbwyntio ar frandiau newyddion ar-lein unigryw.

Mae'r newidiadau hyn wedi ei helpu i gynnal ei safle ar-lein - dyma'r ffynhonnell newyddion ar-lein sy'n cael ei defnyddio amlaf, gyda 57% o oedolion sy'n cael gafael ar newyddion yn uniongyrchol drwy wefannau neu apiau'n defnyddio BBC Ar-lein. Mae hyn ymhell ar y blaen i ddarparwyr newyddion eraill fel Sky News (21%), The Guardian (20%), a'r Daily Mail (14%).[42] Gwefan ac ap y BBC yw'r ffynonellau newyddion lleol sy'n cael eu defnyddio fwyaf hefyd (37%), cyn bwletinau

---

[36] Barb, fel y'i gwyliwyd yn fyw + chwarae recordiadau + BBC iPlayer a lefelau gwylio ar-alw eraill. Oedolion 16 oed a hŷn. Meini prawf cyrhaeddiad 3+ munud. Mae newyddion yn cynnwys newyddion rhwydwaith a newyddion sy'n benodol i ardal. Mae Materion Cyfoes yn cynnwys Gwleidyddol/Economaidd/Cymdeithasol yn unig.

[37] Ipsos Iris 15 oed a hŷn, gwefan ac ap newyddion wedi'u cynnwys, nid yn cynnwys deunydd wedi'i ddosbarthu.

[38] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025; mae 70% o oedolion y DU yn defnyddio gwasanaethau ar-lein ar gyfer newyddion yn 2025, o'i gymharu â 63% sy'n defnyddio teledu llinol ar gyfer newyddion.

[39] BBC, DoMaPP 2023/24, t.10.

[40] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2024/25, t.18.

[41] BBC, DoMaPP 2023/24, t.15; BBC, DoMaPP 2024/25, t.6.

[42] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.

rhanbarthol ar BBC One (35%) a grwpiau cyfryngau cymdeithasol lleol (34%).[43] Rydym yn trafod newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau ymhellach yn Niben Cyhoeddus 4.

Ar BBC News ar-lein, mae gwelliannau o ran cyfeirio defnyddwyr wedi helpu i wella'r gallu i ganfod a chynyddu ymgysylltiad. Mae'r BBC yn adrodd bod ffrydio byw wedi cael ei ehangu ar draws gwefan, ap BBC News a BBC iPlayer ac oherwydd ei fod yn fwy amlwg, roedd ffrydiau stori wedi denu 951,000 o ymwelwyr unigryw bob wythnos ar gyfartaledd yn 2025.[44]

Mae'r BBC wedi bod yn cynyddu ei bresenoldeb ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Yn 2025, ymysg oedolion sy'n cael eu newyddion fel hyn, dywedodd 33% o ddefnyddwyr X (Twitter gynt) eu bod wedi gweld newyddion o gyfrifon y BBC, gydag oddeutu chwarter defnyddwyr Facebook (26%) a TikTok (24%) yn dweud yr un peth. Mae defnyddio llwyfannau'r BBC ar gyfer newyddion yn amrywio yn ôl demograffeg, ac mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan gynulleidfaoedd iau. Ymysg pobl 16-24 oed, gwasanaethau Meta (gan gynnwys Facebook, Instagram a WhatsApp) sydd â'r cyrhaeddiad uchaf ar gyfer newyddion sef 56%, wedi'i ddilyn yn agos gan y BBC ar 52%. Mae TikTok hefyd yn ffynhonnell newyddion bwysig i oedolion ifanc, gyda 34% o bobl 16-24 oed yn ei ddefnyddio ar gyfer hyn.[45] Mae'r BBC wedi ehangu ei bresenoldeb ar TikTok, gyda'i gyfrif BBC News yn cyrraedd dros 7 miliwn o ddilynwyr erbyn diwedd 2024/25. Yn ystod yr un cyfnod, cynhyrchodd y cyfrif dros 4 biliwn o ymweliadau, gyda nifer y gwylwyr misol yn tueddu i gynyddu. Mae'r BBC yn dangos bod dros 40% o'r gynulleidfa ddyddiol a gyrhaeddwyd ar TikTok rhwng 18 a 24 oed.[46]

Rydym yn croesawu cynlluniau'r BBC i ehangu ei ddarpariaeth newyddion ar lwyfannau trydydd parti fel YouTube a TikTok.[47] Mae hyn yn cyd-fynd â'n hargymhelliad yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fynd lle bynnag mae cynulleidfaoedd - yn enwedig grwpiau iau ac anoddach eu cyrraedd. Mae ehangu cynnwys newyddion ar y llwyfannau hyn yn gyfle gwerthfawr i gynyddu gwelededd ac ymgysylltiad.

## Mae'r BBC wedi bod yn datblygu ei wasanaethau sain, gan gynnwys mwy o amlygrwydd i newyddion ar BBC Sounds

Ers 2022, mae'r BBC wedi cymryd camau i foderneiddio ac i ehangu ei arlwy newyddion radio a sain ddigidol. Mae ei orsafoedd radio rhwydwaith yn parhau i ddarparu bwletinau newyddion rheolaidd a rhaglenni materion cyfoes. Mae wedi tyfu ei lwyfan BBC Sounds yn sylweddol, gan drawsnewid nifer o raglenni llinol, fel *File on 4* a *The Briefing Room*, i gael eu rhyddhau yn ddigidol yn gyntaf a datblygu amrywiaeth o bodlediadau materion cyfoes fel *Newscast*, *Americast* a *Marianna in Conspiracyland*.[48]

Erbyn hyn, mae mwy o integreiddio rhwng BBC News Online a BBC Sounds, gan ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys newyddion a materion cyfoes ar draws llwyfannau. Lansiwyd ffrwd newyddion byw 24 awr ar BBC Sounds ac mae ar gael drwy ap BBC News, ac mae cynnwys BBC Sounds ar gael fwyfwy ar wefan BBC News.[49]

Yn 2025, mae 38% o oedolion y DU yn defnyddio radio ar gyfer newyddion, ac o'r rheini, mae saith o bob deg (72%) yn dweud eu bod yn defnyddio un o orsafoedd y BBC. BBC Radio 2, Radio 4 a Radio 1

[43] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau a Newyddion Lleol 2025.
[44] BBC, DoMaPP 2024/25, t.5.
[45] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[46] BBC, DoMaPP 2024/25, t.15.
[47] Cynllun Blynyddol y BBC 2025/26, t.3.
[48] BBC, DoMaPP 2023/24, t.18.
[49] BBC, DoMaPP 2024/25, t.11.

yw’r gorsafoedd sy’n cael eu defnyddio fwyaf ar gyfer newyddion o hyd.[50] Rhaglen Radio 4 *Today* yw'r rhaglen newyddion sy'n cael y nifer uchaf o wrandawyr ar orsafoedd siarad yn unig yn y DU o hyd, gan gyrraedd 10% o oedolion bob wythnos.[51]

Mae cyrhaeddiad BBC Sounds wedi tyfu o 4.06 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol ar gyfartaledd yn Ch1 2022 i 4.9 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol yn Ch1 2025.[52] Yn ôl ymchwil Ofcom, BBC Sounds yw'r ail lwyfan mwyaf poblogaidd ar gyfer gwrando ar bodlediadau yn y DU erbyn hyn, gyda 41% o wrandawyr podlediadau wythnosol wedi defnyddio'r llwyfan yn Ch1 2025. Fodd bynnag, mae'n dilyn Spotify a YouTube o ran y gwasanaethau y mae gwrandawyr yn eu defnyddio amlaf.[53] Ymysg portffolio podlediadau materion cyfoes y BBC, roedd *Newscast* ac *Americast* yn yr ail a'r seithfed safle yn y drefn honno yn nhabl 25 podlediad uchaf y DU ar gyfer gwrandawyr 55 oed a hŷn yn 2024/25 gan Edison Research.[54] Er bod newyddion a materion cyfoes yn un o'r prif genres ar gyfer pobl 18-34 oed, gyda 46% o wrandawyr podlediadau wythnosol yn y grŵp oedran hwn yn gwrando arnynt[55], nid oedd teitlau'r BBC ymysg y 10 uchaf ar gyfer gwrandawyr podlediadau 15-34 oed.[56]

## Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn canmol y BBC am newyddion dibynadwy a chywir ond mae safbwyntiau ar ddidueddrwydd yn parhau i amrywio rhwng grwpiau

Drwy gydol y Siarter, mae cynulleidfaoedd wedi cynnal canfyddiadau cadarnhaol o gywirdeb, ymddiriedaeth ac ansawdd newyddion y BBC, gydag oddeutu saith o bob deg yn rhoi sgôr uchel yr un i newyddion teledu'r BBC (70%, 68% a 74%, yn y drefn honno). Mae canfyddiadau cadarnhaol o ddidueddrwydd wedi bod yn gyson is na'r priodoleddau hyn, gyda 58% yn rhoi sgôr uchel i newyddion teledu'r BBC am hyn. [57] Mae ein hymchwil Traciwr Perfformiad y BBC yn amlygu pan ofynnwyd am y BBC yn gyffredinol, yn 2025, roedd 55% o oedolion y DU yn gadarnhaol tuag at y BBC am 'ddarllediad newyddion diduedd - ddim yn ffafrio un ochr dros un arall', ffigur sydd wedi aros yn weddol gyson dros gyfnod yr adolygiad. Mae agweddau'n amrywio rhwng demograffeg; mae'r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol DE yn rhoi sgôr gyson llai ffafriol i ddidueddrwydd y BBC na'r rheini mewn aelwydydd AB (50% o'i gymharu â 63% yn 2024/25), gan dynnu sylw at raniad parhaus. [58]

Mae'r BBC wedi cynnal enw da am gadw didueddrwydd dyladwy yn ei allbwn dros y Siarter. Mae rhagor o fanylion am hyn a'r ffordd mae'n delio â chwynion o dan system BBC yn Gyntaf ar gael ym mhennod Safonau Cynnwys y ddogfen hon. Mae canfyddiadau o ddidueddrwydd y BBC yn gymhleth, yn enwedig mewn perthynas â rhoi sylw i faterion cenedlaethol a rhyngwladol sy’n hollti barn ac sy’n ddadleuol. Fel y gwelsom yn ein hymchwil a gynhaliwyd yn 2022 mae safbwyntiau gwrthwynebus yn aml wedi'u gwreiddio mewn hunaniaethau grŵp a gwerthoedd personol dwfn, sy'n gallu dwysáu ymatebion i sylw newyddion a chymhlethu canfyddiadau o ddidueddrwydd. Ar ben hynny, mae canfyddiadau o ddidueddrwydd yn cael eu siapio gan fwy na dim ond cynnwys golygyddol; maent yn ymestyn i ffactorau fel hunaniaeth brand y BBC, y model cyllido, a phortreadu yn y cyfryngau

---

[50] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[51] RAJAR Ch1 2025 ar bwysoliad 12 mis.
[52] Data Chwarterol BBC Sounds, Ch1 2022 t2 a Ch1 2025 t2.
[53] Arolwg Podlediadau Ofcom 2025.
[54] Edison Podcast Metrics UK, y 10 podlediad uchaf yn y DU gyda'r gynulleidfa wythnosol fwyaf, Ch2 2024 - Ch1 2025.
[55] Arolwg Podlediadau Ofcom 2025.
[56] Edison Podcast Metrics UK, y 10 podlediad uchaf yn y DU gyda'r gynulleidfa wythnosol fwyaf, Ch2 2024 - Ch1 2025.
[57] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[58] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.

ehangach.[59] Efallai y bydd darparu ar wahanol lwyfannau hefyd yn effeithio arnynt; er enghraifft, mae ychydig o dan dri o bob pump (58%) yn rhoi sgôr uchel i deledu'r BBC am ddidueddrwydd, ac mae tua dwy ran o dair (67%) yn dweud yr un peth am BBC iPlayer.[60]

Gallwn weld bod y BBC wedi bod yn datblygu nifer o fentrau i feithrin ymddiriedaeth ac i wella canfyddiadau o ddidueddrwydd. Fel y trafodwyd uchod, mae'r BBC wedi datblygu BBC Verify ac InDepth ymhellach ac yn 2024, cyflwynodd *Eich Llais, Eich Newyddion BBC*, menter ymgysylltu genedlaethol sydd wedi'i dylunio i adlewyrchu pryderon cynulleidfaoedd a phrofiadau bywyd mewn cynnwys newyddion a materion cyfoes. Dros amser, mae'r BBC yn bwriadu datblygu'r gwasanaeth hwn yn rhanbarthol er mwyn adlewyrchu straeon amrywiol ledled y DU yn well. Yn fewnol, rhoddodd y Cynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol ar waith mewn ymateb i Adolygiad Serota: gan gyflwyno gwell hyfforddiant i staff golygyddol a chanllawiau cliriach ar ddidueddrwydd. Dechreuodd hefyd gyhoeddi adolygiadau cynnwys thematig, sydd hyd yma wedi edrych ar ei sylw i gyllid cyhoeddus a mudo; mae i fod i gyhoeddi un arall ar bortread ac mae wedi cyhoeddi ei fwriad y bydd y nesaf ar sylw i'r Dwyrain Canol - gan edrych yn benodol ar wrthdaro Israel/Gaza. Yn dilyn ein cais am fwy o dryloywder yn *Adolygiad o reoleiddio'r BBC* yn 2022, dechreuodd y BBC hefyd gyhoeddi ei resymeg dros beidio â chadarnhau cwynion am ddidueddrwydd dyladwy sy'n cyrraedd cam olaf ei broses gwyno. Yn gynharach eleni, nododd y BBC hefyd ffyrdd y mae'n anelu at feithrin ymddiriedaeth.

### Monitro newidiadau diweddar ers mis Ebrill 2025

Ym mis Ebrill 2025, gofynnodd y BBC am ostyngiad yng nghwota ei Drwydded Weithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network i 675 awr y flwyddyn ac fe wnaethom gymeradwyo ei gais ym mis Gorffennaf 2025.[61] Bydd hyn yn cael ei drafod yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf ar y BBC.

## Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Yn 2024/25, gwnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion o dan DC1. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC yn 2024/25 â'r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.

[59] Ofcom/Jigsaw Pethau sy'n gyrru canfyddiadau ynghylch didueddrwydd dyladwy: Y BBC a'r dirwedd newyddion ehangach, Mehefin 2022.
[60] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[61] Ofcom, Newidiadau i BBC Radio Foyle a BBC Asian Network: Datganiad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, tt.3-4.

# DIBEN CYHOEDDUS 2

**Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oedran**

## DYSGU FFURFIOL I BLANT

### Cyrhaeddiad wythnosol Bitesize a BBC Teach

| BBC BITESIZE | BBC TEACH |
|---|---|
| 1.65m o ymwelwyr ▲ 1.5m yn 2023/24 | 170k o ymwelwyr ▲ 145k yn 2023/24 |




### Sgoriau BBC Bitesize

Dywed **91%** o'r defnyddwyr, 4-16 oed:

'Mae BBC Bitesize yn ddefnyddiol'

Mae **61%** o rieni yn canmol y BBC am gefnogi plant yn eu harddegau gyda'u dysgu

Mae **66%** o rieni plant dan 16 oed yn canmol y BBC am gefnogi plant iau gyda'u dysgu

Mae **67%** o blant 8-16 oed a rhieni plant 3-7 oed yn cytuno bod y BBC yn eu helpu nhw / yn helpu eu plant i ddysgu pethau newydd

### Cyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol CBeebies a CBBC

| | 4-6 oed | 4-15 oed |
|---|---|---|
| BBC CBeebies | 31% | 13% |

| | 7-12 oed | 4-15 oed |
|---|---|---|
| BBC CBBC | 8% | 7% |

Cyrhaeddiad wythnosol ar draws holl lwyfannau'r BBC ymhlith plant 3 – 16 oed **70%**

### Cynnwys dysgu anffurfiol ar sianeli'r BBC a wyliwyd gan oedolion bob mis ar gyfartaledd




### Graddau cadarnhaol am gynnwys dysgu'r BBC ymysg oedolion y DU

'Rhaglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd'

62% CADARNHAOL

'Ymdrin â materion a syniadau efallai nad yw pobl wedi dod ar eu traws o'r blaen'

53% CADARNHAOL

'Ysbrydoli pobl i roi cynnig ar weithgareddau, hobïau neu ddiddordebau newydd'

51% CADARNHAOL

**Partneriaethau** **370 o bartneriaethau** ▼ 445 yn 2023/24

*Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb fel y'i gwyliwyd ar draws sianeli teledu ac ar-alw, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wifi yn y cartref. Oedolion dros 16 oed ar gyfer dysgu anffurfiol. Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog plant: 3+ munud; data a ddarparwyd gan y BBC- Piano Analytics; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25; Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2024/25; BBC DoMaPP.*

**DC2 dros Gyfnod y Siarter, gan gynnwys uchafbwyntiau ar gyfer y flwyddyn hon**

Mae'r BBC wedi parhau i fuddsoddi mewn addysg ffurfiol ac mae canfyddiadau plant o BBC Bitesize yn dal yn uchel. Mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd â'r BBC o ran darparu cynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gydag oddeutu tri oedolyn o bob pump (62% yn 2025) yn y DU yn rhoi sgôr uchel iddo.[62] Mae oriau o gynnwys dysgu anffurfiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer oedolion wedi gostwng ar deledu llinol, ond gan fod y BBC wedi ehangu'n sylweddol ar-lein, er enghraifft ar BBC iPlayer, lle mae faint o gynnwys dysgu anffurfiol sydd ar gael wedi tyfu 60% ers 2021.[63]

**Perfformiad y BBC yn 2024/25:**

- Mae'r defnydd wythnosol o BBC Bitesize wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, mae lefelau defnydd wedi parhau i amrywio rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol: Mae 62% o’r plant mewn aelwydydd AB yn defnyddio Bitesize ar gyfer gwaith ysgol neu waith cartref, o'i gymharu â dim ond 41% o blant mewn aelwydydd DE.[64] Mae ymdrechion ar y gweill i wella ei bersonoli a'i hygyrchedd, gan gynnwys sicrhau bod cynnwys ar gael y tu hwnt i lwyfannau'r BBC.
- Mae'r BBC wedi cynnal ei gyrhaeddiad wythnosol ymysg plant 3-16 oed, gydag arwyddion o dwf ar draws llwyfannau digidol. Yn benodol, mae mwy o blant yn defnyddio apiau, gwefannau a radio'r BBC[65], a bu cynnydd yn lefelau gwylio cynnwys i blant ar BBC iPlayer.[66]
- Roedd cyrhaeddiad cynnwys CBBC wedi aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall yn 2024, wedi'i sbarduno gan berfformiad gwell BBC iPlayer, sy'n gwneud iawn am y gostyngiad mewn cyrhaeddiad i'r sianel linol.[67]

Yn ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf, fe wnaethom nodi gwelliannau yn narpariaeth addysgol y BBC, gan gynnwys diweddariad mawr i Bitesize a oedd yn ehangu cynnwys ac yn cyfrannu at lefelau boddhad cryf. Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod CBBC a CBeebies yn dal yn boblogaidd, er bod cyrhaeddiad wedi gostwng wrth i lefelau gwylio symud i BBC iPlayer. Er bod gwasanaethau ar-lein wedi gwella, fe wnaethom ddweud bod angen rhagor o ddatblygiadau digidol i gynnal ymgysylltiad. Roeddem hefyd wedi annog y BBC i ddarparu adroddiadau manylach ar ddysgu anffurfiol i oedolion ac roeddem yn croesawu fframwaith y BBC ar gyfer asesu effaith partneriaeth, gan annog ffocws parhaus ar fudd i'r gynulleidfa.

[62] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.
[63] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC a data Ampere Analysis, cyrchwyd ym mis Awst 2025.
[64] Traciwr Ofcom o Wasanaethau Plant y BBC 2024/25.
[65] Traciwr Ofcom o Wasanaethau Plant y BBC 2024/25.
[66] Barb fel y’i gwyliwyd, plant 4-15 oed. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi’u cysylltu â Wi-Fi y cartref.
[67] Barb fel y’i gwyliwyd, plant 4-15 oed. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi’u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.

# Ein hasesiad

## Dysgu i blant

### Mae BBC Bitesize yn parhau i dyfu, ac mae cynulleidfaoedd yn ei weld fel rhywbeth cadarnhaol

Drwy gydol y Siarter, mae gwasanaeth Bitesize y BBC wedi parhau i ddenu plant i'w allbwn, ac yn 2024/25 roedd BBC Bitesize yn cael ei ddefnyddio gan 1.65 miliwn o ymwelwyr unigryw bob wythnos ar gyfartaledd, i fyny o 1.5 miliwn yn 2023/24.[68] Mae wedi moderneiddio ei allbwn a'i swyddogaethau ers 2017 er mwyn parhau i wasanaethu plant oed cynradd ac uwchradd. Er enghraifft, creodd BBC Bitesize Careers a BBC Bitesize Support yn 2019/20,[69] ac yn ddiweddarach darparodd arlwy 'Dysgu Cyfnod Clo' pan gaewyd ysgolion yn ystod y pandemig.[70] Yn fwy diweddar, cyhoeddodd fuddsoddiad o £6m i wella camau personoli a'r gallu i ganfod cynnwys i ddefnyddwyr.[71]

Ers ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf, mae'r defnydd wedi aros yn weddol debyg, gyda 50% o blant 4-16 oed yn dweud eu bod yn defnyddio BBC Bitesize ar gyfer eu gwaith ysgol neu waith cartref yn 2024/25. Mae'r ffigur hwn yn uwch ar gyfer plant oed ysgol uwchradd sef 58%,[72] a allai fod wedi elwa o'r BBC yn gwneud mwy o gynnwys Bitesize yn hygyrch drwy lwyfannau fel TikTok, WhatsApp ac YouTube. Roedd hyn yn cynnwys lansio sianeli adolygu TGAU ar WhatsApp a YouTube, yn ogystal â chyflwyno podlediadau TGAU ar BBC Sounds.[73] Mae'r defnydd honedig o Bitesize yn 45% ar gyfer plant oed ysgol gynradd ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gwahaniaeth o hyd rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol, gyda'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o ddefnyddio Bitesize na'r rheini mewn aelwydydd AB (41% o'i gymharu â 62%).[74]

Mae canfyddiadau plant o BBC Bitesize wedi aros yn uchel: mae 91% o ddefnyddwyr BBC Bitesize rhwng 4 ac 16 oed yn dweud eu bod yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith ysgol/gwaith cartref. Dywedodd tua thri chwarter y defnyddwyr (76%) 8-16 oed y byddent yn gweld colli BBC Bitesize pe na bai ar gael mwyach, i fyny o 69% yn 2021/22.[75] Pan ofynnwyd i ddefnyddwyr 8-16 oed ddewis tri gair i ddisgrifio BBC Bitesize, 'defnyddiol' oedd y mwyaf cyffredin; fe'i disgrifiwyd hefyd fel rhywbeth hwyliog, addysgol a llawn gwybodaeth.[76]

Mae'r BBC hefyd yn cefnogi athrawon gydag adnoddau cwricwlwm a chyhoeddodd yn ddiweddar y byddai BBC Teach yn dod yn Bitesize for Teachers er mwyn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar gynnwys mewn un lle.[77] Mae'n parhau i ddarparu adnoddau fel Gwersi Byw sy'n gysylltiedig â digwyddiadau allweddol fel Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ac Wythnos Gwrth-

[68] Data a ddarparwyd gan y BBC, Piano Analytics.
[69] Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2019/20 t. 45.
[70] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21 a'r Adolygiad Cyfnodol cyntaf, t.34.
[71] Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25, t.27.
[72] Traciwr Ofcom o Wasanaethau Plant y BBC 2024/25. Ymatebion yn cynnwys rhieni plant 4-7 oed a phlant 8-16 oed.
[73] BBC, DoMaPP 2024/25, t.18, 20, 24.
[74] Traciwr Ofcom o Wasanaethau Plant y BBC 2024/25.
[75] Traciwr Ofcom o Wasanaethau Plant y BBC 2024/25.
[76] Ymhlith y 50 gair uchaf a grybwyllwyd gan o leiaf 10 defnyddiwr. Traciwr Ofcom o Wasanaethau Plant y BBC 2024/25.
[77] BBC, Cynllun Blynyddol 2025/26, t.31.

fwlio.[78] Mae data'r BBC yn dangos cynnydd parhaus mewn ymwybyddiaeth a defnydd/defnydd arfaethedig o BBC Teach, ar draws athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd.[79]

## Wrth i'r BBC foderneiddio ei gynnwys i blant, mae arwyddion cynnar yn dangos bod ei ymdrechion yn cael effaith fesuradwy

Mewn cyd-destun o ostyngiad yn lefelau gwylio teledu llinol ymysg plant, y BBC yw'r darlledwr sy'n cael ei wylio fwyaf o hyd. Yn benodol, roedd cyfran y BBC o wylio darlledwyr ymysg plant 4-15 oed wedi codi o 34% yn 2022 i 40% yn 2024, gyda 27% o blant 4-15 oed ar gyfartaledd yn gwylio rhaglenni ar-alw y BBC bob wythnos yn 2024, i fyny o 24% yn 2022.[80]

Yn dilyn gostyngiadau tymor hwy yn lefelau gwylio ei sianeli plant, mae ymdrechion y BBC i hybu apêl yn dangos arwyddion o gynnydd: roedd cyrhaeddiad wythnosol CBeebies a CBBC yn sefydlog rhwng 2023 a 2024[81] ac mae data'r BBC ei hun hefyd yn dangos cynnydd o 10% o un flwyddyn i'r llall yn nifer y cyfrifon BBC iPlayer sy'n gwylio cynnwys plant ac addysg (hyd at 2.55 miliwn yn 2024/25).[82] Mae plant yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC am eu helpu i ddysgu pethau newydd. Mae 67% o blant 3-16 oed yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am 'raglenni a chynnwys sy'n fy helpu i ddysgu am bethau newydd', sy'n gynnydd o'r 62% yn 2021/22; mae'r canfyddiadau hyn wedi aros yn uchel dros gyfnod yr adolygiad.[83]

Yn 2021, cyhoeddodd y BBC ei fod yn treblu ei gyllideb animeiddio ar gyfer y grŵp oedran 7-12 oed, i ganolbwyntio ar animeiddiadau wedi'u gwneud yn y DU sy'n adlewyrchu diwylliant, gwerthoedd ac amrywiaeth Prydain.[84] Yn 2024, roedd yr amser a dreuliwyd yn gwylio animeiddiadau CBBC ar BBC iPlayer ar gyfer plant 7-12 oed wedi cynyddu 34% o un flwyddyn i'r llall, er bod hynny o sylfaen isel.[85] Mae'r uchafbwyntiau wedi cynnwys *Vida the Vet* ar CBeebies, sef ym mis Mai 2025 y brand newydd a gafodd ei weld fwyaf yn ystod y tair blynedd diwethaf a *Super Happy Magic Forest*, yr animeiddiad a gomisiynwyd gan CBBC a oedd yn perfformio orau yn 2024/25.[86] Mae'r BBC hefyd yn adrodd bod rhaglenni wedi'u hanimeiddio sy'n cael eu prynu wedi cyfrannu at dwf BBC iPlayer drwy ddod â defnyddwyr 'newydd a phrin' i'r llwyfan, a bod cynnydd yn lefelau gwylio animeiddio wedi helpu i sbarduno twf cyffredinol CBBC ar BBC iPlayer ar gyfer ail hanner 2024/25.[87] Mae'r defnydd wythnosol honedig o Radio'r BBC ymhlith plant wedi cynyddu i 18%, i fyny o 15% yn 2023.[88]

---

[78] BBC, DoMaPP 2024/25, t.23.
[79] Data a ddarparwyd gan y BBC - Traciwr Myfyrwyr ac Athrawon DJS Research 2019/2020 ymlaen. Mae ymwybyddiaeth athrawon ysgolion cynradd o BBC Bitesize for Teachers wedi cynyddu i 93% yn 2024/25 (79% yn 2023/24), ac athrawon ysgolion uwchradd i 87% (i fyny o 71%). Mae'r defnydd/defnydd arfaethedig o BBC Bitesize for Teachers wedi codi i 71% ar gyfer athrawon ysgolion cynradd (i fyny o 53%) a 61% ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd (i fyny o 41%).
[80] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.
[81] Ar 31% ymysg plant 4-6 oed, ac 8% o blant 7-12 oed yn y drefn honno. Barb, fel y'i gwyliwyd, holl funudau darlledwyr sy'n cael eu gwylio bob dydd (BVoD, byw ac wedi'u recordio) ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â WiFi y cartref.
[82] Data a gyflenwyd gan y BBC (Redshift), Medi 2025.
[83] Traciwr Ofcom o Wasanaethau Plant y BBC 2024/25.
[84] Deadline, BBC To Triple Animation Spend For 7-12s; Kids Boss Patricia Hidalgo Talks Up Potential For Global Hits, Tachwedd 2021.
[85] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Y munudau cyfartalog a welwyd y pen ar gyfer 2024 oedd 68 munud ar gyfer y flwyddyn gyfan.
[86] Data a ddarparwyd gan y BBC, gwybodaeth ym mis Mai 2025.
[87] Data a gyflenwyd gan y BBC, Medi 2025.
[88] Traciwr Ofcom o wasanaethau Plant y BBC 2024/25

Mae'r BBC yn parhau i gynhyrchu gemau a chynnwys rhyngweithiol ar gyfer CBeebies, CBBC, a BBC Bitesize, ac mae'n ehangu i lwyfannau fel Roblox i gynyddu cyrhaeddiad ac ymwybyddiaeth o frand. Mae'n rhedeg pedwar ap CBeebies, gan gynnwys CBeebies Learn, sydd bellach yn canolbwyntio mwy ar gynnwys addysgol i blant cyn oed ysgol. Yn 2024/25, cafodd 1.5 miliwn o apiau eu llwytho i lawr, gyda chyfartaledd o 1.2 miliwn o ymwelwyr misol. Er bod y defnydd o apiau a gemau ar-lein CBBC wedi gostwng rhywfaint o un flwyddyn i'r llall, yn gyffredinol roedd rhywfaint o dwf yn safleoedd ar-lein CBBC.[89] Cynyddodd y defnydd wythnosol honedig o apiau/safleoedd y BBC i 50%, i fyny o 436% yn 2023.[90]

**Cynnwys Plant y BBC ar YouTube**

Fel y nodir yn yr Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae'r BBC yn wynebu cystadleuaeth gref gan lwyfannau byd-eang, gyda phlant yn treulio mwy o amser ar YouTube, Netflix a Disney+ nag ar wasanaethau'r BBC yn 2024. O ganlyniad, mae llwyfannau ar-lein yn dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc y tu hwnt i sianeli plant y BBC a BBC iPlayer.

Mae'r BBC wedi ymateb i hyn drwy gryfhau ei strategaeth YouTube i ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd ifanc ac erbyn hyn mae'n trin YouTube fel llwyfan allweddol, gan symud y tu hwnt i glipiau byr i gynnig cynnwys gwreiddiol, fel dolen ffrydio byw o *Newsround* a segmentau *Blue Peter* sydd â chynnwys sydd wedi'i ddylunio i weithio ar deledu ac ar YouTube.[91] Mae hefyd wedi lansio pum sianel ffrydio byw CBeebies, gan gynnwys ffrwd “nos da” ar thema amser gwely, ac mae'n datblygu cynnwys ar gyfer YouTube yn gyntaf, fel sioe newydd gydag Evie o CBeebies House. Yn 2024/25, CBeebies oedd prif gyfrannwr edrychiadau fideos yn y DU o hyd ar draws sianeli YouTube y BBC, gyda nifer gwylwyr y sianel yn dal yn weddol gyson o un flwyddyn i'r llall, gyda dim ond gostyngiad o 1%.[92]

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu newid ehangach mewn strategaeth, gyda thîm penodol yn canolbwyntio ar ddeall deinameg llwyfannau ac ymddygiad cynulleidfaoedd. Er bod y BBC yn parhau i gyfeirio cynulleidfaoedd at BBC iPlayer, mae'n cydnabod YouTube fel lle i arbrofi ac arloesi, gan helpu i gyrraedd plant ar draws gwahanol ddemograffeg ac arferion gwylio.

## Dysgu anffurfiol i oedolion

### Mae BBC iPlayer yn dod yn llwyfan pwysicach ar gyfer darparu cynnwys dysgu anffurfiol

Mae’r BBC yn darparu cynnwys sy’n cefnogi dysgu anffurfiol i oedolion ar ei holl lwyfannau, gan gynnwys cynnwys ffeithiol mewn amrywiaeth o genres fel hanes, crefydd, gwyddoniaeth, y celfyddydau a cherddoriaeth. Rydym yn ystyried y genres hyn yn fanylach yn Niben Cyhoeddus 3 yn y ddogfen hon.

Er bod cyfanswm yr oriau o gynnwys dysgu anffurfiol yn cyd-fynd â 2021, roedd oriau gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf wedi gostwng 17% yn 2024 i'w lefel isaf ar draws y Siarter hon.[93] Cafodd hyn ei sbarduno gan ostyngiad mewn cynnwys ffeithiol arbenigol ac rydym yn nodi bod ffocws y BBC

[89] Data a ddarparwyd gan y BBC: Piano Analytics.
[90] Traciwr Ofcom o wasanaethau Plant y BBC 2024/25
[91] Cynllun Blynyddol y BBC 2025/26, t.31; Cyfarfod Ofcom/y BBC.
[92] Data a ddarparwyd gan y BBC, YouTube Analytics
[93] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC.

ar gynnwys effaith uchel yn golygu llai o oriau o gynnwys. Mae hefyd yn datblygu ei ddarpariaeth ar-lein, gydag oriau dysgu anffurfiol ar BBC iPlayer yn cynyddu 60% ers 2021.[94]

Mae'r BBC hefyd yn parhau i ddarparu cynnwys Dysgu ar ei wasanaethau radio ac er bod cynnwys Dysgu yn cyfrif am ddim ond 2.7% o gyfanswm y cynnwys ar BBC Sounds,[95] mae gan rai o bodlediadau mwyaf poblogaidd y llwyfan eleni, fel *What's Up Docs?, Short History of...,* a *You're Dead to Me*, ffocws addysgol a dysgu cryf.[96]




Yn ein [Hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus](), fe wnaethom dynnu sylw at rôl hanfodol dysgu anffurfiol drwy raglenni ffeithiol, rhaglenni dogfen a chyfresi addysgol sy'n ysbrydoli chwilfrydedd a dysgu gydol oes mewn cynulleidfaoedd o bob grŵp oedran, gan nodi pwysigrwydd amlygrwydd a'r gallu i ganfod y cynnwys hwn.[97]

Fe wnaethom hefyd amlinellu rôl allweddol y BBC o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, yng nghanol mwy o gamwybodaeth a llwyfannau digidol sy'n newid yn gyflym.[98] Mae'r BBC yn cefnogi cynulleidfaoedd i asesu cynnwys o amrywiaeth o ffynonellau yn feirniadol, yn egluro sut mae ffeithiau'n cael eu dilysu, ac yn codi ymwybyddiaeth o ddamcaniaethau camarweiniol a sgamiau ariannol. Mae'r mentrau'n cynnwys *Other Side of the Story* (cwisiau ac esboniadau i bobl ifanc), adnoddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i athrawon drwy BBC Bitesize, a *BBC Scam Safe*, ymgyrch ar draws llwyfannau gyda chynnwys addysgol, rhaglenni, sioeau teithiol a phartneriaethau.

## Mae cynulleidfaoedd yn dal yn fodlon ar gynnig dysgu anffurfiol y BBC ar y cyfan

Mae canran yr oedolion sy'n gwylio genres dysgu anffurfiol ar sianeli llinol y BBC wedi gostwng, gyda chyrhaeddiad wythnosol yn gostwng o 19% yn 2022 i 16% yn 2024, er bod hyn yn cyd-fynd yn fras â'r gostyngiad cyffredinol mewn cyrhaeddiad i bob sianel deledu linol. Ar yr un pryd, mae cyrhaeddiad ar-alw wedi aros yn weddol sefydlog, felly mae cyrhaeddiad cyffredinol at gynnwys dysgu anffurfiol wedi

[94] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis, cyrchwyd ym mis Awst 2025.
[95] Data a ddarparwyd gan y BBC. Mae'r genres lefel uchaf hyn yn ymwneud â chategorïau cynnwys ar BBC Sounds e.e. https://www.bbc.co.uk/sounds/category/learning.
[96] Data Chwarterol BBC Sounds.
[97] Ofcom, Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. t.5.
[98] Ofcom, Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. t.7.

gostwng.[99] Er bod twf sylweddol wedi bod yn nifer yr oriau o gynnwys dysgu anffurfiol ar BBC iPlayer, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi arwain at gynnydd mewn cyrhaeddiad. Felly, efallai y bydd lle i'r BBC ei gwneud yn haws dod o hyd i'r cynnwys hwn yn unol â gofynion y BBC yn y maes hwn.[100]

Er gwaethaf y gostyngiad hwn mewn cyrhaeddiad, mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd wedi aros yn gadarnhaol ac yn gyson. Yn 2024/25, rhoddodd 62% o oedolion y DU sgôr uchel i'r BBC am “raglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd” - ffigur sydd wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. [101]

Rydym yn falch o weld bod y BBC bellach yn adrodd yn fanylach am ddarpariaeth ac effaith ei gynnwys dysgu anffurfiol i oedolion. Mae hyn yn cynnwys data ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn eu helpu i ddysgu rhywbeth newydd, yn ogystal ag ar ddarparu cynnwys dysgu anffurfiol ar draws teledu'r BBC, BBC iPlayer a BBC Radio a Sounds.[102]

## Partneriaethau

### Mae'r BBC wedi datblygu sut mae'n mesur effaith ei bartneriaethau

Mae’r BBC yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau gwahanol fel prifysgolion, elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill yn y cyfryngau, i helpu i gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus. Yn 2024/25, bu'n gweithio gyda 370 o sefydliadau.[103] Maent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni’r Diben Cyhoeddus hwn, fel drwy helpu i ddarparu cynnwys addysgol a chysylltu cynulleidfaoedd â gwasanaethau a gwybodaeth berthnasol. Yn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom hefyd bwysleisio manteision y cydweithio hyn i ddysgu.[104]

Mae'n ymddangos bod ei ddull o reoli a monitro partneriaethau wedi'i wreiddio'n dda yn y sefydliad. Sefydlodd 'traciwr canfyddiad gwerth partner' yn 2023 sydd, eleni, wedi dangos cynnydd cryf yng ngwerth tybiedig partneriaid o'u perthynas â'r BBC: mae 73% o bartneriaid yn dweud bod eu partneriaeth yn 'werthfawr iawn' ac mae 85% o bartneriaid yn cytuno eu bod yn cael 'gwerth cydfuddiannol a chyfartal yn ôl gan y BBC'.[105] Mae'r BBC wedi egluro sut mae'n mesur effaith ei bartneriaethau, er enghraifft drwy ei ymgyrch Atgofion a Dementia, lle dywedodd 62% o gynulleidfaoedd ei fod wedi 'eu helpu i ddeall ble i ddod o hyd i gymorth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr', a dywedodd 65% ei fod 'wedi gwella eu dealltwriaeth o'r cymorth sydd ei angen ar ofalwyr.'[106]

# Cydymffurfio ag amodau trwydded weithredu DC2

Ochr yn ochr â’n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Yn 2024/25, gwnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion o dan DC2. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â’r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.

---

[99] Barb fel y’i gwyliwyd, oedolion 16 oed a hŷn. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi’u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.
[100] Amod 2.3 y Drwydded Weithredu.
[101] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.
[102] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2024/25, t226; BBC DoMaPP 2024/25, t25-26.
[103] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2024/25. Er bod hyn wedi gostwng o 445 yn 2023/24, dywedodd y BBC mai un o'r rhesymau allweddol dros y gostyngiad hwn oedd nad oedd y gyfres Bring the Drama, a oedd yn cynnwys tua 70 o bartneriaethau, wedi cael ei hailgomisiynu yn 2024/25.
[104] Ofcom, Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. t.36.
[105] Partnerships at the BBC, t.2.
[106] BBC, DoMaPP 2024/25, t.28.

# DIBEN CYHOEDDUS 3

**Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw**

## GWREIDDIOLDEB

### Oriau a gwariant ar gynnwys a ddangoswyd gyntaf ar deledu rhwydwaith yn y DU

**43.9%** awr

**92.0%** gwariant

### Gwariant teledu rhwydwaith y BBC ar raglenni mewn perygl


**18.7%** ar genres mewn perygl





Genres mewn perygl a wylir gan oedolion bob mis ar gyfartaledd:
**2 awr, 18 munud**

## ARLOESEDD

### Oriau o gynnwys teledu gwreiddiol newydd y BBC a chynnwys sy'n dychwelyd




### Cwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio gyda'r BBC




## CANFYDDIADAU CYNULLEIDFAOEDD

### Sgoriau cadarnhaol am natur unigryw'r BBC ymysg oedolion


**64% yn dweud** bod y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd uchel

**67% yn dweud** bod y BBC yn darparu cynnwys sydd wedi'i wneud i gynulleidfaoedd y DU

**51% yn dweud** bod y BBC yn darparu cynnwys sy'n wahanol i ddarparwyr eraill

**65% yn dweud** bod y BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys

### Sgoriau cadarnhaol o BBC iPlayer





**Dywedodd 71% fod** iPlayer yn darparu ystod eang o wahanol fathau o raglenni

**Dywedodd 62% fod** iPlayer yn darparu rhaglenni am wyddoniaeth, celfyddydau, diwylliant a chrefydd

**Dywedodd 57% fod** iPlayer yn darparu rhaglenni nad oeddwn yn ymwybodol ohonynt o'r blaen

### Sgoriau cadarnhaol i BBC Sounds




Mae **63%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds o ran y gallu i ddarganfod cerddoriaeth newydd

Mae **84%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am yr ystod o gynnwys sydd ar gael

Mae **76%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am y gallu i ddargnfod cynnwys newydd

Mae **73%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am allu cael mynediad at wahanol fathau o gynnwys mewn un lle

Mae **68%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds ar gyfer cynnwys unigryw sydd ar gael trwy'r platfform hwnnw yn unig

*Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC (mae genres mewn perygl yn cynnwys y Celfyddydau, Comedi, Cerddoriaeth Plant, Crefydd a Moeseg a Ffeithiol Arbenigol); Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2024; Arolwg Sain Ofcom 2025; Barb fel y'i gwyliwyd ar draws sianeli teledu ac ar-alw, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd â chysylltiad WiFi yn y cartref (nid yw genres mewn perygl ar gyfer data gwylio yma yn cynnwys rhaglenni plant).*

**DC3 dros Gyfnod y Siarter, gan gynnwys uchafbwyntiau ar gyfer y flwyddyn hon**

Drwy gydol y Siarter, mae'r BBC wedi perfformio'n dda o ran darparu cynnwys creadigol ac unigryw o ansawdd uchel. Yn wyneb newidiadau enfawr yn y farchnad cyfryngau, mae'r rhan fwyaf (83%) o oedolion y DU yn defnyddio'r BBC bob wythnos, ac yn ei sgorio'n uchel (60%).[107] Mae'r BBC, ynghyd â darlledwyr eraill, wedi wynebu heriau sylweddol o ran parhau i fod yn berthnasol i bob cynulleidfa, ond mae ein hymchwil yn dangos bod arwyddion cadarnhaol yn dod i'r amlwg, fel cynnydd bach yn y defnydd ymysg pobl ifanc. Mae angen i'r BBC ddatblygu strategaeth gydlynol o hyd ar gyfer sut bydd yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd DE.

**Perfformiad y BBC yn 2024/25:**

- Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o raglenni ar draws amrywiaeth eang o genres, ac mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel iddo am ddarparu cynnwys creadigol o ansawdd uchel.
- Mae hefyd yn darparu llawer iawn o gynnwys gwreiddiol o'r DU ac mae wedi cynyddu faint o gynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer, ond mae cyfanswm gwariant teledu'r BBC wedi gostwng 8% mewn termau real ers 2021, sy'n adlewyrchu'r cyfyngiadau ariannol cynyddol y mae'n eu hwynebu.[108]
- Rydym yn cydnabod yr ymdrechion mae'r BBC yn eu gwneud i roi cynnig ar ffyrdd newydd a gwahanol o gyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein, er bod ei ddull o gymryd risg ac arloesi yn dal i gael sgôr is gan gynulleidfaoedd nag mewn rhai meysydd eraill.

Yn ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y BBC yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o gynnwys, bod cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel iddo a'i fod yn parhau i gyrraedd amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Ar yr adeg honno, roedd ei strategaeth newydd yn canolbwyntio ar gynnwys unigryw sy'n cael effaith fawr – fe wnaethom ddweud y byddai angen cydbwyso hyn â'i ddyletswydd i gynnal arlwy unigryw ar gyfer yr holl gynulleidfaoedd. Fe wnaethom hefyd ddod i'r casgliad y gallai'r BBC fynd ymhellach i ddangos i gynulleidfaoedd sut mae'n arloesi ac yn cymryd risgiau yn ei allbwn.

## Pum colofn natur unigryw

Mae natur unigryw yn mesur sut mae'r BBC yn cymharu ag eraill, yn ogystal â mesur y gwerth unigryw mae'n ei gynnig i gynulleidfaoedd. Mae wrth galon yr hyn rydym yn disgwyl i'r BBC ei wneud. Rydym yn ystyried y ffactorau allweddol a ganlyn (pum colofn natur unigryw) ar sail y fframwaith mesur perfformiad:

- ansawdd allbwn y BBC;
- y cymysgedd o genres ac allbwn;
- faint o allbwn gwreiddiol sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU;
- lefel cymryd risg ac arloesi; ac,
- yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu.

Nid yw natur unigryw yn golygu bod angen i holl raglenni'r BBC fod yn wahanol i'r rhai a geir gan ddarparwyr eraill. Mae ein hasesiad yn ystyried y BBC yn ei gyfanrwydd ac ar draws ei wasanaethau ar sail y colofnau hyn.

---

[107] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25
[108] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

# Ein hasesiad

## Y BBC yw'r darparwr cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf yn y DU o hyd

Fel rydym yn tynnu sylw ato mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon, mae'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd y DU yn dal i ddefnyddio'r BBC bob wythnos. Er bod yr amser mae cynulleidfaoedd yn ei dreulio gyda'r BBC wedi gostwng,[109] mae hyn yng nghyd-destun newidiadau enfawr yn nhirwedd y cyfryngau, ac mae'r BBC yn dal i gael ei ddefnyddio llawer.[110] Mae'r cyrhaeddiad uchel hwn ar draws llwyfannau yn dangos sut mae'r BBC wedi parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn wyneb cystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr byd-eang. Mae natur unigryw'r BBC yn ffactor allweddol o ran ei helpu i aros yn berthnasol i bob cynulleidfa.

## Ansawdd yr allbwn

### Mae cynulleidfaoedd yn parhau i roi sgôr uchel i'r BBC am ansawdd ei gynnwys

Yn 2024/25, roedd mwyafrif (64%) o oedolion y DU wedi rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu *'cynnwys creadigol o ansawdd uchel'*, sy'n gyson i raddau helaeth â blynyddoedd blaenorol. Er bod mwy i'w wneud o hyd o ran gwella canfyddiadau ymysg rhai grwpiau cynulleidfa, yn gyffredinol, mae'r data hwn yn dangos bod y BBC wedi perfformio'n dda: yn wyneb cystadleuaeth gynyddol, cyfyngiadau ariannol a phwysau i gynnal perthnasedd ymysg pob cynulleidfa, mae'n gadarnhaol bod canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd yn dal yn uchel.

Yn unol â chanfyddiadau o'r BBC yn ehangach, mae rhai gwahaniaethau allweddol o hyd yn ôl demograffeg: er enghraifft, mae'r rheini o aelwydydd AB yn dal yn fwy tebygol na'r rheini o aelwydydd DE o roi sgôr gadarnhaol i'r BBC ar hyn, fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol. [111] Mae'n ymddangos bod canfyddiadau o ansawdd yn gwella ymysg plant, gyda 58% o bobl ifanc 3-16 oed yn cytuno bod gan *'y BBC raglenni o ansawdd uchel rwy'n eu mwynhau'*, i fyny o 53% yn 2023/24.[112]

## Cymysgedd o genres ac allbwn

### Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys ar sianeli teledu a BBC iPlayer

Mae darpariaeth y BBC o amrywiaeth eang o genres yn rhan allweddol o'i gylch gwaith ac yn un o'r ffyrdd y mae wedi'i osod wahân i ddarparwyr eraill. Mae sianeli teledu'r BBC yn parhau i gynnig cymysgedd ehangach o genres na sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu sianeli masnachol eraill,[113] ac mae BBC iPlayer hefyd yn darparu cymysgedd ehangach o genres na darparwyr fideo ar-alw (BVoD) a darparwyr fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) eraill.[114] Ar ben

[109] Yn 2017, ar draws holl lwyfannau'r BBC, roedd cynulleidfaoedd yn defnyddio cyfanswm amcangyfrifedig o 161 munud y dydd, ond erbyn 2024, roedd hyn wedi gostwng i 123 munud y dydd (er bod hyn yn gynnydd bach, o 2 funud, o'i gymharu â 2023). Ffynhonnell: Modelu Ofcom.
[110] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25
[111] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.
[112] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2024/25
[113] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[114] Ampere Analysis, cyrchwyd Awst 2025.

hynny, mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu 'cymysgedd eang o gynnwys', gyda 65% o oedolion y DU yn dweud hyn.[115]

Ers ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf, mae un o'r prif newidiadau i gymysgedd allbwn y BBC wedi dod o'r llyfrgell fwy o gynnwys ar BBC iPlayer, gyda nifer y rhaglenni sydd ar gael yn cynyddu dros 17,000 awr (65%) ers 2021. BBC iPlayer sy'n parhau i gynnig y nifer fwyaf o oriau o holl wasanaethau BVoD y DU; dim ond gwasanaethau SVoD Netflix ac Amazon Prime Video sydd â llyfrgelloedd mwy, er nad yw'r holl gynnwys hwn wedi'i anelu'n benodol at gynulleidfaoedd yn y DU, yn wahanol i BBC iPlayer.[116]

## Mae'r BBC yn ddarparwr pwysig o genres sydd 'mewn perygl'

Genres sydd mewn perygl yw’r rhai sydd fel arfer yn cael eu darparu cystal ar draws y farchnad ac maent yn cynnwys y celfyddydau, rhaglenni plant, comedi, cerddoriaeth, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol. Yn 2024, roedd genres mewn perygl yn cyfrif am 49% o gyfanswm yr oriau o raglenni ar sianeli teledu'r BBC, sy'n fwy na'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill.[117] Ar BBC iPlayer, roedd 33% o gyfanswm yr oriau a oedd ar gael yn 2024 mewn genres mewn perygl, mwy na ffrydio ITVX a Channel 4, ac yn debyg i My5 (34%).[118] Mae lefelau gwylio teledu'r BBC a chynnwys BBC iPlayer wedi'u gwasgaru dros gymysgedd mwy amrywiol o genres na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, patrwm sydd wedi aros yn weddol gyson ers 2022.[119] Mae ein data yn dangos bod 62% o wylwyr sydd wedi'i ddefnyddio yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud bod BBC iPlayer yn perfformio'n dda ar gyfer *'darparu rhaglenni am wyddoniaeth, y celfyddydau, diwylliant a chrefydd'*, gyda chyfran ychydig yn is (56%) yn dweud yr un fath ar gyfer sianeli teledu'r BBC.[120]

Yn unol â'i strategaeth effaith uchel, mae'r BBC wedi lleihau faint o gynnwys gwreiddiol o'r DU ac sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf, ac sydd mewn perygl, o 9% ers 2021, yn bennaf drwy leihau oriau plant a ffeithiol arbenigol (er bod yr olaf wedi cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn rhaglenni sy'n cael eu caffael).[121]

Roedd y BBC yn cyfrif am chwarter yr oedolion sy'n gwylio genres mewn perygl gan ddarlledwyr yn 2024, sy'n llawer mwy nag unrhyw ddarlledwr arall, ac sy'n weddol gyson â blynyddoedd blaenorol. Roedd gwylio genres mewn perygl wedi cynyddu ar draws gwasanaethau BVoD yn 2024, ond nid oedd yn ddigon i wrthbwyso'r gostyngiad mewn gwylio llinol. Arweiniodd hyn at ostyngiad cyffredinol o 7% yn lefelau gwylio rhaglenni mewn perygl gan bob darlledwr ers 2023, gyda gostyngiad ychydig yn fwy ar y BBC yn unig, a welodd ostyngiad o 12%.[122] Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd parhaus y BBC yn gwella'r gallu i ganfod cynnwys, er mwyn sicrhau, wrth i gynulleidfaoedd droi fwyfwy at BBC iPlayer, eu bod yn gallu dod o hyd i'r math hwn o gynnwys yn hawdd.

---

[115] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25
[116] Ampere Analysis, cyrchwyd Awst 2025.
[117] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[118] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis, cyrchwyd ym mis Awst 2025.
[119] Barb fel y’i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wifi y cartref (gwylio llinol ac ar-alw).
[120] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2024
[121] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC
[122] Barb fel y’i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu yn y cartref (gwylio llinol ac ar-alw wedi’u cynnwys). Nid yw genres mewn perygl yma yn cynnwys rhaglenni plant.

### Mae cynulleidfaoedd wedi rhoi sgôr uchel i'r BBC am ei ddarpariaeth o gynnwys sain

Mae gorsafoedd radio'r BBC yn cynnwys cymysgedd o genres cerddoriaeth prif ffrwd ac arbenigol, yn ogystal ag amrywiaeth o gynnwys llafar. BBC Radio 2 yw'r orsaf BBC y gwrandewir arni fwyaf o hyd, gyda 23% o oedolion 15+ oed yn y DU yn gwrando bob wythnos yn 2024/25, gyda BBC Radio 4 (16%) a BBC Radio 1 (13%) yn dilyn.[123] Mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys ar BBC Sounds; ym mis Ebrill 2025 roedd ganddo dros 7,500 o deitlau ar draws 11 genre lefel uchaf.[124] Mae'r rhan fwyaf o wrandawyr (71% o wrandawyr BBC Radio ac 81% o ddefnyddwyr BBC Sounds) yn canmol y BBC am ddarparu amrywiaeth eang o wahanol fathau o gynnwys ar y gwasanaethau hyn.[125]

Mae amrywiaeth a maint y gerddoriaeth newydd yn rhan allweddol o natur unigryw radio'r BBC. Mae ein dadansoddiad

yn dangos bod cyfradd gyfartalog ail-chwarae traciau cerddoriaeth yn dal yn isel ar draws BBC Radio 1 a BBC Radio 2, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae nifer y traciau cerddoriaeth newydd sy'n cael eu chwarae yn weddol gyson ar gyfer BBC Radio 2, er ei fod wedi gostwng ar gyfer BBC Radio 1. Mae cyfran y gerddoriaeth newydd ar y ddwy orsaf yn dal yn uwch na gorsafoedd masnachol cymharol, er bod ein dadansoddiad, ar sail data sampl, yn dangos bod hyn wedi gostwng ar BBC Radio 1 – i lawr o 61% i 49% o un flwyddyn i'r llall.[126] Byddwn yn ymgysylltu â'r BBC ar hyn, ac yn parhau i fonitro'r tueddiadau hyn.

Yn ein dau adroddiad blynyddol diwethaf ar y BBC, fe wnaethom ddweud y byddem yn parhau i adolygu'r allbwn cerddoriaeth newydd ar BBC Radio 2, gan fod hyn wedi gostwng yn 2022/23. Mae'r BBC yn amcangyfrif bod 11% o gerddoriaeth newydd Radio 2 yn ystod y dydd gan artistiaid 'newydd neu sy'n dod i'r amlwg' o'r DU yn 2024, o'i gymharu â 12% yn 2023, 8% yn 2022 a 14% yn 2021.[127] Mae'n parhau i fodloni amodau ei Drwydded Weithredu sy'n ymwneud â cherddoriaeth newydd, cerddoriaeth y DU, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth arbenigol, a darparu amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg. Byddwn yn parhau i fonitro hyn drwy ein hasesiad cydymffurfio a'n dadansoddiad perfformiad parhaus.

## Allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU

### Mae'r BBC yn cael sgôr uchel am ddarparu cynnwys teledu a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU

Mae gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r DU yn ddangosydd pwysig o'i ymrwymiad i gynnig amrediad o raglenni newydd sy'n cyfrannu at hunaniaeth unigryw'r BBC. Roedd gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn 2024, ac roedd cyfanswm gwariant teledu'r BBC wedi cynyddu 9% mewn termau nominal yn 2024 i £1.72 biliwn. Cafodd hyn ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn gwariant

---

[123] Data RAJAR Ch1 2025, ar bwysoliad 12 mis.
[124] Dadansoddiad Ofcom o ddata BBC Sounds.
[125] Arolwg Sain Ofcom 2025.
[126] Dadansoddiad Ofcom o ddata RadioMonitor a Chart Company, yn seiliedig ar dair wythnos sampl ar draws y flwyddyn ariannol. Gweler ein hadroddiad data rhyngweithiol i gael rhagor o fanylion. Mae'r dadansoddiad hwn ar wahân i sut rydym yn ystyried cydymffurfiad â Thrwydded Weithredu'r BBC. Mae dadansoddiad y BBC yn amcangyfrif cyfartaledd o 50.2% o gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd yn 2024/25. BBC, DoMaPP 2024/25, t.113.
[127] BBC DoMaPP 2022/23, 2023/24 a 2024/25. BBC, Adroddiad Blynyddol 2021/22.

ar chwaraeon yn ystod blwyddyn y Gemau Olympaidd ac Ewros y Dynion. Roedd gostyngiad nominal yn y gwariant ar raglenni Ffeithiol a Dysgu (-11%) a Phlant (-3%).[128]

Mae cyfanswm nifer yr oriau o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi aros yn weddol wastad bob blwyddyn ers 2021, ond roedd cyfanswm gwariant teledu'r BBC 8% yn is mewn termau real dros y cyfnod hwn, sy'n adlewyrchu'r cyfyngiadau ariannol cynyddol mae'n eu hwynebu.[129] Er gwaethaf hyn, mae agweddau cynulleidfaoedd wedi aros yn gadarnhaol: mae tua dwy ran o dair o wylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud bod sianeli teledu'r BBC yn darparu *'rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'* (66%) ac *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (65%) yn dda.[130]

## Mae'r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyd-gomisiynau teledu

Gall y BBC, ynghyd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, fuddsoddi mewn cyd-gomisiynau gyda thrydydd partïon (stiwdios neu ffrydwyr yn yr Unol Daleithiau yn aml) fel ffordd o ariannu cynyrchiadau. Mae wedi nodi sut mae am ddefnyddio partneriaid masnachol yn llawer mwy gweithredol, gan nodi bod ei gytundeb â Disney ar *Doctor Who* yn “enghraifft dda o sut gall [y BBC] weithio i ddarparu mwy o werth drwy gyllid trydydd parti, gan ddiogelu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU ar yr un pryd.” Cyhoeddodd y BBC ddiwedd y bartneriaeth gyd-gomisiynu hon ym mis Hydref 2025 ac rydym yn nodi, fel y nodwyd yn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn ei chael hi'n anoddach gwneud iawn am ddiffygion yn y gyllideb cynnwys mewn marchnad fyd-eang sy'n fwy heriol ac sy'n osgoi risg. Roedd adroddiad ar gyfer COBA[131] ar dueddiadau cyd-gomisiynu yn awgrymu, er mai'r BBC yw'r cyd-gomisiynydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus mwyaf gweithredol o hyd, bod nifer y cyd-gomisiynau teledu o safon uchel wedi'u sgriptio gan y BBC wedi gostwng dros y Siarter.



*Cydnabyddiaeth: BBC Studios, Disney, Bad Wolf, Maxine Howells*

[128] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC.
[129] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC.
[130] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2024.
[131] Cymdeithas Darlledwyr Masnachol a Gwasanaethau Ar-alw.

Fe wnaethom amlinellu'n flaenorol y byddem yn bryderus pe byddai rhaglenni sy'n cael eu caffael yn chwarae rôl rhy fawr yn allbwn y BBC.[132] Ers 2021, mae nifer yr oriau absoliwt o raglenni sy'n cael eu caffael wedi disgyn 7%, er bod gwariant ar gaffael (fel cyfran o gyfanswm y gwariant ar gynnwys) wedi cynyddu o 2.9% yn 2021 i 4.8% yn 2024.[133] Yn ei Gynllun Blynyddol diweddaraf, mae'r BBC yn datgan y bydd rhaglenni sy'n cael eu caffael yn dal i gynrychioli cyfran fach o'i wariant a'i oriau ar deledu ac iPlayer, ac rydym yn nodi bod rhaglenni sy'n cael eu caffael wedi'u targedu yn rhan o strategaeth y BBC ar gyfer cyrraedd rhai grwpiau cynulleidfa.[134]

## Cymryd risgiau ac arloesi

### Mae cynulleidfaoedd yn dal yn llai tebygol o roi sgôr uchel i'r BBC am gymryd risgiau

Rydym yn cadw golwg ar y risgiau mae'r BBC yn eu cymryd a'i arloesedd drwy fonitro canfyddiadau cynulleidfaoedd, yn ogystal ag asesu mentrau a chynlluniau mae'r BBC yn eu cynnal, a faint o gynnwys newydd mae'n ei wneud. Drwy gydol y Siarter, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o arloesi a chymryd risgiau'r BBC wedi aros yn is wrth gymharu ag agweddau eraill ar berfformiad y BBC rydym yn gofyn i gynulleidfaoedd amdanynt.

Dywed hanner (51%) oedolion y DU fod y BBC yn perfformio'n dda am ddarparu *'cynnwys sy'n wahanol i ddarparwyr eraill'*, gyda chyfran debyg (49%) yn dweud yr un fath am *'gynnwys sy'n meiddio bod yn wahanol'*, ffigurau sydd wedi bod yn weddol gyson dros y blynyddoedd blaenorol. Yn benodol, mae cynulleidfaoedd iau a'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o roi sgôr dda i'r BBC ar y mesurau hyn. [135]

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod y BBC yn addasu ei ddull gweithredu'n barhaus ac yn rhoi cynnig ar ffyrdd newydd a gwahanol o gyrraedd cynulleidfaoedd. Mae arloesi hefyd yn cynnwys creu mathau newydd o gynnwys - er enghraifft, mae'r BBC yn dechrau sicrhau bod podlediadau gweledol ar gael ar iPlayer, gyda rhai podlediadau newyddion gweledol hefyd ar gael ar YouTube, ac mae'n arbrofi gyda llwyfannau ar-lein eraill fel Snapchat a Fortnite. Mae hefyd yn parhau i ddatblygu ei ddull o ddefnyddio technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI). Ers cyhoeddi tair 'egwyddor arweiniol' ar gyfer defnyddio AI yn 2023, lansiodd y BBC 12 prosiect peilot AI yn 2024 (gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rhai mewnol yn unig), ac ers hynny mae wedi ymrwymo i gyflymu'r gwaith hwn. Wrth i'r BBC ddatblygu ei ddull gweithredu ar gyfer YouTube, fel y dywedasom yn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd weithio'n galetach o lawer i greu ac i ddosbarthu cynnwys y mae cynulleidfaoedd eisiau ei wylio ar lwyfannau rhannu fideos (VSPs).

### Mae nifer y cyfresi teledu newydd a gynhyrchir gan y BBC yn parhau i ostwng

Rydym hefyd yn cadw golwg ar risg ac arloesedd drwy faint o gynnwys newydd a chwmnïau cynhyrchu newydd y mae'r BBC yn gweithio gyda nhw. Eleni gwelwyd gostyngiad yn nifer y cyfresi newydd (o ran nifer y teitlau ac oriau'r rhaglenni); mae hefyd yn is yn y tymor hirach (ers 2017). Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod y BBC o'r farn bod cyfresi sy'n dychwelyd yn rhan

[132] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020/21 a'r Adolygiad Cyfnodol cyntaf, t.49.
[133] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[134] Cynllun Blynyddol y BBC 2025/26, t.62.
[135] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.

bwysig o'r ffordd mae'n gwasanaethu cynulleidfaoedd, yn enwedig y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.[136]

Roedd y BBC wedi comisiynu 43 o gwmnïau cynhyrchu teledu newydd y llynedd, gostyngiad sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol (64 yn 2023/24, a 65 yn 2022/23). Gyda'i gilydd, roedd y BBC wedi comisiynu 301 o gwmnïau cynhyrchu teledu yn 2024/25, y nifer isaf ers 2017.[137] Mae'r tueddiadau hyn yn debygol, yn rhannol, o fod yn gysylltiedig â strategaeth effaith uchel y BBC, yn ogystal â'r heriau ehangach sy'n wynebu'r sector cynhyrchu. Fel roeddem wedi'i gydnabod yn ein hadolygiad diweddar o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, “mae'r newidiadau mewn comisiynu tuag at lai o raglenni effaith uchel yn cael effaith benodol ar gynhyrchwyr annibynnol llai a chanolig (nifer ohonynt wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau)”.[138]

## Amrywiaeth o gynulleidfaoedd

### Mae'r BBC yn dal i gael ei ddefnyddio gan amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ond mae amrywiaeth mewn cyrhaeddiad ar draws gwahanol grwpiau demograffig

Sail Cenhadaeth y BBC yw ei ddyletswydd i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU. Er bod y BBC yn dal i gael ei ddefnyddio'n helaeth ar draws gwahanol wasanaethau, mae'r defnydd yn is mewn rhai grwpiau demograffig, yn enwedig cynulleidfaoedd iau, cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol DE a grwpiau lleiafrifoedd ethnig, fel y dangosir yn Ffigur 1 isod. Fel y soniwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae'r rheini mewn aelwydydd DE hefyd yn rhoi sgôr llai cadarnhaol i'r BBC o ran canfyddiadau o ansawdd.

[136] BBC, DoMaPP 2024/25, t.35.
[137] BBC Commissioning Report 2024/25, t.11. Data blynyddoedd blaenorol yn Adroddiadau Cyflenwi Comisiynu'r BBC, 2018 i 2023/24.
[138] Ofcom, Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. t.27.

**Ffigur 1: Cyrhaeddiad wythnosol ar draws gwasanaethau'r BBC a grwpiau demograffig**

| | Oedoli on dros 16 | 16-34 | 35-54 | 55+ | Oedoli on AB | Oedoli on DE | Lleiafrifo edd ethnig | Gwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Unrhyw beth gan y BBC** | 83% | 76% | 83% | 90% | 90% | 77% | 82% | 84% |
| **Teledu’r BBC** | 64% | 38% | 62% | 86% | 67% | 63% | 42% | 64% |
| **BBC iPlayer** | 31% | 24% | 34% | 35% | 38% | 24% | 18% | 32% |
| **Radio'r BBC*** | 55% | 43% | 53% | 67% | 65% | 46% | 40% | 58% |
| **BBC Sounds** | 24% | 25% | 25% | 22% | 32% | 15% | 30% | 23% |
| **Apiau/Gwefannau'r BBC* (cyrhaeddiad misol)** | 76% | 65% | 77% | 84% | 81% | 70% | 74% | 76% |

*Ffynonellau: Unrhyw beth gan y BBC- Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25; oedolion 16+ oed; Teledu'r BBC a BBC iPlayer- Barb fel y'i gwyliwyd, blwyddyn galendr 2024. Meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer teledu'r BBC a BBC iPlayer 15 munud a mwy yn olynol. Mae teledu'r BBC yn cynnwys chwarae'n fyw ac wedi'i recordio o sianeli llinol a BBC iPlayer/gwasanaethau ar-alw eraill a fesurir gan y BBC. Mae BBC iPlayer yn cynnwys yr holl wylio ar-alw sy'n cael ei fesur ar gynnwys y BBC; Radio'r BBC - RAJAR (oedolion 15 oed a hŷn); data Ch1 2025 ar bwysoliad 12 mis; BBC Sounds- Arolwg Sain Ofcom 2025 oedolion 16+ oed; Apiau/Safleoedd y BBC- cyrhaeddiad misol gwasanaeth mesur cynulleidfaoedd Ipsos iris ym mis Mawrth 2025, defnyddwyr rhyngrwyd y DU 15 oed a hŷn, ac eithrio safleoedd ac apiau BBC iPlayer a BBC Sounds. *Oedolion 15 oed a hŷn. Oherwydd gwahanol fethodolegau, nid oes modd cymharu ffigurau ar gyfer pob llwyfan yn uniongyrchol â'i gilydd.*

Rydym yn parhau i gredu bod angen i'r BBC ddatblygu strategaeth glir ar gyfer sut mae'n apelio at gynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol DE, a byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa, gan roi sylw penodol i'r grwpiau hynny sydd wedi bod yn defnyddio llai ar y BBC neu sydd wedi bod yn llai bodlon.

## Mae defnydd o wasanaethau ar-lein y BBC yn parhau i dyfu

Mae'r BBC yn dweud ei fod yn parhau i esblygu ei wasanaethau a thyfu ei gynnyrch digidol i gynyddu ei gynulleidfaoedd. Mae nifer y cyfrifon sy'n weithredol ar BBC iPlayer bob wythnos wedi bod yn cynyddu ers 2019/20 (pan ddechreuodd y BBC adrodd ar hyn am y tro cyntaf): o 9.1 miliwn (roedd 2.9 miliwn o'r rheini o dan 35 oed) i 15.2 miliwn (roedd 4.3 miliwn o dan 35 oed) yn 2024/25.[139] O ran sain ar-lein, BBC Sounds yw'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd gan ddarlledwr traddodiadol, gan gyrraedd 24% o oedolion y DU bob wythnos yn Ch1 2025, sy'n

[139] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2019/20, t. 25 ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2024/25, t.223.

gynnydd o 3 phwynt canran ers y flwyddyn flaenorol. [140] Mae cyrhaeddiad misol cyfartalog gwefannau ac apiau eraill y BBC yn dal yn uchel, gyda 75% o oedolion y DU yn 2024/25 yn eu defnyddio.[141]

## Y gallu i ganfod

### Mae'r BBC yn parhau i ddatblygu ei ddull o ran y gallu i ganfod

Mae'r BBC wedi bod yn canolbwyntio ar wneud pethau'n haws i gynulleidfaoedd eu canfod ac mae wedi gwella ei adroddiadau, ond mae hwn yn faes sy'n datblygu. Mae dros hanner (54%) y rheini a oedd wedi gwylio yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud bod BBC iPlayer yn dda am ddarparu *'rhaglenni sy'n wahanol i'r hyn rydw i'n ei wylio fel arfer'*, gyda 57% yn dweud yr un peth am ddarparu *'rhaglenni nad oeddwn i'n ymwybodol ohonynt o'r blaen'*.[142] Roedd llai na hanner (43%) y defnyddwyr yn ystod y tri mis diwethaf wedi rhoi sgôr 'da' i iPlayer am 'opsiynau personoli - mae'n dod i adnabod fy chwaethau', gyda dwy ran o dair (66%) yn dweud ei fod yn dda ar gyfer *'rhwyddineb dod o hyd i gynnwys newydd'*.[143] Mae tri defnyddiwr o bob pump (61%) yn dweud bod BBC Sounds yn perfformio'n dda ar gyfer *'fy nghyflwyno i gerddoriaeth neu artistiaid newydd'*, gyda 56% yn dweud yr un peth ar gyfer BBC Radio.[144]

Mae'r BBC wedi nodi amrywiaeth o ffyrdd mae'n eu defnyddio i sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys. Er enghraifft, yn 2024/25 cyflwynodd 'Gallu Tudalen Gartref Deinamig' newydd ar BBC iPlayer, gan gynyddu nifer y rheiliau o 15 i 21 i arddangos cynnwys mwy perthnasol a chynyddu lefel y personoli ar draws rheiliau o 30% i 80%.[145] Yn yr un modd, mae dod o hyd i gynnwys ar BBC Sounds wedi cael ei wella gan 'well argymhellion (gan gynnwys o bob rhan o bortffolio ar-lein y BBC), a rheiliau wedi'u curadu'n olygyddol a'u cynhyrchu'n algorithmig'.[146] Wrth i faint o gynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer a Sounds gynyddu, mae'r BBC yn datblygu'r gallu i ddefnyddwyr bersonoli pa gynnwys maen nhw'n ei weld yn ôl eu diddordebau, ond rydym yn cydnabod y gallai fod tensiwn rhwng personoli a sicrhau bod modd dod o hyd i amrywiaeth o gynnwys. Mae'r gallu i ganfod cynnwys yn dod yn bwysicach wrth i gynulleidfaoedd symud ar-lein, a byddwn yn ymgysylltu â'r BBC i wella sut mae'n rhoi gwybod bod ei ddull gweithredu yn cefnogi cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus.

# Cydymffurfio ag amodau trwydded weithredu DC3


Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Yn 2024/25, gwnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion o dan DC3. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â'r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.

[140] Arolwg Sain Ofcom 2025.
[141] Ipsos Iris 15 oed a hŷn, defnyddio gwefan ac apiau'r BBC, ac eithrio BBC Sounds a BBC iPlayer.
[142] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2024.
[143] Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2025.
[144] Arolwg Sain Ofcom 2025.
[145] Gwybodaeth gan y BBC, mis Medi a mis Tachwedd 2025.
[146] BBC, DoMaPP 2024/25, t.70.


# DIBEN CYHOEDDUS 4

**Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU**


## Lledaeniad gweithlu'r BBC ar draws y DU





## Sgoriau i'r BBC am gyflawni Diben Cyhoeddus 4





## Oriau wythnosol cyfartalog o wrando ar radio lleol





## Sgoriau cadarnhaol bod y BBC 'yn cynnwys pobl fel fi'




## Bodlonrwydd â newyddion lleol ar orsafoedd teledu a radio rhanbarthol y BBC




## Cyfran oriau rhwydwaith a gwariant cymwys y BBC a wneir y tu allan i Lundain




*Ffynonellau: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25; Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC a ddarparwyd mewn ymateb i arolwg cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yn y gweithlu Ofcom 2024. Data gweithwyr 'gweladwy' cyfun ar gyfer 31 Mawrth 2024; Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data RAJAR BBC Local Radio Ch1 2025 gyda phwysoliad 12 mis. Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. *Dalier sylw: Roedd y cwestiwn ar radio lleol yn cyfeirio at: 'Fwletinau newyddion ar un o orsafoedd radio lleol y BBC' yn Lloegr, ac fe'i newidiwyd i gyfeirio at BBC Radio Scotland/Ulster/Foyle/Cymru neu Wales.*

**DC4 dros Gyfnod y Siarter, gan gynnwys uchafbwyntiau ar gyfer y flwyddyn hon**

Mae'r BBC wedi cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU yn dda drwy gydol y Siarter. Mae ei strategaeth Across the UK yn cefnogi'r economi greadigol yn y gwledydd ac yn ceisio gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU. Mae wedi parhau i fuddsoddi mewn pobl a chynnwys i hybu amrywiaeth, ac wedi gwreiddio ei agwedd tuag at gomisiynu amrywiol yn glir ar draws y sefydliad. Mae heriau'n parhau i'r BBC wrth sicrhau ei fod yn berthnasol i'r holl gynulleidfaoedd, yn enwedig mewn grwpiau demograffig penodol.

**Perfformiad y BBC yn 2024/25:**

- Arhosodd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog teledu'r BBC (llinol ac ar-alw) yn gymharol sefydlog ar draws yr holl wledydd (63% yng Ngogledd Iwerddon a Chymru, 61% yn Lloegr, 60% yn yr Alban).[147] Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o sut mae'r BBC yn adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU wedi aros yn gyson o flwyddyn i flwyddyn, er ei fod yn parhau i fod y Diben Cyhoeddus â'r sgôr isaf.[148]
- Wrth i'r BBC barhau i symud adnoddau a gwneud penderfyniadau allan o Lundain, mae cyfran y gwariant gwariant ar deledu rhwydwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi cynyddu, i gyfrif nawr am 61% o'r gwariant cymwys.[149] Roedd cyfanswm allbwn teledu'r gwledydd a'r rhanbarthau ('rhaglenni disodli') wedi cynyddu yn 2024 ond wedi aros 4% yn is na lefel 2021.
- Nodwyd yn 2023 fod nifer o strategaethau amrywiaeth y BBC yn dod i ben: rydym yn falch ei fod bellach wedi cyhoeddi ei strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i diweddaru a Chod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth wedi'i adnewyddu; byddwn nawr yn monitro cynnydd yn erbyn y rhain.

Yn yr Adolygiad Cyfnodol diwethaf, trafodwyd strategaeth Across the UK y BBC a dywedwyd y gallai helpu i wella boddhad cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau a gwella tryloywder buddsoddiadau, strategaethau a pherfformiad y BBC. Fodd bynnag, dywedwyd gennym y byddai ei lwyddiant yn dibynnu ar ei ddull gweithredu, ac y dylai'r BBC fesur ei effeithiau i sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd a'r economi greadigol.

## Ein hasesiad

Tynnodd Adolygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom sylw at gyfrifoldeb unigryw'r BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ledled y DU, gan sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn adlewyrchu amrywiaeth y genedl. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth adlewyrchu cymdeithas y DU yn ôl iddi hi ei hun a meithrin cydlyniant cenedlaethol, ac mae cynulleidfaoedd yn dweud wrthym yn gyson fod hyn yn bwysig: Mae 70% o oedolion yn y DU yn dweud ei bod yn bwysig i gymdeithas yn gyffredinol bod y BBC yn '*adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU*'.[150] Os na fydd y BBC yn llwyddo i ateb yr her hon, ceir risg y bydd cynulleidfaoedd yn mynd i rywle arall. Mae gwneud hyn yn iawn yn hanfodol nid yn unig er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa (fel y nodir yn DC3), ond er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y BBC yn y dyfodol.

[147] Barb fel y'i gwyliwyd. Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.
[148] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25
[149] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[150] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.

## Mae llawer yn defnyddio'r BBC o hyd, gyda gwahaniaethau yn ôl gwlad a rhanbarth

Mae'r BBC wedi parhau i ddarparu'n dda i gynulleidfaoedd yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU drwy gydol cyfnod y Siarter. Mae'n parhau i gael ei ddefnyddio gan y rhan fwyaf o oedolion ym mhob gwlad, er bod cyrhaeddiad yng Nghymru wedi gostwng yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 87% i 78%).[151] Mae Ffigur 2 isod yn dangos y gwahaniaethau yng nghyrhaeddiad gwasanaethau'r BBC yn ôl gwlad.

**Ffigur 2: Cyrhaeddiad wythnosol ar draws gwasanaethau'r BBC yn ôl gwlad**

| | Y DU | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y BBC** | 83% | 84% | 79% | 82% | 78% |
| **Teledu'r BBC** | 61% | 61% | 63% | 60% | 63% |
| **BBC iPlayer** | 30% | 30% | 26% | 28% | 32% |
| **BBC Radio** | 55% | 55% | 52% | 51% | 63% |
| **BBC Sounds** | 24% | 24% | 21% | 19% | 21% |
| **BBC Ar-lein (cyrhaeddiad misol)** | 76% | 75% | 73% | 78% | 80% |

*Ffynonellau: Unrhyw beth gan y BBC- Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25; oedolion 16+ oed; Teledu'r BBC a BBC iPlayer- Barb fel y'i gwyliwyd, blwyddyn galendr 2024, unigolion 4+oed. Meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer teledu a BBC iPlayer 15 munud a mwy yn olynol. Mae teledu'r BBC yn cynnwys sianeli teledu ac ar-alw/BBC iPlayer. Mae BBC iPlayer yn cynnwys yr holl wylio ar-alw sy'n cael ei fesur ar gynnwys y BBC; Radio'r BBC - RAJAR (oedolion 15 oed a hŷn); data Ch1 2025 ar bwysoliad 12 mis; BBC Sounds- Arolwg Sain Ofcom 2025 oedolion 16+ oed; Apiau/Safleoedd y BBC- cyrhaeddiad misol gwasanaeth mesur cynulleidfaoedd Ipsos iris ym mis Mawrth 2025, defnyddwyr rhyngrwyd y DU 15 oed a hŷn, ac eithrio safleoedd ac apiau BBC iPlayer a BBC Sounds. Oherwydd gwahanol fethodolegau, nid oes modd cymharu ffigurau ar gyfer pob llwyfan yn uniongyrchol â'i gilydd.*

## Mae canfyddiadau o'r BBC wedi aros yn sefydlog dros y Siarter, ond mae amrywiadau rhwng grwpiau demograffig

Ar ddechrau'r Siarter, fe wnaethom adrodd bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn llai ffafriol tuag at y BBC o'i gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill. Mae canfyddiadau yn yr Alban bellach yn debyg i gyfartaledd y DU (gyda 61% bellach yn ei raddio'n uchel, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 60%). Fodd bynnag, eleni, gostyngodd ffafrioldeb tuag at y BBC yng Nghymru, gydag ychydig dros hanner (55%) o oedolion bellach yn ei raddio'n uchel. Yn benodol, mae cyfran yr oedolion yng Nghymru sy'n rhoi sgôr negyddol i'r BBC yn uwch na chyfartaledd y DU (23% o'i gymharu â 15%). Roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru hefyd yn llai tebygol o gytuno bod y BBC yn *'cynnwys rhanbarth/gwlad y DU rwy'n byw ynddi'*, i lawr o 55% yn 2023/24 i 47%, ac islaw cyfartaledd y

---

[151] Er iddo ostwng eleni yng Ngogledd Iwerddon hefyd (o 86% i 79%), daeth hyn ag ef yn ôl yn unol â'r lefelau a welwyd y flwyddyn flaenorol (o 83% yn 2022/23); Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.

DU o 54%.[152] Byddwn yn cadw llygad ar a yw'r newidiadau hyn yn ddigwyddiad untro neu'n ddechrau tuedd tymor hir.

Dros y Siarter, mae cynulleidfaoedd wedi parhau i roi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU. Eleni, yn unol â blynyddoedd blaenorol, rhoddodd 59% o gynulleidfaoedd sgôr uchel iddo, er fel y trafodwyd ei fod yn parhau i gael sgôr is na'r Dibenion Cyhoeddus eraill. Mae mwy na hanner (56%) o gynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu *'cynnwys sy'n berthnasol i mi'*, ond mae llai (51%) yn dweud yr un peth am *'yn adlewyrchu bywydau pobl fel fi'*. Mae'r sgoriau hyn wedi aros yn eithaf cyson dros y cyfnod adolygu.[153]

Mae gwella canfyddiadau o ba mor dda mae'r BBC yn cynrychioli bywyd a diwylliant y DU yn dal yn her. Roedd ei arolwg cyhoeddus diweddar wedi canfod mai dim ond 51% o'r ymatebwyr a ddywedodd ei fod yn effeithiol ar hyn o bryd wrth adlewyrchu pobl a rhannau o'r DU. Mae'r BBC wedi dweud ei fod nawr yn ystyried canfyddiadau'r ymchwil hwn, gan gynnwys meysydd fel sut gall fod yn fwy atebol ac ymatebol i anghenion cynulleidfaoedd. Mae hwn yn faes y byddwn hefyd yn parhau i'w fonitro.

Fel y nodwyd yn flaenorol ac sy'n amlwg ers i ni ddechrau rheoleiddio'r BBC yn 2017, mae gwahaniaethau sylweddol yn parhau o ran defnydd ac agwedd tuag at y BBC ymhlith gwahanol grwpiau demograffig. Mae cynulleidfaoedd hŷn a'r rhai mewn aelwydydd AB yn parhau i fod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r BBC a'i raddio'n uchel am gyflawni Diben Cyhoeddus 4, tra bod cynulleidfaoedd iau a'r rhai mewn aelwydydd DE yn parhau i'w raddio'n llai uchel.

Ymhlith cynulleidfaoedd anabl, mae ffafrioldeb tuag at y BBC wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar 58% yn 2024/25, ond mae'n parhau'n is ymhlith cynulleidfaoedd niwroamrywiol ar 48%. Mae cynulleidfaoedd anabl yn llai tebygol o raddio'r BBC yn uchel ar draws ystod o fesurau.[154] Ar gyfer cynulleidfaoedd o grwpiau ethnig lleiafrifol, mae ffafrioldeb y BBC yn cyd-fynd yn fras â phob oedolyn, gydag ymatebwyr Du yn fwy tebygol o sgorio'r BBC yn gadarnhaol.[155] Mae cynulleidfaoedd ethnig lleiafrifol hefyd yn fwy tebygol o gytuno bod y BBC yn 'adlewyrchu bywydau pobl fel fi' fel y dangosir isod.

[152] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.
[153] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.
[154] Gan gynnwys 'yn adlewyrchu bywydau pobl fel fi' (ar 47% o'i gymharu â 54% ymhlith pobl nad ydynt yn anabl). Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC, 2024/25.
[155] Mae 61% o oedolion o leiafrifoedd ethnig yn rhoi sgôr ffafriol i'r BBC, o'i gymharu â 60% ymhlith yr holl oedolion, a 70% ymhlith oedolion Du. Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC, 2024/25.

**Ffigur 3: % o bob grŵp cynulleidfa sy'n rhoi sgôr gadarnhaol neu negyddol i'r BBC ar gyfer y gosodiad, 'yn adlewyrchu bywydau pobl fel fi'**

| | Cyffredinol | 16-34 | 35-54 | 55+ | ABC1 | C2DE | Ethnig Lleiafrifol | Gwyn | Anabl | Ddim yn anabl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadarnhaol % (7-10)** | 51% | 52% | 52% | 50% | 54% | 47% | 60% | 50% | 47% | 54% |
| **Negyddol % (1-4)** | 20% | 17% | 20% | 22% | 17% | 24% | 11% | 22% | 25% | 18% |

*Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.*

## Mae'r BBC wedi canolbwyntio ar wella'r ffordd y mae'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd ledled y DU a chefnogi'r economi greadigol

Er mwyn sicrhau bod rhaglenni ac allbwn y BBC yn cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd, mae wedi bod yn datblygu a gweithredu nifer o strategaethau a mentrau. Er enghraifft, lansiwyd ei strategaeth Across the UK yn 2021, ac roedd yn ceisio symud mwy o'i weithgareddau creadigol a newyddiadurol o Lundain rhwng 2021/22 a 2027/28. Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'r BBC wedi gwneud nifer o newidiadau, er enghraifft mwy o fuddsoddi yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, drwy symud rhai rhaglenni i ganolfan gynhyrchu newydd yn Digbeth, Birmingham. Mae ATUK hefyd wedi ceisio ailgydbwyso pŵer comisiynu teledu rhwydwaith ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau drwy gynyddu pŵer gwneud penderfyniadau a gwariant y tu allan i Lundain.

Mae'r BBC yn canolbwyntio fwyfwy ar gynhyrchu cynnwys effaith uchel sy'n cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU ar deledu rhwydwaith (fel rhan o'i strategaeth effaith uchel). Mae wedi darparu rhaglenni fel *Blue Lights, Granite Harbour* a *Lost Boys and Fairies* y mae'n dweud sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn y cymunedau y maent yn eu hadlewyrchu, ond sydd hefyd yn atseinio ledled y wlad. Mae'n dweud bod ei gynnig effaith uchel sy'n cwmpasu drama, comedi ac allbwn heb ei sgriptio, yn cefnogi ei uchelgeisiau ATUK i alluogi economïau creadigol ffyniannus y tu allan i Lundain.[156] Mae strategaeth y BBC hefyd wedi cynnwys cyd-gomisiynu rhwng y rhwydwaith a'r gwledydd/rhanbarthau sy'n ceisio portreadu cymunedau penodol yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ond sydd hefyd yn taro tant â chynulleidfa ledled y DU. Er bod y BBC wedi bod yn gwneud cynnydd da yn erbyn ei strategaethau, fel y trafodwyd, nid yw'n ymddangos ei fod wedi cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd eto.

[156] BBC, Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25, t.30.

Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu i bob cynhyrchiad rhanbarthol newydd gymhwyso ar o leiaf ddau o dri maen prawf Ofcom Gwnaed y tu allan i Lundain[157], yn y wlad neu'r rhanbarth maen nhw wedi cael eu neilltuo iddo.[158]

O ran amrywiaeth, mae'n rhaid i'r BBC gael cod ymarfer comisiynu amrywiaeth ar waith, ac adrodd ar berfformiad yn ei erbyn. Yn ddiweddar, mae wedi adnewyddu ei god blaenorol ar gyfer 2018, ac mae'n cynhyrchu adroddiad blynyddol integredig, sy'n ymdrin â chyflenwi comisiynu[159] a chomisiynu amrywiol. Eleni, cyhoeddodd hefyd ei strategaeth Amrywiaeth, Cynhwysiad a Pherthyn newydd. Mae hyn yn cynnwys nodau clir i adlewyrchu ei gynulleidfaoedd yn ei weithlu a chreu amgylcheddau gwaith cynhwysol a hygyrch. Wrth gyflwyno cynnwys, ei nod yw sbarduno cynrychiolaeth ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, adeiladu diwylliant cynhwysol ar bob cynhyrchiad, a chryfhau ac adeiladu ar bartneriaethau presennol yn y diwydiant.

O ran cynhyrchu, yn 2024/25, dywedodd y BBC fod 74.3% o gynyrchiadau wedi cyrraedd y targed blaenorol ar gyfer timau cynhyrchu amrywiol, sef 20%.[160] Roedd hefyd wedi diweddaru ei Ymrwymiadau Amrywiaeth Greadigol ym mis Medi 2024, gan godi ei dargedau cynrychiolaeth ar gyfer timau cynhyrchu teledu ar draws ethnigrwydd, anabledd ac amrywiaeth economaidd-gymdeithasol o 20% i 25%. Mae wedi ymrwymo i fuddsoddi o leiaf £80m y flwyddyn ar draws comisiynau teledu a radio sy'n bodloni ei feini prawf amrywiaeth greadigol ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.

Fel rhan o'n dyletswyddau, rydym hefyd yn monitro cyfansoddiad gweithlu'r BBC, gan gydnabod pwysigrwydd gweithlu amrywiol ar gyfer cynrychioli a phortreadu'n well ar yr awyr/ar y sgrin. Mae perfformiad y BBC yn cael sylw yn ein hadroddiad Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad ym Maes Darlledu.

## Mae'r BBC wedi bod yn darparu rhaglenni rhwydwaith o bob cwr o'r DU; gan fodloni ei gwotâu ar gyfer gwariant ac oriau yn y gwledydd

Mae cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol y BBC yn sicrhau bod o leiaf 50% o wariant ac oriau teledu rhwydwaith a 30% o wariant ar gynnwys radio rhwydwaith yn digwydd y tu allan i Lundain, gyda chwotâu ychwanegol ar gyfer gwariant ac oriau teledu ym mhob gwlad ac yn

[157] Dyma'r tri maen prawf: (1) canolfan sylweddol; (2) gwariant cynhyrchu; (3) talent oddi ar y sgrin. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ganllawiau Ofcom ar gynyrchiadau rhanbarthol.
[158] BBC, How we commission.
[159] Mae gan y BBC ofynion ar wahân, fel y nodir yn Atodlen 3 y Cytundeb, sy'n ymwneud â chomisiynu rhaglenni. Gweler atodiad 1 am ein hasesiad o ddarpariaeth y BBC ar sail y rhain.
[160] BBC Commissioning Supply Report 2024/25, t.17.

Lloegr y tu allan i Lundain.[161] Yn 2024, roedd cyfran gwariant cymwys[162] y BBC ar deledu rhwydwaith a ddyrannwyd i'r gwledydd a'r rhanbarthau wedi parhau i dyfu, gan gynyddu i 61%, i fyny o 60% yn 2023 a 54% yn 2021.[163] Ers 2021, canran y gwariant cymwys a ddyrannwyd i ranbarthau Lloegr y tu allan i Lundain sydd wedi cynyddu fwyaf, gan godi o 32% i 36%. Mae adleoli i Ogledd Lloegr wedi bod yn rhan allweddol o hyn, fel adleoli *Morning Live* i Fanceinion yn 2022, ac ar gyfer drama, ailgomisiynu *Waterloo Road*. Cynyddodd y gwariant a ddyrannwyd i Gymru a'r Alban hefyd rhwng 2021 a 2024,[164] dan arweiniad teitlau drama ac adloniant yn benodol. Mae'r gwariant a ddyrannwyd i Ogledd Iwerddon wedi aros yn gymharol sefydlog, ar 4%, gyda dramâu sy'n dychwelyd fel *Blue Lights* a'r gyfres arswyd *Wreck* yn cyfrannu at hyn.[165]

Mae'r BBC hefyd yn parhau i fodloni ei ofynion ar gyfer oriau'r rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain. Yn gyffredinol, roedd nifer yr oriau rhwydwaith cymwys a wnaed y tu allan i Lundain yn sefydlog yn 2024 ond gostyngodd ychydig fel cyfran o gyfanswm yr oriau cymwys. Eleni, gostyngodd yr oriau yn yr Alban ond cynyddodd yng Nghymru, wedi'i sbarduno gan newidiadau mewn teitlau chwaraeon. Yn y tymor hwy, mae cyfran yr oriau sy'n gymwys i gael eu gwneud y tu allan i Lundain wedi cynyddu, i fyny o 60% yn 2017 a 64% yn 2021, i 67% yn 2024.[166] Gweler tudalennau 47-54 am fwy o fanylion ynghylch sut mae'r BBC wedi cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair gwlad.

Mae gwariant y BBC ar gynnwys radio rhwydwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i Lundain hefyd wedi cynyddu: o 36% yn 2022/23 i 46% yn 2024/25. Mae'r BBC yn dweud bod hyn wedi cynnwys rhaglenni BBC Radio 3 yn symud i Salford, BBC Asian Network i Birmingham a rhaglenni BBC Radio 4 i Salford a Glasgow. Mae hefyd wedi lansio canolfan cynhyrchu sain ar draws Glasgow, Caeredin a Belfast. Dywed y BBC ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o 50% erbyn 2027/28.[167]

## Mae allbwn ar wasanaethau teledu gwledydd a rhanbarthol y BBC wedi gostwng

Mae faint o gynnwys teledu sydd ar amrywiadau cenedlaethol a rhanbarthol y BBC o BBC One a BBC Two ('rhaglenni disodli') a BBC Scotland wedi gostwng, o 8,105 awr yn 2021 i 7,798 awr yn 2024 (gostyngiad o 4%). Yn ystod y cyfnod hwn, gostyngodd oriau gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf 6% i 6,042, oherwydd amrywiadau mewn allbwn newyddion rhanbarthol – disgynnodd allbwn newyddion yn 2022 a 2023 cyn cynyddu yn 2024, gyda'r twf diweddar yn dod yn bennaf o Gymru a Lloegr.[168]

Ochr yn ochr â'r gostyngiad yn swmp y cynnwys, mae'r BBC yn gwario mwy fesul awr o gynnwys. Ers 2021, mae gwariant nominal ar raglenni rhanbarthol gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos

---

[161] Amodau 4.15 i 4.23 ac 4.28 o'r Drwydded Weithredu.
[162] Mae'r gwariant/oriau cymwys yn ymwneud â rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ac eithrio categorïau penodol fel rhaglenni newyddion.
[163] Cyrraedd ei darged ei hun o 60% erbyn 2026.
[164] O 7% i 9% yng Nghymru a 9% i 10% yn yr Alban.
[165] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[166] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[167] BBC Commissiong Supply Report 2022/23, t.28 a BBC Commissioning Report 2024/25, t.24. Sylwer, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i gynyddu'r gwariant y tu allan i Lundain ar deledu rhwydwaith a rhaglenni sain yn ei gynllun Across the UK yn 2021. Ym mis Mai 2022, roedd y Llywodraeth wedi gwreiddio'r targedau hyn yng Nghytundeb y BBC. Nid oes gennym ddata cymharol ar gyfer cyn 2022/23 gan fod y BBC wedi cynnwys BBC Sounds yn y cyfrifiadau ar wariant perthnasol ar raglenni radio rhwydwaith o 2022/23, gan adlewyrchu'r newidiadau i'r Cytundeb a'r Drwydded Weithredu.
[168] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC, gan gynnwys BBC Scotland.

am y tro cyntaf wedi codi 18% (er bod hyn yn sefydlog wrth ystyried chwyddiant). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynyddodd y gwariant 7% yn Lloegr ond disgynnodd 10% yng Nghymru; mae wedi bod yn weddol sefydlog yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.[169]

## Roedd nifer y rhaglenni newyddion a materion cyfoes rhanbarthol wedi cynyddu eleni ac mae cynulleidfaoedd yn dal yn fodlon ar allbwn y BBC

Ar draws y pedair gwlad, roedd gwariant ar newyddion a materion cyfoes rhanbarthol gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y teledu wedi cynyddu 8% o'i gymharu â 2023, sy'n uwch na'r cynnydd o 4% i 5,115 awr. O fewn hyn, gwnaeth oriau newyddion gynyddu 4% o un flwyddyn i'r llall i 4,736, a gwnaeth oriau materion cyfoes dyfu o 9% i 379.[170]

Cynyddodd allbwn newyddion a materion cyfoes rhanbarthol o un flwyddyn i'r llall ar draws pob gwlad ond yr Alban. Ym mis Awst 2024, cymeradwyodd Ofcom ostyngiad yng nghwota newyddion a materion cyfoes BBC Scotland i'w alluogi i ail-lunio ei allbwn i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Yn unol â hyn, gostyngodd rhaglenni newyddion nad oeddent yn rhaglenni rhwydwaith yr Alban 6% i 627 awr, er bod rhaglenni materion cyfoes wedi codi 26% i 59 awr, ac wedi cynnwys y teitl *Scotcast* newydd.[171]

Gostyngodd cyrhaeddiad newyddion rhanbarthol y BBC ar deledu ac ar-alw i 30% yn 2024, o 34% yn 2022. Mae hyn yn cyd-fynd â thueddiadau'r sector ac mae'n cael ei sbarduno gan ostyngiad mewn gwylio teledu llinol, ac mae newyddion ar-alw wedi gweld cynnydd bach.[172] Er gwaethaf hyn, mae 39% o oedolion y DU yn defnyddio'r BBC i gael newyddion am eu gwlad, gyda'r ffigurau uchaf ar gyfer oedolion yng Ngogledd Iwerddon (50%) gyda chyrhaeddiad a honnir ymysg oedolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn 39%; sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol.[173] Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o newyddion lleol hefyd wedi aros yn debyg i flynyddoedd blaenorol, gyda 55% o oedolion y DU yn gadarnhaol tuag at y BBC o ran darparu *'newyddion o'r hyn sy'n digwydd yn fy ardal leol*'.[174] Mae mwyafrif (81%) y rhai sy'n dilyn newyddion lleol ar deledu rhanbarthol y BBC yn dweud eu bod yn fodlon ar ansawdd y newyddion lleol maent yn eu darparu. Mae cyfran debyg yn dweud yr un peth am raglenni materion cyfoes/gwleidyddiaeth ar gyfer eu rhanbarth ar deledu'r BBC (79%).[175]

## Mae nifer y rhaglenni disodli heb fod yn newyddion a materion cyfoes wedi gostwng

Mae'r BBC yn darparu rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol ar draws amrywiaeth o genres y tu allan i raglenni newyddion a materion cyfoes. Yn gyffredinol, roedd oriau gwreiddiol o raglenni disodli heb fod yn newyddion/materion cyfoes a ddarlledwyd am y tro cyntaf wedi gostwng 5% eleni i 927 awr yn 2024, ac roedd wedi gostwng ym mhob gwlad ac eithrio Cymru. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i lai o oriau rhanbarthol yn y genre ffeithiol arbenigol. Roedd gwariant ar raglenni disodli heb fod yn newyddion/materion cyfoes hefyd wedi gostwng, er bod amrywiadau yn lefel y gostyngiad ar draws y gwledydd.[176]

---

[169] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae'r ffigurau'n cynnwys BBC Scotland.
[170] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[171] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[172] Barb fel y'i gwyliwyd, oedolion 16 oed a hŷn. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.
[173] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[174] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2024/25.
[175] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[176] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

Yng Ngogledd Iwerddon, gostyngodd allbwn y BBC sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf 15% eleni i 157 awr, a dywedodd ei fod wedi methu ei ymrwymiad i raglenni sy'n cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon. Dywedodd fod y ddarpariaeth o raglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes yn is na'r disgwyl oherwydd oedi o ran cyflawni ac amserlennu rhai rhaglenni, yn ogystal â'i ffocws strategol effaith uchel. Mae'n nodi bod trefniadau monitro a goruchwylio newydd bellach ar waith.[177] Yn Lloegr, roedd y BBC hefyd wedi methu ei ymrwymiad ac wedi darparu 5.5 awr, (roedd wedi cynllunio 13 awr) - gostyngiad o 27.5 awr yn 2023.[178] Gostyngodd oriau yn yr Alban 5% i 526, ac yng Nghymru tyfodd 12% i 238.[179] Er bod cynnwys effaith uchel y BBC yn debygol o apelio'n eang gan gynnwys at gynulleidfaoedd y gwledydd, rydym yn nodi y gallai canfyddiadau hefyd gael eu dylanwadu gan raglenni'r gwledydd ac y gallai gostyngiadau ei gwneud yn anoddach creu cysylltiadau â'r cynulleidfaoedd hynny.

Mae'r BBC hefyd yn darparu cynnwys Gaeleg ar BBC ALBA a chynnwys Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar BBC One a Two Northern Ireland. Yn 2024/25, darparodd 2,602 awr o gynnwys Gaeleg ar BBC ALBA, gan gynnwys 608 awr o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf. Roedd yn darparu 48 awr o raglenni Sgoteg Ulster ar draws BBC One a Two Northern Ireland, ond rydym yn nodi ei fod wedi methu â chyflawni ei ymrwymiadau ei hun ar gyfer rhaglenni Gwyddeleg ac Sgoteg Ulster ar BBC Two Northern Ireland.[180] Rydym yn bwriadu cysylltu â'r BBC am ei allbwn ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau a byddwn hefyd yn parhau i fonitro hyn yn ofalus wrth i ni nesáu at ddiwedd y Siarter bresennol.

## Mae cyrhaeddiad BBC Local Radio wedi gostwng ychydig ond mae cynulleidfaoedd yn dal yn fodlon ar y cyfan â'i allbwn

Mae gwariant cyffredinol ar radio lleol a'r gwledydd wedi gostwng i'w lefel isaf yn y Siarter i £184m yn 2024/25, gostyngiad o 6% o'r flwyddyn flaenorol.[181] Sbardunwyd hyn gan ostyngiad arfaethedig mewn gwariant ar BBC Local Radio yn Lloegr, i lawr £11m, ar ôl rhoi ei gynlluniau moderneiddio ar waith ar gyfer gwasanaethau lleol yn Lloegr, drwy symud gwariant o wasanaethau darlledu i gynhyrchu ar-lein ac amlgyfrwng. Mae gwariant ar wasanaethau radio gwledydd eraill wedi aros yn sefydlog mewn termau nominal ers ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf, er bod hyn wedi gostwng tua 17% mewn termau real ers 2020/21.[182]

Mae cyrhaeddiad cyffredinol radio Gwledydd/Lleol y BBC wedi gostwng yn raddol dros amser, gyda 12% o oedolion y DU yn gwrando bob wythnos yn 2024/25 (i lawr 3.2 pwynt canran ers 2021/22, a 0.6 pwynt canran o'i gymharu â'r llynedd). O fewn hyn, mae cyrhaeddiad BBC Local

---

[177] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC a DoMaPP y BBC, 2024/25 tudalennau 87-88. Yn gyffredinol, darparodd 727 awr yn erbyn ei ymrwymiad o 775 ar gyfer rhaglenni sy'n cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon. Roedd ganddo ymrwymiadau ar wahân ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion a materion cyfoes ar BBC One a Two Northern Ireland, a oedd yn rhan o gyfanswm o 727 awr a ddarparwyd.

[178] BBC DoMaPP 2024/25, t.84. Dywedodd ei fod wedi ailflaenoriaethu gan fod y rhain i fod i gael eu hailddarlledu a'u darlledu ar ôl 11pm ac na fyddai wedi darparu llawer o werth i wylwyr.

[179] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC, ar sail data'r flwyddyn galendr. Sylwer bod adroddiadau'r BBC ar oriau yn ei DoMaPP ar gyfer blwyddyn ariannol felly nid oes modd cymharu'r ffigurau'n uniongyrchol.

[180] BBC DoMaPP 2024/25, tudalennau 87-88 a t.94. Sylwer, Mae'n dweud bod llai o ailddarllediadau o gynnwys rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar BBC Two Northern Ireland, sy'n adlewyrchu problemau gyda'u cyflwyniad graddol a gostyngiad yn nifer y rhaglenni gwreiddiol o ganlyniad i ffocws strategol BBC Northern Ireland ar 'fideo effaith uchel'.

[181] Dadansoddiad Ofcom o ddata Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC.

[182] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC ar gyfer: Radio Cymru; Radio nan Gaidheal; Radio Scotland; Radio Wales; Radio Ulster/Foyle.

Radio yn Lloegr wedi gostwng yn ystod y tair blynedd diwethaf (gostyngiad o 3.5 pwynt canran) i 10% o oedolion 15 oed a hŷn yn 2024/25, er bod y gostyngiad wedi bod yn fwy graddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ar ôl gwneud newidiadau.[183]

Mae cyrhaeddiad BBC Radio Scotland (17%), BBC Radio Wales (13%) a BBC Radio Cymru/Cymru 2 (4%) hefyd wedi gostwng ers 2021/22, er i raddau llai nag ar gyfer BBC Local Radio yn Lloegr. Er gwaethaf gostyngiad o 5.4 pwynt canran ers 2021/22, BBC Radio Ulster/Foyle sydd â'r cyrhaeddiad uchaf o hyd o blith gwasanaethau radio lleol y BBC, gyda 28% o oedolion yn gwrando bob wythnos.[184]

Ymysg gwrandawyr lleol wythnosol y BBC, mae tua thri o bob pump (61%) yn cytuno â'r datganiad *'Rwy'n dibynnu ar radio lleol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am newyddion lleol'*[185] ac mae 80% o'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau radio lleol/rhanbarthol y BBC i gael newyddion lleol yn fodlon ar ansawdd y newyddion maen nhw'n ei gael.[186] Yn 2024, cynhaliodd y BBC ei adolygiad ei hun o radio lleol yn dilyn newidiadau a wnaed i'w wasanaethau radio lleol yn Lloegr. Canfu fod cynulleidfaoedd yn gyffredinol yn derbyn y newidiadau, er bod defnyddwyr cyson iawn yn fwy tebygol o fod wedi sylwi ar wahaniaethau, gydag ymateb cymysg i'r rhaglenni a rennir. Dywedodd y BBC fod ei fesurau lliniaru, fel parhad cyflwynwyr lle bo hynny'n bosibl, diogelu adegau gwrando allweddol (e.e. brecwast a chwaraeon), a rhannu ardal yn briodol, wedi cael eu cymeradwyo gan y gynulleidfa. Dywedodd y bydd yn parhau i adolygu'r dull hwn i sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn dal i gael ei daro.[187]

Rydym yn casglu data a gwybodaeth am wasanaethau cyfryngau lleol fel rhan o'n rhaglen fonitro a'r llynedd, fe wnaethom gynnal ein hadolygiad o gyfryngau lleol. Roedd hyn yn edrych ar argaeledd newyddion a chynnwys lleol ar wahanol lwyfannau, yn ogystal ag ystyried cyrhaeddiad a bodlonrwydd â'r gwasanaethau hyn, er mwyn deall yr heriau cynyddol yn y sector, a rôl y BBC ynddo. Byddwn yn parhau i fonitro'r sector cyfryngau lleol, gan gynnwys mewn perthynas â BBC Local Radio.

## Mae'r BBC wedi gwella ei adroddiadau ar sut mae'n sicrhau'r gallu i ganfod cynnwys ar-lein o'r gwledydd a'r rhanbarthau

Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys penodol o'r gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC ar-lein ac adrodd arno bob blwyddyn. Yn ei adroddiadau DoMaPP mae wedi rhoi enghreifftiau o sut mae wedi ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i gynnwys ar-lein. Er enghraifft, mae straeon newyddion ar-lein yn defnyddio tagiau chwiliadwy, yn ôl tref ac ardal, i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i gynnwys lleol perthnasol.[188] Mae'r BBC hefyd yn dweud bod yn hawdd i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys lleol sy'n berthnasol i'w lleoliad o rheilen 'Lleol i Mi' ar dudalen flaen Sounds a bod amlygrwydd straeon newyddion lleol ar ap a gwefan BBC News wedi gwella.[189] Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i ddeall ei ddull o sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau ar BBC iPlayer.

[183] RAJAR Ch1 bob blwyddyn ar bwysoliad 12 mis; oedolion 15 oed a hŷn. Cyrhaeddiad BBC Local Radio yn Lloegr oedd: 13.7% yn 2021/22, 11.5% yn 2022/23, 11.1% yn 2023/24 a 10.2% yn 2024/25.
[184] RAJAR Ch1 bob blwyddyn ar bwysoliad 12 mis; oedolion 15 oed a hŷn.
[185] IPA TouchPoints 2025 Superhub (ton 2 2024 a thon 1 2025), oedolion Prydain 15 oed a hŷn.
[186] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[187] Ymateb y BBC i RFI, 2024/25.
[188] BBC DoMaPP 2023/24, t.92.
[189] BBC DoMaPP 2024/25, t.86.

Roedd y newidiadau a wnaeth y BBC i'w wasanaethau lleol hefyd yn cynnwys darpariaeth newyddion ar-lein lleol wedi'i diweddaru ar gyfer 43 o wahanol ardaloedd yn Lloegr. Mae wedi adrodd bod traffig wythnosol cyfartalog wedi cynyddu 33% dros y ddwy flynedd diwethaf a bod straeon newyddion ar-lein Lleol y BBC bellach yn cynrychioli bron i 30% o'r holl straeon newyddion sy'n cael eu darllen ar wefan ac ap BBC News.[190] Ewch i dudalen 65 i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein barn am sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol.

### Monitro newidiadau diweddar ers mis Ebrill 2025

Ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd Ofcom god ymarfer comisiynu amrywiaeth diweddaraf y BBC sydd bellach yn adlewyrchu ei ymrwymiadau Amrywiaeth Greadigol ac sy'n eistedd ochr yn ochr â'i gyfres o ganllawiau comisiynu. Rydym hefyd wedi cymeradwyo cais y BBC i newid gofynion ei Drwydded Weithredu ym mis Gorffennaf 2025 ar gyfer BBC Radio Foyle. Yn fwy diweddar, rydym wedi ymgynghori ar gais gan y BBC i newid ei amod Trwydded Weithredu radio lleol a chyn bo hir byddwn yn cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad.

## Cydymffurfio ag amodau trwydded weithredu DC4

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Yn 2024/25, gwnaeth y BBC fodloni pob un ond un o'i ofynion o dan DC4. Nid oedd yn bodloni'r amod i sicrhau bod 1,043 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle gan ei fod wedi darparu 718 awr, ond fel y nodir uchod, rydym newydd newid amod Trwydded Weithredu'r BBC ar gyfer BBC Radio Foyle. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â'r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.


## Y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Ar y tudalennau a ganlyn rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair gwlad, yn ogystal â phwyntiau data allweddol ar berfformiad y BBC. Mae hyn yn wahanol i'n hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddiben Cyhoeddus 4.

[190] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2024/25, t.38.

# GOGLEDD IWERDDON


## Cyrhaeddiad cyfartalog gwasanaethau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon





BBC TELEDU (CYFANSWM)




BBC iPLAYER




BBC RADIO




BBC AR-LEIN



Cyrhaeddiad Plant ar draws y BBC | Cyrhaeddiad o 65%

BBC RADIO FOYLE BBC RADIO ULSTER | Cyrhaeddiad o 28%

## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon

'Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant ledled y DU'

63% CADARNHAOL


'Yn cynnwys y rhanbarth/wlad yn y DU lle rwy'n byw'

58% CADARNHAOL

Argraff gyffredinol yng Ngogledd Iwerddon


62% CADARNHAOL

## Cyfres y BBC, Dead and Buried, wedi'i lleoli yng Ngogledd Iwerddon






## Oriau a gwariant yng Ngogledd Iwerddon ar gynnwys a ddangoswyd gyntaf ar deledu heb fod yn deledu rhwydwaith y DU yng Ngogledd Iwerddon







**525** o oriau rhaglenni

**£23m** o wariant ar gynnwys

## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon




Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb fel y'i gwyliwyd ar draws sianeli teledu ac ar-alw, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wifi yn y cartref (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2025; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25; Traciwr Perfformiad Plant y BBC 2024/25.

## Roedd cynulleidfaoedd yn treulio mwy o amser yn defnyddio gwasanaethau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon, ac roedd gwariant ac oriau rhwydwaith yn dal yn debyg i'r llynedd

Gostyngodd cyfran gwariant rhwydwaith cymwys y BBC a ddyrannwyd i Ogledd Iwerddon o 4.2% yn 2023 i 4.0% yn 2024, tra bod oriau rhwydwaith cymwys wedi cynyddu ychydig o 3.0% i 3.1%, gyda'r naill a'r llall yn aros uwchben y cwotâu o 3%.[191]

Roedd 14 o gyd-gomisiynau teledu rhwydwaith-gwledydd yn 2024/25 - tri yn fwy nag yn 2023/24 - a oedd yn cynnwys sioeau fel *Funboys*, sioe a gomisiynwyd ar y cyd â BBC Comedy, a *Hunting the Online Sex Predators* gyda BBC Three.[192] Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, methodd y BBC rai o'i ymrwymiadau ei hun ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes ar deledu BBC Northern Ireland oherwydd oedi wrth ddarparu ac amserlennu rhai rhaglenni, ac roedd hefyd wedi methu ei ymrwymiadau ei hun ar gyfer rhaglenni Gaeleg a Sgoteg Ulster BBC Two Northern Ireland.[193] Byddwn yn mynd ar drywydd hyn gyda'r BBC.

## Dathlodd y BBC 100 mlynedd yng Ngogledd Iwerddon

Roedd 2024/25 yn nodi 100 mlynedd o bresenoldeb y BBC yng Ngogledd Iwerddon, ac roedd y BBC yn dathlu hynny ledled y wlad. Teithiodd cyfres y sioe deithiol, *BBC Comes to Town*, o amgylch dinasoedd a threfi Gogledd Iwerddon, gan gyflwyno mannau ac arddangosfeydd rhyngweithiol i gynulleidfaoedd, recordiadau o bodlediadau, ac ymgysylltu ag ysgolion a chymunedau lleol.

Rhyddhaodd y BBC hefyd gasgliad o raglenni clasurol o Ogledd Iwerddon i nodi'r achlysur, yn ogystal â chynnal cyngerdd gala arbennig yn Neuadd Waterfront, Belfast, a ddarlledwyd hefyd ar y teledu, i ddathlu'r garreg filltir.

## Dathlodd Radio Ulster ei Ben-blwydd yn 50 oed

Dathlodd Radio Ulster, a ddechreuodd ddarlledu ar 1 Ionawr 1975, ei ben-blwydd yn 50 oed eleni. I nodi'r achlysur, darlledodd y BBC ddwy raglen arbennig awr o hyd a oedd yn edrych yn ôl ar hanes, cerddoriaeth a chyflwynwyr yr orsaf dros yr hanner can mlynedd diwethaf.


## Mae sioeau wedi'u comisiynu a'u cynhyrchu gan y BBC yng Ngogledd Iwerddon wedi helpu i roi hwb i'w sector creadigol

Mae adroddiad effaith economaidd y BBC ar gyfer Gogledd Iwerddon yn awgrymu bod dramâu'r heddlu *Hope Street* a *Blue Lights* wedi cynhyrchu £17.5 miliwn ac £20 miliwn ar gyfer Gogledd Iwerddon yn y drefn honno, drwy gyflogaeth a gwariant yn y gadwyn gyflenwi, ac wedi cyfrannu at 280 o swyddi ledled y wlad. [194] Mae *Blue Lights* yn benodol wedi cael canmoliaeth arbennig, gan ennill BAFTA am y Ddrama Orau yn 2025 a chael pedwar enwebiad yng Ngwobrau Ffilm a Theledu Iwerddon 2024.

[191] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[192] BBC Commissioning Report 2024/25, t.30.
[193] BBC DoMaPP 2024/25, t.87. Rydym yn nodi bod ymrwymiadau'r BBC ei hun ar wahân i amodau Trwydded Weithredu'r BBC ac felly nid oes unrhyw oblygiadau cydymffurfio gan nad yw'r BBC yn cyflawni ei ymrwymiadau ei hun.
[194] BBC Northern Ireland Economic Impact Report 2023/24, t.12.

# CYMRU

## Cyrhaeddiad cyfartalog gwasanaethau'r BBC yng Nghymru






Cyrhaeddiad Plant ar draws y BBC | **Cyrhaeddiad o 70%**


BBC RADIO WALES | **Cyrhaeddiad o 13%**

BBC RADIO CYMRU INCLUDING CYMRU 2 | **Cyrhaeddiad o 4%**


## Argraffiadau cadarnhaol o'r BBC ymysg oedolion yng Nghymru





## Cyfres y BBC, The One That Got Away, wedi'i lleoli yng Nghymru




## Oriau a gwariant yng Nghymru ar gynnwys a ddangoswyd gyntaf ar deledu heb fod yn deledu rhwydwaith y DU




## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yng Nghymru




*Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb fel y'i gwyliwyd ar draws sianeli teledu ac ar-alw, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wifi yn y cartref (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2025; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25; Traciwr Perfformiad Plant y BBC 2024/25.*

## Roedd gwariant ac oriau rhwydwaith cymwys wedi cynyddu yng Nghymru, er bod nifer y teitlau a gynhyrchwyd yng Nghymru wedi gostwng

Cynyddodd cyfran gwariant rhwydwaith cymwys y BBC a ddyrannwyd i Gymru o 8.1% yn 2023 i 8.8% yn 2024, tra bod oriau rhwydwaith cymwys wedi cynyddu o 6.6% i 10.7% - gyda'r naill a'r llall uwchben y cwotâu o 5%. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y teitlau a gynhyrchwyd yng Nghymru ychydig o'i gymharu â 2022 a 2023.[195] Roedd comisiynau newydd yn 2024 yn cynnwys comedi sefyllfa *Mammoth* a rhaglen ddogfen *Strictly Amy: Cancer and Me.*

## Poblogrwydd *Gavin and Stacey*

Roedd diweddglo *Gavin and Stace*y yn llwyddiant poblogaidd ledled Cymru, gydag 1.8 miliwn o bobl yn gwylio'r diweddglo, sy'n golygu mai dyma'r foment sydd wedi'i gwylio fwyaf ar y teledu yng Nghymru ers dros 20 mlynedd. Roedd y rhaglen ddogfen ddilynol hefyd yn boblogaidd, gan ddenu 8.8m o wylwyr ledled y DU a'i gwneud y rhaglen unigol sydd wedi cael y nifer uchaf erioed o wylwyr gan BBC Cymru Wales.[196]

## Mwy o oriau radio ar radio lleol yng Nghymru ac ymgysylltiad sain BBC Sounds

Cynyddodd nifer yr oriau darlledu ar draws gorsafoedd gwledydd Cymru o 16,647 yn 2024 i 18,280 yn 2025.[197] Mae hyn yn dilyn sefydlu Radio Cymru 2 fel gorsaf radio annibynnol, sydd bellach yn darlledu 60 awr yr wythnos o gynnwys gwreiddiol, gyda 50% o'i rhestrau chwarae wedi'u neilltuo ar gyfer caneuon Cymraeg. Mae 67,000 o gyfrifon gweithredol wythnosol sy'n gwrando ar BBC Radio Wales ar BBC Sounds bob wythnos, ac mae newidiadau i reilen Cymru ar BBC Sounds wedi gwella nifer gwrandawyr sioeau fel *Gold Rush*, *Hirwaun to Hollywood*, ac *The Ammanford Anarchist*.[198]

## Cronfa Arloesi Cynnwys BBC Cymru Wales a Media Cymru


Ail-lansiodd BBC Cymru Wales a Media Cymru eu Cronfa Arloesi Cynnwys ar gyfer 2024/25, a oedd yn canolbwyntio ar gynnwys am yr hinsawdd i gynulleidfaoedd prif ffrwd. Roedd y gronfa, a agorodd ym mis Hydref 2024, wedi dyfarnu £20,000 i bum cwmni cynhyrchu yng Nghymru i ddatblygu syniadau a fydd yn helpu i roi gwybodaeth i gynulleidfaoedd a'r cyhoedd am newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau. Cafodd y prosiect ei ddatblygu rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025.

## Dathlu Dydd Miwsig Cymru


Ar 7 Chwefror 2025, dathlodd BBC Cymru Wales ddegfed pen-blwydd Dydd Miwsig Cymru (DMC). Drwy gydol y dydd, myfyriodd cantorion, artistiaid a chyflwynwyr o Gymru ar y degawd blaenorol o gerddoriaeth Gymraeg, artistiaid Cymraeg sy'n dod i'r amlwg, a rhannwyd cerddoriaeth newydd ar draws gwahanol lwyfannau BBC Cymru Wales, gan gyhoeddi datblygiad y sîn gerddoriaeth Gymraeg a'i dyfodol.

[195] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[196] Barb fel y'i gwyliwyd, 4 unigolyn a mwy, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu yn y cartref, gwylio hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.
[197] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2024/25, t.47.
[198] BBC DoMaPP 2024/25 t.99.

# YR ALBAN




## Cyrhaeddiad cyfartalog gwasanaethau'r BBC yn yr Alban





BBC
TELEDU (CYFANSWM)




BBC
iPLAYER




BBC
RADIO




BBC
AR-LEIN

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyrhaeddiad Plant ar draws y BBC<br>Cyrhaeddiad o 66% | BBC YR ALBAN<br>Cyrhaeddiad o 14% | BBC RADIO YR ALBAN<br>Cyrhaeddiad o 17% | BBC ALBA<br>Cyrhaeddiad o 47%* | BBC RADIO NAN GÀIDHEAL<br>Cyrhaeddiad o 52%* |

## Argraffiadau cadarnhaol o'r BBC ymysg oedolion yn yr Alban

'Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant ledled y DU'

59% CADARNHAOL

'Yn cynnwys y rhanbarth/wlad yn y DU lle rwy'n byw'

56% CADARNHAOL


Argraff gyffredinol yn yr Alban

61% CADARNHAOL

## Cyfres y BBC, Dinosaur, wedi'i lleoli yn yr Alban





## Oriau a gwariant yn yr Alban ar gynnwys a ddangoswyd gyntaf ar deledu heb fod yn deledu rhwydwaith y DU




1,212
o oriau rhaglenni

£65.9m
o wariant ar gynnwys

## Oriau a gwariant gwreiddiol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn yr Alban




*Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb fel y'i gwyliwyd ar draws sianeli teledu ac ar-alw, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wifi yn y cartref (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2025; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2023/24; Traciwr Perfformiad Plant y BBC 2023/24; BBC ALBA a BBC nan Gàidheal: *Panel TRP PRAEG yn seiliedig ar y gymuned Aeleg 16+ oed yn yr Alban.*

## Arhosodd gwariant rhwydwaith cymwys yn yr Alban yn gyson, er bod oriau wedi gostwng

Bu cynnydd bach yng nghyfran gwariant rhwydwaith cymwys y BBC a ddyrannwyd i'r Alban, o 9.0% yn 2023 i 9.7% yn 2024. Gostyngodd yr oriau rhwydwaith cymwys cyfatebol o 17.3% yn 2023 i 11.2% yn 2024, ond roeddent yn dal i fod yn fwy na'r cwota o 8%.[199]

Roedd 20 o gyd-gomisiynau teledu Rhwydwaith-Gwledydd yn 2024/25 (i fyny o 19 yn 2023/24), gyda rhaglenni fel y gyfres gomedi *Dinosaur* yn cefnogi awduron a chyfarwyddwyr sy'n dod i'r amlwg.[200]

## Buddsoddiadau mewn teledu Gaeleg

Yn gynharach eleni rhyddhaodd y BBC ddrama Gaeleg uwchraddol gyntaf y DU, *An t-Eilean* (Yr Ynys), a gynhyrchwyd yn yr Alban a'i ffilmio yn Ynysoedd Heledd fel partneriaeth rhwng y BBC ac MG ALBA. Derbyniodd y ddrama ddwy wobr yng ngwobrau Prix CIRCOM 2025, gan gynnwys y categori Drama ac Adloniant a'r Grand Prix, sy'n cydnabod un sioe ragorol dros y flwyddyn. Hon hefyd oedd y ddrama Aeleg gyntaf i gael ei darlledu ledled y DU, gyda gwylwyr dros y DU yn gallu gwylio'r sioe ar BBC Four ac iPlayer.

## Newidiadau i oriau darlledu a darpariaeth newyddion ar BBC Scotland

Yn 2024, cymeradwyodd Ofcom gais y BBC i leihau nifer yr oriau darlledu oriau brig ar gyfer rhaglenni newyddion ar BBC Scotland. Dywedodd y BBC nad oedd yn cyflawni ei ymrwymiadau ar gyfer newyddion yn yr Alban gan fod ymrwymiadau ei Gynllun Blynyddol wedi cael eu disodli gan ein cymeradwyaeth i newid y drwydded. Felly, darlledodd 40 awr yn llai na'r 280 awr a ymrwymodd yn 2024/25.[201]

Mae'r newid yn y ddarpariaeth newyddion ar BBC Scotland yn cynnwys cyflwyno *Reporting Scotland: News at Seven* ym mis Ionawr 2025. Mae'n canolbwyntio mwy ar gymunedau ledled yr Alban a chyflwyno'r podlediad Scotcast sydd ar gael mewn fformatau sain a gweledol. Mae canfyddiadau cynnar y BBC yn awgrymu derbyniad da gan gynulleidfaoedd i'r newidiadau hyn, gyda'r sylw a roddwyd i ganlyniadau Storm Eowyn yn un o'r rhaglenni newyddion a gafodd ei gwylio fwyaf yn yr Alban yn ystod y 18 mis diwethaf.[202]

## Sylw i dîm dynion yr Alban yn EURO 2024

I ddathlu'r ffaith bod tîm pêl-droed dynion yr Alban wedi dychwelyd i brif lwyfan pêl-droed Ewrop, comisiynodd y BBC raglenni ar draws llwyfannau sain a fideo i gynulleidfaoedd yn yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni adloniant fel *Late Night at The Euros with Compston & Smart*, a sioe cwis newyddion *Breaking the Euros*, yn ogystal â rhoi sylw manwl i bob gêm a chwaraewyd gan y tîm cenedlaethol. Gêm yr Alban yn erbyn y Swistir yn Ewro 2024 oedd y rhaglen deledu a gafodd ei gwylio fwyaf yn yr Alban yn 2024, gyda 1.4 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd.[203]

---

[199] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[200] BBC Commissioning Report 2024/25, t.27.
[201] BBC DoMaPP 2024/25, t.92. Rydym yn nodi bod ymrwymiadau'r BBC ei hun ar wahân i amodau Trwydded Weithredu'r BBC ac felly nid oes unrhyw oblygiadau cydymffurfio gan nad yw'r BBC yn cyflawni ei ymrwymiadau ei hun
[202] BBC DoMaPP 2024/25, t.93.
[203] Barb, fel y'i gwyliwyd, 4 a mwy o unigolion, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu yn y cartref. Gwylio drwy gydol 2024. Isafswm hyd ar gyfer teitlau i'w cynnwys: 10 munud.


# LLOEGR

## Cyrhaeddiad cyfartalog gwasanaethau'r BBC yn Lloegr




Cyrhaeddiad o 61% bob wythnos

BBC TELEDU (CYFANSWM)



Cyrhaeddiad o 30% bob wythnos

BBC iPLAYER




Cyrhaeddiad o 55% bob mis

BBC RADIO



Cyrhaeddiad o 75% bob wythnos

BBC AR-LEIN



Cyrhaeddiad Plant ar draws y BBC | Cyrhaeddiad o 71%

BBC RADIO LLEOL | Cyrhaeddiad o 10%

## Argraffiadau cadarnhaol o'r BBC ymysg oedolion yn Lloegr

| Rhanbarth | % |
|---|---|
| GOGLEDD | 56% |
| DE | 62% |
| CANOLBARTH LLOEGR | 64% |
| LLUNDAIN | 63% |

Mae **60%** yn credu bod y cynnwys yn adlewyrchu bywyd a diwylliant ledled y DU

Mae **54%** yn credu bod cynnwys yn dangos gwlad/rhanbarth y DU lle maent yn byw

## Cyfres y BBC, Alma's Not Normal, wedi'i lleoli yng Ngogledd-orllewin Lloegr





Roedd **19%** o gynulleidfa'r gyfres yng Ngogledd-orllewin Lloegr



Roedd **10%** o gynulleidfa gyfartalog y BBC yng Ngogledd-orllewin Lloegr


## Oriau a gwariant yn Lloegr ar gynnwys a ddangoswyd gyntaf ar deledu heb fod yn deledu rhwydwaith y DU




**3,701** o oriau rhaglenni

**£91.5m** o wariant ar gynnwys

## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yn rhanbarthau Lloegr




*Ffynonellau: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb fel y'i gwyliwyd ar draws sianeli teledu ac ar-alw, setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wifi yn y cartref (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2025; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2024/25; Traciwr Perfformiad Plant Ofcom y BBC 2024/25.*

## Roedd oriau teledu rhwydwaith wedi codi tra bod gwariant wedi disgyn wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol

Gostyngodd cyfran gwariant cymwys y BBC ar raglenni a ddyrannwyd i ranbarthau Lloegr y tu allan i Lundain o 37.9% yn 2023 i 35.9% yn 2024, gyda chynnydd ar gyfer Gogledd Lloegr a Chanolbarth a Dwyrain Lloegr yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad ar gyfer De Lloegr.[204] Yn y cyfamser, cynyddodd yr oriau cymhwyso cyfatebol o 41.5% i 42.0%. Nid oedd y BBC wedi cyflawni ei ymrwymiad ei hun o 13 awr o raglenni heb fod yn newyddion na'n faterion cyfoes sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2024/25, gan ei fod wedi darlledu 5.5 awr. Mae'r BBC yn dweud bod hyn oherwydd ail-flaenoriaethu cynnwys a oedd yn 'ailddarllediadau i gyd, a fyddai'n cael eu darlledu ar ôl 11pm ac felly na fyddent yn darparu llawer o werth i wylwyr.'[205]

## Mae'r BBC wedi bod yn ehangu ei bresenoldeb ar draws rhanbarthau Lloegr

Gan adeiladu ar ei strategaeth Across the UK, mae'r BBC wedi parhau i gymryd camau i ehangu ei gynyrchiadau teledu rhwydwaith i leoliadau y tu allan i Lundain. Roedd hyn yn cynnwys symud y gwaith o gynhyrchu rhaglenni fel *Silent Witness* i'r clwstwr creadigol newydd yn Digbeth, Birmingham, gan gefnogi swyddi newydd yn yr ardal, gan gynnwys rolau hyfforddeion a phrentisiaethau. Yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, roedd *Smoggie Queens* yn gomisiwn mawr wedi'i sgriptio o'r rhanbarth, ac ers hynny mae wedi cael ei ailgomisiynu, ac roedd *The Dumping Ground* yn dal i gael ei gynhyrchu yn Hexham, Northumberland.[206] Ochr yn ochr â chynyrchiadau teledu rhwydwaith, mae rhaglen artistiaid heb eu llofnodi'r BBC, *BBC Introducing*, wedi ffurfio partneriaeth â lleoliadau yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr i lwyfannu cerddorion a pherfformwyr lleol mewn gigs a rhoi cyfle iddynt greu cynnwys newydd.

## Y BBC oedd partner darlledu Bradford, Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025

Roedd y datganiad mai Bradford yw Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn cyd-fynd â'r cyhoeddiad mai'r BBC fyddai partner darlledu swyddogol y ddinas. Comisiynwyd amrywiaeth o gynnwys teledu newydd gan y BBC i dynnu sylw at Bradford, gan gynnwys *Bradford's Big Bash*, penodau penodol i Bradford o *My Life* gan CBBC, a'r ffilm drosedd gyffrous *Virdee*. Ar y radio, rhoddodd BBC Radio Leeds sylw rheolaidd i ddigwyddiadau gan dynnu sylw at drigolion Bradford gyda mentrau fel New Voices Bradford y BBC, a ddewisodd dri enillydd i fod yn lleisiau Bradford yn ystod y flwyddyn.

## Mae'r BBC yn buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu radio a theledu annibynnol


Dychwelodd TV Small Indie Fund y BBC a BBC Radio & Music Indie Development yn 2024/25, i gefnogi cynyrchiadau annibynnol ledled y DU gyda buddsoddiad a llwybrau i dyfu a datblygu eu cynnwys ar draws teledu a radio. Eleni, dewiswyd 14 cwmni ar gyfer cyllid o'r TV Small Indie Fund o ranbarthau Lloegr, gydag wyth arall yn cael eu dewis o Lundain. Hefyd, dewiswyd pum cwmni ar gyfer BBC Radio & Music Indie Development Fund.

---

[204] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[205] BBC DoMaPP 2024/25, t.84. Rydym yn nodi bod ymrwymiadau'r BBC ei hun ar wahân i amodau Trwydded Weithredu'r BBC ac felly nid oes unrhyw oblygiadau cydymffurfio gan nad yw'r BBC yn cyflawni ei ymrwymiadau ei hun.
[206] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2024/25, t.47.

# DIBEN CYHOEDDUS 5

**Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant, a'i gwerthoedd i'r byd**




*Ffynhonnell: BBC DoMaPP 2024/25*

**Yn yr adran hon rydym yn crynhoi perfformiad BBC World Service dros gyfnod yr Adolygiad Cyfnodol. Nid yw Ofcom yn rheoleiddio'r gwasanaeth hwn, ac nid ydym wedi adrodd arno ers yr Adolygiad Cyfnodol blaenorol (2020/21). Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad yn gwerthuso rhaglenni arbedion y BBC World Service.**

**DC5 dros Gyfnod y Siarter, gan gynnwys uchafbwyntiau ar gyfer y flwyddyn hon**

Mae cyrhaeddiad BBC World Service wedi gostwng yn gyffredinol o uchafbwynt o 365 miliwn yn 2022 i 313 miliwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gostyngiad hwn yn rhannol o ganlyniad i gau gwasanaethau oherwydd pwysau ariannol,[207] ac eleni mae'r BBC wedi cyhoeddi rhagor o doriadau. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiadau hyn, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd y DU o berfformiad y BBC yn rhyngwladol wedi aros yn sefydlog ers ein Hadolygiad Cyfnodol diwethaf.

[207] BBC World Service, 2022/23 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Byd 2020, t.4.

# Darparu Diben Cyhoeddus 5

Mae'r BBC yn darparu Diben Cyhoeddus 5 drwy wasanaethau newyddion rhyngwladol y BBC (gan gynnwys BBC News a BBC World Service) ochr yn ochr â BBC Monitoring a BBC Media Action.

Nid yw Ofcom yn rheoleiddio safonau cynnwys na pherfformiad BBC World Service, ond wrth gynnal Adolygiad Cyfnodol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried ei berfformiad o ran cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Y BBC ei hun sy'n gyfrifol am bennu trwydded ar gyfer BBC World Service, ac am asesu ac adrodd ar ei berfformiad.[208] Mae'r BBC yn cytuno'n uniongyrchol â'r Llywodraeth ar amcanion, blaenoriaethau a thargedau'r World Service. Rydym hefyd yn nodi bod gan y BBC is-gwmnïau masnachol sy'n gweithredu'n rhyngwladol, ond nid ydym yn adolygu eu perfformiad fel rhan o'n hasesiad o'r diben hwn.

# Cyfraniad at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus

## Mae cyrhaeddiad BBC World Service wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, ond gwelwyd twf digidol y llynedd

Mae BBC World Service yn darparu newyddion mewn 43 o ieithoedd, gan gynnwys Saesneg, drwy deledu, radio a llwyfannau digidol. Yn 2021, gosododd y BBC darged i BBC World Service gyrraedd 364 miliwn o bobl yn fyd-eang erbyn 2022; cyflawnodd y BBC y nod hwn yn 2021 a 2022,[209] gyda'i gynulleidfaoedd yn cynyddu o 351 miliwn ym mis Mawrth 2020.[210]

Fodd bynnag, ers 2022, mae cyfanswm cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service wedi gostwng 47 miliwn (gweler Tabl 4). Roedd y gostyngiad mwyaf o un flwyddyn i'r llall rhwng 2022 a 2023, pan ddisgynnodd cyfanswm y cyrhaeddiad wythnosol 12%, wedi'i sbarduno'n rhannol gan gau gwasanaethau oherwydd toriadau yn y gyllideb. Yn fwy diweddar, cyrhaeddodd BBC World Service gynulleidfaoedd wythnosol o 313 miliwn yn 2024/25.

Nod strategaeth digidol yn gyntaf y BBC oedd cynyddu ei gynulleidfaoedd ar lwyfannau digidol y BBC yn 2024/25, yn dilyn gostyngiadau byd-eang yn 2023.[211] Eleni, mae BBC World Service digidol wedi cyrraedd cynulleidfaoedd wythnosol o 131 miliwn, gan basio cyrhaeddiad ar deledu a radio.[212] Gwelwyd y twf hwn ar draws ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau'r BBC.

---

[208] Fel sy'n ofynnol o dan gymal 35(7) o'r Cytundeb.
[209] BBC World Service Performance Review 2016-2020.
[210] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2021/22, t.46. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyrhaeddiad drwy radio, teledu, ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill.
[211] Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25, t.16.
[212] Mesur Cynulleidfaoedd Byd-eang y BBC. Mae'r gwasanaethau digidol yn cyfeirio at sain ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau, gan gynnwys podlediadau.

**Tabl 4: Cyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol BBC World Service 2020-2025**

| Cynulleidfa fyd-eang wythnosol BBC World Service (m) | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cynulleidfa | 364 | 365 | 318 | 320 | 313 |
| Cynulleidfa ddigidol | 186 | 148 | 141 | 124 | 131 |
| Cynulleidfa deledu | * | 130 | 121 | 113 | 103 |
| Cynulleidfa radio | * | 159 | 121 | 129 | 127 |

*Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfaoedd Byd-eang, fel yr adroddwyd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21-2024/25 y BBC. Mae cynulleidfa ddigidol yn cyfeirio at sain ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau, gan gynnwys podlediadau. *Ni chafodd y ffigurau hyn eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21 y BBC, oherwydd cyfyngiadau Covid a effeithiodd ar ymchwil a mesur cynulleidfaoedd yn fyd-eang.*

## Mae'r BBC wedi canfod bod World Service yn parhau i ddod i'r brig o ran ymddiriedaeth a dibynadwyedd ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol

Ym mis Mai eleni, cyhoeddodd y BBC ymchwil a oedd yn edrych ar effaith a dylanwad ei ôl troed rhyngwladol, a ganfu fod y BBC yn dal i gael ei ystyried fel y 'brand newyddion rhyngwladol mwyaf dibynadwy'.[213] Canfu'r ymchwil fod agweddau cynulleidfaoedd y DU at effaith ryngwladol y BBC wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwyafrif clir yn meddwl ei fod yn effeithiol o ran adlewyrchu'r DU i'r byd.

**Tabl 5: % yr oedolion yn y DU sy'n credu bod y BBC yn adlewyrchu'r DU i'r byd yn effeithiol 2020-2025**

| Canfyddiadau'r gynulleidfa | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| % effeithiol | 71%* | 63% | 63% | 59% | 64% |
| % aneffeithiol | 12%* | 14% | 14% | 15% | 13% |

*Ffynhonnell: Ipsos UK 16+ oed, % yr oedolion yn y DU sy'n credu bod y BBC yn adlewyrchu'r DU i'r byd yn effeithiol, fel yr adroddwyd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21-2024/25 y BBC. *Ipsos MORI 18 oed a hŷn.*

Mae'r BBC wedi datblygu ei wasanaethau rhyngwladol dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys drwy ychwanegu rhaglen addysgol ar draws llwyfannau yn Affganistan, *Dars*, i blant rhwng 11 ac 16 oed, gan gynnwys merched sydd wedi'u gwahardd rhag mynd i'r ysgol.[214] Hefyd yn 2023, dywedodd ei fod wedi lansio gwasanaeth radio brys yn Gaza, i roi newyddion a gwybodaeth i wrandawyr am gael gafael ar loches, bwyd a chyflenwadau dŵr. Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i gynyddu argaeledd BBC Verify ar draws mwy o wasanaethau'n fyd-eang. Y BBC yw'r cyfrif newyddion mwyaf yn fyd-eang ar Instagram erbyn hyn, ac mae'n bwriadu creu mwy o gynnwys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

---

[213] BBC a Tapestry Research, Ymchwil Effaith a Dylanwad Byd-eang, BBC a Tapestry Research.. O'r chwe brand newyddion byd-eang roedd y BBC wedi meincnodi yn eu herbyn (Sky News, CNN, Aljazeera, RT, CGTN) dyma oedd yr un yr oedd pobl yn ymddiried fwyaf ynddo.
[214] BBC, DoMaPP 2023/24, t.70.

## Mae heriau ariannol wedi cyfrannu at doriadau ar draws BBC World Service

Yn dilyn adolygiad o wariant 2021 y Llywodraeth, dyfarnwyd £94.4m y flwyddyn i BBC World Service am dair blynedd (2022-25),[215] yn ogystal â chael dau swm pwrpasol dros y cyfnod; y cyntaf yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin (sef £4m ychwanegol),[216] a’r ail yn £20m yn 2023.[217]

Er gwaethaf y pecynnau cyllid ychwanegol hyn, mae BBC World Service wedi wynebu pwysau ariannol cynyddol oherwydd pwysau yn y farchnad newyddion ryngwladol, a'r angen i sicrhau arbedion o ganlyniad i setliad ffi'r drwydded. Arweiniodd hyn at gau gwasanaethau, gan gynnwys rhywfaint o allbwn radio a theledu, a oedd yn cael ei ddosbarthu'n bennaf drwy ddarlledwyr trydydd parti yn 2023,[218] a chau Radio Arabeg a Phersiaidd yn 2024/25.[219] Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd y BBC ragor o doriadau, gan gadarnhau y byddai 130 o swyddi BBC World Service yn cael eu colli yn y DU ac yn rhyngwladol. Yn ei Gynllun Blynyddol 2024/25, dywedodd y BBC fod heriau cyllido parhaus a newidiadau sy’n cyflymu yn arferion cynulleidfaoedd yn fyd-eang yn golygu y bydd angen i wasanaethau rhyngwladol y BBC barhau i drawsnewid.[220]

[215] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2021/22, t.58.
[216] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2021/22, t.54.
[217] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2022/23, t.135.
[218] BBC World Service, 2022/23 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Byd 2020.
[219] BBC World Service, 2024/25 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Byd 2025.
[220] Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25, t.16.

# 4. Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

**Cystadleuaeth y BBC dros gyfnod y Siarter, gan gynnwys uchafbwyntiau ar gyfer y flwyddyn hon**

Drwy gydol y Siarter, rydym o'r farn bod gan y BBC hanes da o gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â chystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'r BBC wedi gwella'r tryloywder y mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ag ef, er enghraifft yn ei gynllun i wneud newidiadau i'w wasanaethau. Mae'r BBC hefyd wedi gwneud newidiadau lle rydym wedi nodi materion, fel yn ein hadolygiad o'i weithgareddau masnachol.

**Perfformiad y BBC yn 2024/25:**

- Mae'r BBC wedi cyrraedd ei darged cystadleuaeth radio, wedi gwneud cynnydd at ei darged cystadleuaeth ar-lein eleni, ac mae'n datgan ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged teledu erbyn mis Rhagfyr 2027.
- Yn ein hasesiadau o'r farchnad yn y sectorau clyweledol a sain, rydym yn parhau i ystyried y gallai newidiadau gan y BBC i'w wasanaethau teledu / radio llinol gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn enwedig o ran cystadleuwyr domestig. Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd newidiadau i BBC Sounds / iPlayer yn cael effaith sylweddol, er efallai y bydd angen craffu ymhellach ar newidiadau sy'n effeithio ar gronfa lai o gystadleuwyr.

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n gweithredu ar draws teledu, sain ac ar-lein, mae'n gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae rôl Ofcom wedi'i nodi yn y Siarter a'r Cytundeb ac mae'n mynnu ein bod yn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU ac yn rhoi rheolau ar waith ar gyfer gweithgareddau masnachol a gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Yn y bennod hon rydym yn edrych ar berfformiad y BBC a'i le yn y farchnad dros y Siarter bresennol, a dros flwyddyn adrodd flynyddol bresennol 2024/25.

## Y dirwedd gystadleuol

Fel y nodwyd yn adran 2 uchod, mae ymddygiad cynulleidfaoedd yn dal i newid yn sylweddol, gyda phobl yn defnyddio mwy a mwy o wasanaethau ar-lein fel VSP, SVoD a llwyfannau ffrydio sain. Mae'r duedd hon yn cael ei hadlewyrchu yn nefnydd cynulleidfaoedd o wasanaethau'r BBC: mae'r defnydd o wasanaethau ar-lein y BBC (BBC iPlayer a BBC Sounds) wedi cynyddu, ac mae lefelau gwylio a gwrando ar wasanaethau llinol y BBC wedi gostwng ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran dros gyfnod y Siarter.

Serch hynny, mae nifer sylweddol o bobl yn dal i wylio a gwrando ar wasanaethau llinol ac, i'r bobl hyn, y dewisiadau agos eraill i'r BBC yw'r rheini sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr masnachol domestig. Dros y Siarter, mae cyfran y BBC o'r gwrando ar radio byw wedi gostwng, ond mae ei gyfran o'r gwylio ar deledu llinol wedi aros yn fwy sefydlog. Fodd bynnag, roedd

cyfran y gwrando / gwylio ar gyfer y BBC yn dal yn sylweddol yn 2024 (tua 30% a 43% ar gyfer teledu llinol a radio byw yn y drefn honno). [221]

Ar gyfer gwasanaethau ar-lein, mae'r BBC yn wynebu set lawer ehangach o gystadleuwyr sy'n cynnwys darparwyr masnachol domestig a darparwyr byd-eang sylweddol. Mae cyfran gwasanaethau ar-lein y BBC (BBC iPlayer a BBC Sounds) wedi cynyddu dros amser, ond mae hyn yn dal yn is o lawer na chyfran rhai darparwyr byd-eang.[222]

## Y fframwaith rheoleiddio

Pan fydd y BBC yn cynnig newid ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am asesu a allai'r newidiadau arfaethedig fod yn 'berthnasol'. Disgwylir i rai newidiadau gael eu gwneud i'r Cytundeb Fframwaith o ran perthnasedd a'r prosesau i ystyried newidiadau o'r fath yn dilyn Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth.

Ar hyn o bryd, mae newid yn cael ei ystyried yn berthnasol os yw'r BBC yn lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, neu'n newid gwasanaeth presennol a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Pan fydd newid yn sylweddol, mae'n rhaid i'r BBC gynnal prawf lles y cyhoedd y mae'n rhaid i Ofcom ei adolygu. Yna, mae'n rhaid i Ofcom gynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA) neu asesiad byrrach, i asesu a oedd gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym wedi gosod canllawiau ar y gweithdrefnau, yr amserlenni a'r dull gweithredu sy'n berthnasol wrth asesu effaith newidiadau perthnasol. Os bydd y BBC yn cynnig newidiadau i'w weithgareddau masnachol, efallai y byddwn yn ystyried cynigion i asesu a fyddai ei berthynas â gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn fantais gystadleuol annheg, fel y nodir yn y canllawiau rydym wedi'u cyhoeddi.

Yn dilyn ein Hadolygiad Cyfnodol cyntaf, fe wnaethom gyhoeddi Canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn 2023. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad newydd i'r BBC roi cyhoeddusrwydd i newidiadau yn ei wasanaethau cyhoeddus sy'n debygol o fod yn destun asesiad perthnasedd gan y BBC. Roeddem hefyd wedi gwneud newidiadau i'n canllawiau ar sut mae cystadleuaeth yn cael effaith, o ganlyniad i newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gosod disgwyliadau cliriach ynghylch yr wybodaeth y dylai'r BBC ei darparu i randdeiliaid pan fydd yn ymgynghori fel rhan o brawf budd y cyhoedd, i helpu i sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu ymateb yn ystyrlon.

Gallai newidiadau pellach i wneud y fframwaith cystadleuaeth yn fwy hyblyg arwain at ragor o welliant. Gallai'r rhain gynnwys newidiadau i ddarparu mwy o hyblygrwydd i'r BBC a awgrymwyd gennym yn 2023:

i) cymeradwyo asesiadau byrrach gydag amodau,
ii) dileu'r angen i Ofcom gynnal asesiad cystadleuaeth os ydym yn cytuno â dadansoddiad y BBC a
iii) dileu gwasanaethau newydd sy'n cael eu hystyried yn sylweddol yn awtomatig.

---


[221] Ffigur radio o RAJAR, data Ch1 2025 ar bwysoliad 12 mis. Ffigur teledu o 2024 Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith WiFi y cartref.

[222] Gweler Atodiad 3. Cyfrannau sain wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio data RAJAR ac IPA TouchPoints. Cyfrannau clywedol wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio *Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith WiFi y cartref.*

# Perfformiad Cystadleuaeth y BBC dros y Siarter

## Newidiadau ers 2021

Dros y Siarter, mae'r BBC wedi gwneud llawer o newidiadau i'w wasanaethau. Mae'r newidiadau ers yr Adolygiad Cyfnodol diwethaf, wedi'u crynhoi yn y ffeithlun amserlen hwn, ac rydym yn ymdrin yn gryno â rhai ohonynt fel astudiaethau achos isod:




*Dechreuodd Ofcom y BCA ar gyfer y cynigion hyn ar 6 Ionawr 2025 a chyhoeddodd y penderfyniad terfynol ar 2 Gorffennaf 2025.

### Astudiaeth achos 2022-2024

**Newyddion ar-lein**

Ym mis Medi 2022 darparodd y BBC asesiad perthnasedd mewn perthynas â'i newidiadau arfaethedig i'w ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau newyddion ar-lein lleol yn Lloegr a phenderfynom nad oedd yn rhaid i'r BBC gynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar gyfer y cynigion hyn.

Yn Ionawr 2024, roedd y Llywodraeth yn argymell bod Ofcom yn cyhoeddi ei farn ar sefyllfa'r BBC yn y sector newyddion lleol ac yn nodi ei ddull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol o ran cystadleuaeth. Fe wnaethom gyhoeddi ein hymateb mewn dwy ran ym mis Gorffennaf 2024 a mis Tachwedd 2024.

Ar gyfer newyddion lleol ar-lein, ni chanfu ein dadansoddiad unrhyw dystiolaeth sylweddol bod allbwn ehangach y BBC yn gysylltiedig yn achosol â'r gostyngiadau a brofir gan ddarparwyr masnachol newyddion ar-lein lleol, er ein bod yn cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn cyfrannu i ryw raddau ac wedi ymrwymo i barhau i fonitro'r effaith bosibl.[223]

**Asesiad cystadleuaeth BBC iPlayer**

Ym mis Hydref 2022, ar ôl cwblhau prawf budd y cyhoedd a dod i'r casgliad nad oedd y newidiadau arfaethedig yn sylweddol, cyflwynodd y BBC i Ofcom ei gynigion i ehangu faint o gynnwys sydd ar BBC iPlayer. Fe wnaethom gwblhau ein hasesiad perthnasedd o'r cynigion hyn ym mis Tachwedd 2022, a chytuno nad oedd y cynigion yn newid sylweddol. Roedd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael a sut roedd disgwyl i BBC iPlayer ddatblygu yng ngoleuni

[223] Gweler t64 i weld asesiad o safle'r BBC yn y sector newyddion lleol eleni

cynnig y BBC dros y blynyddoedd nesaf. Mae ein casgliadau'n adlewyrchu ein barn yn y farchnad bod y risg o niwed cystadleuol yn sgil newidiadau sy'n benodol i BBC iPlayer wedi bod yn debygol o fod yn isel.

**Trosglwyddo Sain**

Yn 2023, rhoddodd y BBC asesiad perthnasedd i ni mewn perthynas â'r bwriad i drosglwyddo gweithgarwch cynhyrchu sain yn rhannol o Wasanaethau Cyhoeddus y DU i BBC Studios, cangen cynhyrchu a dosbarthu masnachol y BBC. Roeddem yn cytuno na fyddai'r newid arfaethedig yn arwain at risg sylweddol o ystumio'r farchnad na mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i berthynas BBC Studios â'r Gwasanaeth Cyhoeddus.

## Mae'r BBC wedi gwella ei dryloywder dros y cyfnod

Yn ein Hadroddiadau Blynyddol blaenorol rhwng 2018 a 2021, fe wnaethom dynnu sylw'n gyson at bryderon tryloywder y BBC mewn perthynas â newidiadau ar draws ei wasanaethau cyhoeddus a'i weithgareddau masnachol gan ddweud bod modd gwella hyn. Fe wnaethom nodi y dylai Bwrdd y BBC wneud mwy i sicrhau mwy o dryloywder drwy sicrhau bod y BBC yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid, a bod Cynllun Blynyddol y BBC, ochr yn ochr â llwybrau eraill, yn ffordd bwysig o roi gwybodaeth i randdeiliaid am ei gynlluniau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol. Fe wnaethom hefyd nodi y byddai'n fuddiol pe bai'r BBC yn ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid ac yn rhoi mwy o eglurder iddynt yn ystod y broses perthnasedd gychwynnol.

Yn 2023, fe wnaethom amlygu, er bod y BBC yn dryloyw ac yn ymgysylltu'n dda â ni drwy gydol prawf budd y cyhoedd BBC iPlayer yn 2022, bod rhanddeiliaid wedi codi pryderon am ansawdd proses ymgynghori'r BBC. Fe wnaethom nodi bod digon o wybodaeth wedi cael ei darparu yng nghasgliadau prawf budd y cyhoedd y BBC i ganiatáu i ni adolygu perthnasedd, ond y gallai'r BBC fod wedi darparu rhagor o wybodaeth am natur a manylion ei gynlluniau yn ei ymgynghoriad prawf budd y cyhoedd i alluogi rhanddeiliaid i ddeall y cynnig yn llawn a darparu mewnbwn adeiladol.

Rydym yn cydnabod bod tryloywder yn fater sensitif, yn enwedig lle mae'n bwysig diogelu eiddo deallusol, yn ddiwylliannol ac yn fasnachol. Mae'r BBC wedi cyflwyno gwelliannau yn y maes hwn, er enghraifft mae bellach yn cyhoeddi rhagor o fanylion am ei allbwn a'r hyn mae'n ei ddarparu i gynulleidfaoedd yn ei adroddiadau rheoleiddio, gan ddarparu mwy o dryloywder i Ofcom ac i randdeiliaid. Mae hefyd wedi gwella o ran cyfleu newidiadau arfaethedig. Yn ein hasesiad o gynigion y BBC ar gyfer BBC Radio Cymru 2, fe wnaethom nodi bod y BBC wedi cynnal dadansoddiad priodol o'r farchnad i gefnogi ei asesiad o effeithiau ei gynnig ar gystadleuaeth, a bod rhanddeiliaid wedi cael cyfle addas i roi sylwadau ar y cynigion. Wrth ddod i'n barn am newidiadau pellach arfaethedig y BBC i BBC Bitesize yn 2024/25, fe wnaethom nodi bod y BBC wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid ac wedi addasu elfennau ar sail yr ymgysylltu hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd parhaus y BBC yn y maes hwn.

## Ni chododd unrhyw bryderon yn sgil ein gwaith monitro ar weithgareddau masnachol y BBC

Rydym yn monitro gweithgareddau masnachol y BBC ar ôl cynnal adolygiad o BBC Studios a ddaeth i ben yn 2022. Yn dilyn hynny, gwnaeth y BBC newidiadau mewn ymateb i'n canfyddiadau, gan nodi proses i benderfynu bod y gwerth y mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn ei dderbyn gan BBC Studios yn unol â gwerth yr hawliau sy'n cael eu masnachu. Datrysodd hyn y pryderon a godwyd gennym.

Yn 2024/25, dywedodd y BBC fod ei ganghennau masnachol wedi darparu refeniw o £2.2 biliwn (2023/24: £1.9 biliwn) ac EBITDA o £228m (2023/24:£199m). Nid oedd unrhyw bryderon yn codi o'n hadolygiad o'i gydymffurfiad â'n gofynion adrodd ar weithgareddau masnachol a masnachu yn 2024/25, ac ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch cydymffurfiad y BBC â'n gofynion gweithgareddau masnachol a masnachu.[224]

## Mae'r BBC wedi symud yn nes at ei darged cystadleuaeth ar-lein ac mae'n datgan ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged teledu

Mae’n rhaid i'r BBC fodloni targedau penodol mewn perthynas â chyfran y cynnwys sy’n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol. Mae'r BBC wedi cyrraedd ei darged ar gyfer oriau radio sy'n destun cystadleuaeth ac yn ystod 2024/25 mae wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ei darged ar gyfer deunydd ar-lein sy'n destun cystadleuaeth. Dim ond dau bwynt canran arall sydd ei angen ar y BBC bellach i gyrraedd y targed o gystadlu am 100% o deunydd ar-lein erbyn diwedd cyfnod y Siarter.

**Ffigur 6: Tabl yn amlinellu’r % sy’n destun cystadleuaeth a thargedau ar gyfer cynnwys teledu, radio ac ar-lein**

| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teledu** | 56% | 62% | 64% | 62% | 63% | 77% | 77% | 100% erbyn 31 Rhagfyr 2027 |
| **Radio** | 35% | 48% | 53% | 55% | 62% | 61% | 61% | 60% erbyn 31 Rhagfyr 2022 (cyrhaeddwyd) |
| **Ar-lein** | 44% | 62% | 59% | 72% | 80% | 82% | 98% | 100% erbyn 31 Rhagfyr 2027 |

Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2024/25, t.219.

Ar y teledu, mae'n rhaid i'r BBC gyrraedd y targed o 100% erbyn mis Rhagfyr 2027, a hyd yma mae wedi herio 77% o gynnwys teledu perthnasol. Mae’n dweud ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o 100% erbyn y dyddiad hwn.[225]

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod eisoes yn cystadlu 100% o'r oriau sydd newydd gael eu comisiynu ac mae'n gwerthuso'r teitlau sy'n weddill y bydd angen eu tendro i fodloni'r 23% o oriau sy'n weddill. Nodwn nad yw pob rhaglen o fewn cwmpas ar gyfer elfen gystadleuol a thendro. Mae'r Cytundeb Fframwaith yn datgan bod 'rhaglenni teledu perthnasol' yn cynnwys yr holl raglenni teledu sydd wedi'u cynnwys yng ngwasanaethau cyhoeddus y DU ac eithrio rhaglenni sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cynyrchiadau annibynnol, newyddion a materion cyfoes sy'n ymwneud â newyddion, ac unrhyw raglen lle mae'r BBC o'r farn na fyddai cydymffurfio â'r rhwymedigaethau i wneud y cynnwys

[224] Ofcom, Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: gofynion a chanllawiau, Ebrill 2023. Yn 2024/25, nid oeddem wedi derbyn unrhyw gwynion ynghylch dosbarthiad y BBC.

[225] Adroddiad Comisiynu’r BBC 2024/25 t. 12.

yn destun cystadleuaeth yn sicrhau gwerth am arian. Mae'r BBC yn ystyried eithriadau gwerth am arian fesul achos ar sail meini prawf a gymeradwywyd gan Fwrdd y BBC.

Rydym yn siarad â chynhyrchwyr teledu a chyrff sy’n cynrychioli’r diwydiant radio fel rhan o’n rhaglen barhaus i ymgysylltu â’r sector a’i fonitro. Ni chafodd unrhyw gwynion ffurfiol penodol sylweddol am gystadleuaeth ym mhroses gomisiynu'r BBC eu codi gyda ni yn ystod y cyfnod adrodd hwn drwy'r ymgysylltu hwn. Fodd bynnag, mae cynhyrchwyr yn dal i ddweud wrthym ei bod yn bwysig iawn iddynt gael gweld cynlluniau comisiynu darlledwyr (gan gynnwys rhai'r BBC) yn gynnar er mwyn iddynt allu cynllunio ymlaen llaw a dyrannu adnoddau i ddatblygu syniadau'n briodol.

## Datblygiadau ers mis Ebrill 2024

### Gwelsom nad oedd newidiadau pellach i BBC Bitesize yn sylweddol

Cynigiodd y BBC ragor o newidiadau i BBC Bitesize yn 2024/25 i gyflwyno swyddogaethau ychwanegol.[226] Fe wnaethom adolygu'r cynigion hyn a dod i'r casgliad ym mis Medi 2024 nad oedd y newidiadau'n sylweddol, gan fod y datblygiadau hyn yn canolbwyntio ar gyflwyno swyddogaethau ychwanegol, yn hytrach na darparu mathau newydd o gynnwys.[227]

### Fe wnaethom asesu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau radio

Ym mis Gorffennaf 2025 fe wnaethom gyhoeddi ein Penderfyniad Terfynol ar gynlluniau'r BBC i lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd ac ymestyn oriau darlledu Radio 5 Sports Extra.[228] Daethom i'r casgliad y caiff y BBC fwrw ymlaen i lansio tri gwasanaeth, Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind gan fod y gorsafoedd hyn yn cynnig digon o werth cyhoeddus i gyfiawnhau'r effaith gyfyngedig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Daethom i'r casgliad na chaiff y BBC fwrw ymlaen â’r estyniad i Radio 2 oherwydd nad oedd y gwerth cyhoeddus yn ddigonol i gyfiawnhau’r effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Daethom i'r casgliad hefyd na chaiff y BBC fwrw ymlaen â'i gynnig i ymestyn Radio 5 Sports Extra oherwydd nad oedd y gwerth cyhoeddus yn ddigonol i gyfiawnhau'r effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn enwedig ar rwydwaith talkSPORT a darparu gwasanaethau radio chwaraeon yn fasnachol.

[226] Roedd y rhain yn cynnwys integreiddio cynnwys o offer dysgu DA trydydd parti ac alinio ap Bitesize a llwyfan gwe.
[227] Ofcom, BBC Bitesize: Datblygiadau Cam 2 – Asesiad Perthnasedd, Medi 2024.
[228] Er bod ein Penderfyniad y tu allan i gyfnod adrodd 2024/25, rydym yn cynnwys hyn er mwyn bod yn gyflawn.

# Asesiadau o’r farchnad

## Sefyllfa'r BBC yn y sectorau clyweledol a sain

Fel y soniwyd uchod, mae ymddygiad cynulleidfaoedd wedi newid dros y Siarter, gyda chynulleidfaoedd yn symud fwyfwy at wasanaethau ar-lein (yn enwedig gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan SVoD, Vsp a ffrydwyr sain byd-eang). Gallai'r datblygiadau hyn leihau effaith y BBC mewn rhai sectorau, yn enwedig o ystyried maint y gystadleuaeth â darparwyr byd-eang, ond mae'n debygol y bydd sectorau lle mae gan y BBC y potensial o hyd i gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Fe wnaethom gyhoeddi ein hasesiad o'r amodau cystadleuol am y tro cyntaf (h.y. asesiad o sut gallai newidiadau posibl gan y BBC effeithio ar gystadleuaeth) ym mhob un o'r sectorau hyn, ochr yn ochr â chyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gystadleuaeth, yn 2022. Bwriad hyn oedd helpu rhanddeiliaid i ddeall o ble rydym yn debygol o ddechrau wrth ystyried effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y dyfodol. Roeddem hefyd wedi ymrwymo i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am yr amodau cystadleuol hyn yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar y BBC a chafodd hyn ei groesawu yn Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae Atodiad 3 yn nodi ein hamcangyfrifon diweddaraf ar gyfran y gwylio a’r gwrando ar y BBC a gweithredwyr masnachol mewn cartrefi a nodir. O fewn sectorau unigol, mae'r rhain yn dangos darlun gweddol debyg i'r flwyddyn flaenorol o ran safle'r BBC o'i gymharu â'i weithredwyr masnachol. Yn benodol:

- **Clyweledol:** Mae'r cyfrannau gwylio yn dangos bod gwasanaethau llinol y BBC yn dal yn gymharol fawr (16%) o'u cymharu â darlledwyr domestig eraill, a BBC iPlayer yw'r gwasanaeth BVoD mwyaf o hyd, ond mae ei lefelau gwylio'n gymharol fach o ran cyfran gwylio gyffredinol (5%).[229]
- **Sain:** Mae'r cyfrannau gwrando yn dangos bod portffolio radio'r BBC yn dal i gyfrif am gyfran sylweddol o wrando (er bod hyn yn gostwng dros amser) ac mae cyfran y BBC o radio ar-lein (byw a dal i fyny) wedi aros yn weddol sefydlog, ond mae'n cyfrif am gyfran fach o'r gwrando cyffredinol (5%).[230]

Felly, mae ein safbwyntiau lefel uchel ynghylch y sectorau hyn yn dal yn debyg i'r llynedd:

- Mae’n bosibl y gallai **newidiadau i wasanaethau teledu darlledu’r BBC** gael mwy o effaith ar gystadleuwyr domestig, gan beri mwy o risg o wthio i ffwrdd na newidiadau i BBC iPlayer.
- Mae **newidiadau i BBC iPlayer** yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran y bobl sy’n gwylio – a refeniw – cystadleuwyr domestig, ac felly nid ydym yn disgwyl risg sylweddol iddynt gael eu gwthio i ffwrdd.[231] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai’r risg fod yn uwch

[229] Barb fel y’i gwyliwyd. Mae cyfran gwylio allan o'r holl wylio a nodwyd yn y cartref. Gall hyn fod yn wahanol i rannau eraill o'r adroddiad lle mae cyfrannau wedi cael eu cyfrifo o'r holl wylio yn y cartref, gan gynnwys rhywfaint o ddefnydd anhysbys o setiau teledu.

[230] RAJAR a TouchPoints. Data RAJAR a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amser a dreuliwyd yn gwrando ar radio byw. Data TouchPoints sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mathau eraill o sain (radio dal i fyny, podlediadau, cerddoriaeth wedi'i ffrydio ac 'arall' gan gynnwys cerddoriaeth bersonol, sianeli/safleoedd fideos cerddoriaeth a llyfrau sain).

[231] Os bydd y BBC yn newid ei wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy’n arwain cynulleidfaoedd i symud oddi wrth wasanaethau masnachol at wasanaethau’r BBC, gall refeniw darparwyr masnachol leihau. Gallai hyn yn ei dro gyfyngu ar allu darparwyr masnachol i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, gan leihau’r dewis cyffredinol, yr

petai disgwyl i effaith newid penodol ddisgyn ar gronfa ddwys o ddarparwyr masnachol domestig. Byddai newid o'r fath yn fwy tebygol o fod angen craffu'n fanylach.

- Gallai **newidiadau i wasanaethau radio'r BBC**, sy'n arwain at gynnydd sylweddol mewn gwrando, gael mwy o effaith ar ddarparwyr radio masnachol domestig. O'r herwydd, rydym o'r farn bod mwy o risg iddynt gael eu gwthio i ffwrdd o ganlyniad i newidiadau o'r fath, o'i gymharu â newidiadau sydd wedi'u cyfyngu i BBC Sounds. Tynnir sylw at hyn yn ein hadolygiad o brawf budd y cyhoedd y BBC ar y gorsafoedd cerddoriaeth arfaethedig a'r newidiadau i Radio 5 Sports Extra.
- Mae newidiadau sy'n effeithio ar BBC Sounds yn unig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran y bobl sy'n gwrando – ac felly ar refeniw – cystadleuwyr domestig, ac nid ydym yn disgwyl risg sylweddol iddynt gael eu gwthio i ffwrdd. Fodd bynnag, yn debyg i'n barn ar BBC iPlayer uchod, rydym o'r farn y bydd angen craffu ymhellach ar newidiadau a allai gael mwy o effaith ar gronfa lai o gystadleuwyr domestig. Tynnir sylw at hyn yn ein hadolygiad o asesiadau perthnasedd y BBC ar gyfer y pedair ffrwd gerddoriaeth.

Rydym yn cydnabod y bydd ymddygiad cynulleidfaoedd a'r sectorau clyweledol / sain yn parhau i esblygu, a gallai hyn effeithio ar yr amodau cystadleuol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod. Felly, byddwn yn monitro ac yn adlewyrchu'r newidiadau hyn yn ein safbwyntiau mewn Adroddiadau Blynyddol dilynol.

## Sefyllfa'r BBC yn y sector newyddion lleol

Fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar yr Adolygiad o Gyfryngau Lleol ym mis Tachwedd 2024, a oedd yn asesu effaith newidiadau'r BBC ar gystadleuaeth yn y sector newyddion lleol. Fel rhan o hyn, fe wnaethom ddweud y byddwn yn monitro sefyllfa'r BBC mewn newyddion lleol ac effaith unrhyw newidiadau ychwanegol i wasanaethau newyddion lleol/rhanbarthol y BBC. Fe wnaethom hefyd ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC.

Mae Atodiad 3 yn nodi ein data diweddaraf ar wylio a gwrando ar newyddion lleol ar gyfer y BBC a gweithredwyr masnachol. Mae ein barn gyffredinol ar sefyllfa'r BBC o ran newyddion lleol wedi aros yr un fath â'r rheini a nodwyd yn yr adroddiad Adolygiad o Gyfryngau Lleol, gan fod y data wedi'i ddiweddaru yn dangos yr un darlun yn fras ar draws y sectorau clyweledol, sain ac ar-lein:[232] [233]

- **Newyddion rhanbarthol ar deledu:** Mae'r cyfrannau gwylio yn dangos bod y BBC yn dal yn gymharol fawr o ran gwylio newyddion yn y gwledydd / rhanbarthau (sy'n cyfrif am 65% ohono), ac mae hyn yn parhau i amrywio ar draws y gwledydd, gyda chyfran gwylio'r BBC o

---

ansawdd a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU. Rydym yn cyfeirio at yr effaith hon fel 'gwthio i ffwrdd'. Nid gwthio i ffwrdd yw'r unig ffordd y gall y BBC niweidio cystadleuaeth – er enghraifft, mae perygl y gallai gweithgarwch y BBC gael effeithiau niweidiol ar wasanaethau mewn rhannau eraill o gadwyn gyflenwi cyfryngau'r DU.

[232] Roedd adroddiad diweddar yr Undeb Darlledu Ewropeaidd yn asesu effaith gweithgareddau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyhoeddwyr newyddion ar-lein masnachol, ond mae'n anodd cymhwyso ei ganfyddiadau i'r DU gan ei fod yn astudiaeth draws gwlad yn bennaf.

[233] Gwnaethom hefyd gyhoeddi cais ffurfiol am wybodaeth i'r BBC ar newyddion lleol fel rhan o'n rhaglen fonitro barhaus, ac rydym yn deall nad yw'r BBC wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i ddarpariaeth newyddion lleol ers ein hadroddiad Adolygiad o Gyfryngau Lleol y llynedd.

newyddion rhanbarthol yn uwch yng Nghymru (71%), ac yn is yn yr Alban (53%) a Gogledd Iwerddon (56%).[234]

- **Newyddion lleol ar radio:** Mae ein harolwg diweddar ar newyddion lleol a defnyddio'r cyfryngau yn dangos gostyngiad bach yn y defnydd o radio lleol / gwledydd y BBC ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol ers 2023 (12% yn 2025, i lawr o 16% yn 2023).[235] Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwrando cyffredinol ar orsafoedd gwledydd / rhanbarthau'r BBC, sydd wedi parhau i ddisgyn (gostyngiad o 8% o un flwyddyn i'r llall) ac mae'n dal yn is na'r gwrando ar orsafoedd lleol / rhanbarthol gan weithredwyr masnachol.[236] Mae cyrhaeddiad gorsafoedd radio gwledydd / rhanbarthau'r BBC hefyd yn parhau i amrywio ar draws y DU gyda chyrhaeddiad wythnosol yn uwch ar gyfer Gogledd Iwerddon (29%), yr Alban (18%) a Chymru (17%) o'i gymharu â chyfartaledd y DU (12%).[237]
- **Newyddion ar-lein lleol:** mae cyfrannau'r ymweliadau â thudalennau yn dangos bod cyfran y BBC wedi aros yr un fath i raddau helaeth ar gyfer y DU drwyddi draw, ac mae sefyllfa'r BBC yn dal yn wahanol yn y gwledydd gyda chyfran y BBC yn dal yn arbennig o uchel o'i gymharu â darparwyr newyddion lleol masnachol yng Nghymru. Mae ein harolwg diweddar yn dangos bod canran yr ymatebwyr sy'n defnyddio gwefan neu ap y BBC ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol wedi aros yn gyson ar 37% o oedolion y DU yn 2025 (35% yn 2023); ac mae canran yr ymatebwyr sy'n defnyddio grwpiau neu gyfrifon lleol ar gyfryngau cymdeithasol wedi gostwng i 34% o oedolion y DU yn 2025 (o 38% yn 2023).[238]

[234] Barb fel y'i gwyliwyd, pob unigolyn (4). Setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref. Mae gwylio'n cynnwys chwarae'n fyw, wedi'i recordio ac ar-alw.
[235] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau a Newyddion Lleol 2025.
[236] RAJAR Ch1 2025 yn erbyn Ch1 2024 ar bwysoliad 12 mis.
[237] Data RAJAR Ch1 2025 ar bwysoliad 12 mis; cyrhaeddiad BBC Local Radio yn TSA BBC Radio Ulster, TSA BBC Radio Scotland, TSA BBC Radio Wales a TSA Pob Radio.
[238] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau a Newyddion Lleol 2025. Nid yw'r gwahaniaeth yng nghanran yr ymatebwyr sy'n defnyddio "gwefan neu ap y BBC" a "grwpiau neu gyfrifon lleol ar gyfryngau cymdeithasol" yn arwyddocaol yn ystadegol.

# 5. Safonau cynnwys

**Safonau Cynnwys dros Gyfnod y Siarter, gan gynnwys uchafbwyntiau ar gyfer y flwyddyn hon**

Yn dilyn argymhellion gan Ofcom, mae'r BBC wedi gwella ei brosesau delio â chwynion dros y Siarter ac wedi gwella tryloywder ei benderfyniadau golygyddol, drwy gyhoeddi ei benderfyniadau ar yr holl gwynion nad yw wedi'u cadarnhau ar gam olaf ei broses gwyno. Mae'r BBC hefyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd am ei ddidueddrwydd dyladwy a byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ef i ddeall sut mae'n sicrhau didueddrwydd dyladwy i gynulleidfaoedd. Pan fydd heriau safonau golygyddol yn codi, rydym yn disgwyl i'r BBC weithredu'n gyflym ac yn dryloyw i gynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd.

**Perfformiad y BBC yn 2024/25:**

- Yn 2024/25, gostyngodd nifer cyffredinol cwynion y BBC i Ofcom, wedi'i sbarduno'n rhannol gan lai o gwynion am ddidueddrwydd dyladwy am gynnwys y BBC nag mewn blynyddoedd blaenorol, ond hefyd o ganlyniad i gynnydd sydyn yn y ffigurau ar gyfer 2023/24 yn dilyn sylw'r BBC i ryfel Israel-Gaza.
- Lansiodd Ofcom naw ymchwiliad i gynnwys y BBC yn ystod 2024/25. Roedd hyn yn cynnwys wyth ymchwiliad Tegwch a Phreifatrwydd, a chafodd dau ohonynt eu cadarnhau.[239]
- Fe wnaethom gynnal un ymchwiliad safonau cynnwys ac, ym mis Hydref 2025, fe wnaethom ganfod bod y BBC wedi torri[240] rheol ein Cod ar gamarwain sylweddol mewn perthynas â'r rhaglen ddogfen *Gaza: How to Survive a War Zone.*[241] Roeddem o'r farn bod gan y methiant hwn y potensial i erydu'r lefelau sylweddol uchel o ymddiriedaeth y byddai cynulleidfaoedd wedi'u rhoi mewn rhaglen ffeithiol gan y BBC am Ryfel Israel-Gaza. O ystyried difrifoldeb y tor-amod hwn, fe wnaethom orchymyn y BBC i ddarlledu crynodeb o'n canfyddiadau.
- Yn ystod Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024, cafodd Ofcom 396 o gwynion yn ymwneud â didueddrwydd cynnwys y BBC ar yr etholiad. Roeddem wedi asesu pob cwyn ac nid oedd angen i Ofcom ymchwilio ymhellach i'r un ohonynt.

Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am bolisi golygyddol y BBC ac am osod Canllawiau Golygyddol y BBC a glynu wrthynt. Mae gan Ofcom rôl mewn rheoleiddio safonau cynnwys rhaglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC.[242] Rydym yn gwneud hyn drwy ein Cod Darlledu ('y Cod'), sy'n berthnasol i'r holl ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio.[243] Mae gan y BBC ei Canllawiau Golygyddol ei hun hefyd,

---

[239] Rhifyn 497 a Rhifyn 496
[240] Bwletin Broadcasters and Demand Rhifyn 531, Gaza: How to Survive a Warzone, 17 Hydref 2025.
[241] Lansiwyd yr ymchwiliad hwn ym mis Gorffennaf 2025, y tu allan i'r cyfnod adrodd ar gyfer cylch perfformiad 2024/25, ond rydym yn adrodd arno yma oherwydd diddordeb mawr y cyhoedd yn yr achos.
[242] Mae Ofcom wedi gosod weithdrefnau i ddelio â chwynion am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC sydd wedi cael eu cyfeirio atom. Ar hyn o bryd, nid oes yn rhaid i ni ddatrys cwynion am safonau yng nghynnwys deunydd ar-lein y BBC ac nid oes gan Ofcom unrhyw bwerau gorfodi cysylltiedig. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried a rhoi barn, gan gynnwys unrhyw argymhellion y bydd yn eu hystyried yn briodol, ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth ganllawiau golygyddol perthnasol o ran cynnwys ei ddeunydd ar-lein.
[243] Mae cylch gwaith Ofcom wedi'i nodi yn Siarter a Chytundeb y BBC. Mae'n berthnasol i wasanaethau cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU ond nid yw'n ymestyn i gynnwys arall y BBC, er enghraifft ar BBC World Service. Felly, mae ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn cyfeirio at safonau cynnwys i'r graddau y maent yn ymwneud â chynnwys ar wasanaethau cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU.

sy'n ymgorffori gofynion y Cod, ond sy'n ymestyn ymhellach i feysydd penodol o bolisi golygyddol y BBC.

Mae gan Ofcom hefyd drosolwg o sut mae system gwynion BBC yn Gyntaf yn perfformio'n fwy cyffredinol[244], gan osod penderfyniadau ynghylch cwynion[245] i wella tryloywder, asesu achosion difrifol o dorri rheolau golygyddol ac ymgysylltu â'r BBC i ddeall sut mae'n cynnal ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol.

Yn y bennod hon rydym yn adolygu perfformiad y BBC yn 2024/2025 yn ogystal ag ar draws Cyfnod y Siarter.

## Ein dull gweithredu wrth orfodi safonau cynnwys y BBC dros Gyfnod y Siarter

Yn 2022, fe wnaethom nifer o argymhellion i'r BBC ar draws pedwar maes allweddol.[246] Mae'r Adolygiad Cyfnodol hwn yn gyfle i ni ystyried sut mae'r BBC wedi rhoi ein hargymhellion ar waith ac, yn fwy cyffredinol, sut mae wedi gwella'r ffordd mae'n delio â chwynion ac yn cydymffurfio â'r Cod dros y tair blynedd diwethaf. Rydym yn rhoi trosolwg o'r meysydd hyn isod:

### Cwynion y BBC

Ers dod yn rheoleiddiwr y BBC ar gyfer y Cod Darlledu llawn yn 2017, mae Ofcom wedi asesu dros 20,000 o gwynion am safonau'r BBC. Rydym wedi cynnal naw ymchwiliad safonau cynnwys a chanfod bod y BBC wedi torri'r cod ar bum achlysur. Roeddem hefyd wedi rhoi penderfyniadau ar ddelio â chwynion ar waith yn 2017 mewn perthynas â'r ffordd roedd y BBC yn delio â chwynion. Fe wnaethom ddiwygio'r rhain yn gyfnodol, gan gynnwys yn 2022, pan wnaethom ychwanegu gofyniad i'r BBC gyhoeddi ei resymau dros yr holl gwynion ynghylch didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cyrraedd cam olaf ei broses gwyno. Ers hynny, mae nifer y penderfyniadau a gyhoeddwyd gan y BBC wedi cynyddu ac rydym yn amlinellu'r ffigurau hyn yn yr adran hon. Rydym hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth am ein hystadegau cwynion a goruchwyliaeth strategol o broses gwynion y BBC dros y blynyddoedd, gan gynnwys ar Degwch a Phreifatrwydd a chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC.

### Didueddrwydd y BBC

Mae didueddrwydd y BBC wedi bod yn fater sydd wedi codi droeon yn ein Hadroddiadau Blynyddol blaenorol ar y BBC. Rydym wedi ymgysylltu'n agos â'r BBC i fonitro ei gynnydd o ran gweithredu argymhellion Adolygiad Serota a'i Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol. Yn 2023, dywedodd y BBC ei fod wedi cwblhau'r cam gweithredu hwn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i ddeall sut mae'n sicrhau didueddrwydd dyladwy i gynulleidfaoedd. Er enghraifft:

- cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ei adolygiadau thematig o allbwn mewn meysydd allweddol o drafodaeth gyhoeddus, er enghraifft yr adolygiad sydd ar y gweill o

[244] Rydym yn egluro system gwynion BBC yn Gyntaf yn nes ymlaen yn y bennod hon.
[245] Mae ein Penderfyniadau ar Ddelio â Chwynion yn nodi'r wybodaeth rydym yn gofyn i'r BBC ei chyhoeddi a'i darparu i ni am sut mae system BBC yn Gyntaf yn gweithio.
[246] Gwnaethom argymell bod y BBC yn gwneud y canlynol (i) gwella BBC yn Gyntaf i'w gwneud yn gliriach ac yn symlach i gynulleidfaoedd wneud cwynion a'u huwchgyfeirio; (ii) bod yn fwy tryloyw ac agored am ei benderfyniadau; (iii) darparu gwybodaeth gynnar i Ofcom am faterion golygyddol a allai fod yn ddifrifol a (iv) cynnal hyder y cyhoedd bod yn rhaid i'r BBC fynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ganfyddiadau o'i ddidueddrwydd dyladwy.

hunaniaeth a phortreadu a'i fwriad i lansio adolygiad yn y dyfodol o sylw'r BBC i gwrthdaro Israel/Gaza;

- gwella tryloywder drwy barhau i fynnu bod y BBC yn rhoi gwybod i ni'n gynnar am achosion difrifol posibl o dorri'r canllawiau golygyddol er mwyn i ni allu asesu a oes angen i Ofcom ymyrryd yn gynnar o ran cwyn os oes angen; a
- monitro adroddiadau cynyddol y BBC ar ei gwynion didueddrwydd o ganlyniad i'n penderfyniadau diwygiedig ynghylch cwynion yn 2022.

Rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cwynion a'r ymchwiliadau ynghylch didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy rydym wedi'u cynnal ers 2017 yn yr adran hon.

## Proses gwyno BBC yn Gyntaf

Ers dod yn rheoleiddiwr y BBC ar gyfer y Cod Darlledu llawn yn 2017, mae Ofcom wedi cynnal dau ymarfer siopwr dirgel ar system gwynion BBC yn Gyntaf i asesu sut mae'n perfformio ar gyfer cynulleidfaoedd.[247] Yn dilyn y ddau adolygiad, fe wnaethom argymhellion i'r BBC i wella ei broses, gan gynnwys:

- gwella tryloywder ac eglurder ei ymatebion;
- sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chynnwys; a
- sicrhau bod ymatebion yn amserol a bod cwynion a wneir drwy'r post, dros y ffôn, ar y we ac ar ffôn testun yn cael eu trin yn gyson.

Mae'r BBC wedi gwneud nifer o welliannau o ganlyniad i'n hadolygiadau, fel: ailstrwythuro ei dîm cwynion; rhoi mecanwaith adrodd mewnol newydd ar waith; cynnal ei adolygiadau ei hun o'i broses gwyno yn barhaus; cyflwyno a diweddaru fideo cwynion ar wefan Cwynion y BBC; a gwella'r sgript mae ei asiantau galwadau'n ei defnyddio.[248] Bydd Ofcom yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i fonitro unrhyw newidiadau pellach mae'n eu gwneud i wella'r broses gwyno.

## Pwerau newydd

Fel rhan o Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC ym mis Ionawr 2024, cyflwynodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon argymhellion i Ofcom a'r BBC yn ymwneud â safonau golygyddol, didueddrwydd a phroses gwyno'r BBC. Er mwyn cyflawni'r argymhellion hyn, mae Ofcom yn gofyn am bwerau newydd sydd i fod i ddod i rym adeg cyhoeddi Cytundeb Fframwaith diwygiedig. Rydym eisoes wedi gweithredu un argymhelliad: y llynedd, dechreuodd Ofcom gyhoeddi manylion cwynion y mae'r BBC eisoes wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol ac rydym wedi penderfynu peidio ag ymchwilio iddynt, er mwyn egluro'n well ein rhesymeg dros beidio â chymryd camau pellach.[249] Mae'r meysydd rydym yn disgwyl gweithio arnynt yn y dyfodol yn cynnwys sefydlu Cod Deunydd Ar-lein newydd ar gyfer y BBC a fydd yn ein galluogi i reoleiddio deunydd ar-lein y BBC yn yr un ffordd ag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer cynnwys darlledu ac ar-alw y BBC;[250]


[247] Cynhaliwyd ein prosiect Siopwr Dirgel cyntaf y BBC yn 2022 ac roedd yn cynnwys prawf o 50 o gwynion y BBC. Yn 2024, fe wnaethom gynnal ymarfer ar raddfa fwy yn profi dros 500 o gwynion am y BBC.
[248] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2022/23, t. 76 a thrafodaethau'r BBC ar siopwr dirgel y BBC.
[249] Er enghraifft, gweler y tudalen hon o Fwletinau Broadcast ac On Demand Ofcom sy'n rhoi manylion cwynion Safonau'r BBC a aseswyd, ond na chawsant eu dilyn.
[250] Gweler troednodyn 247 i gael esboniad o'n cylch gwaith cyfredol ynghylch deunydd ar-lein y BBC.

adolygu samplau o benderfyniadau Uned Cwynion Gweithredol y BBC (ECU)[251] nad ydynt wedi cael eu huwchgyfeirio i Ofcom, a gweithio gyda'r BBC i godi ymwybyddiaeth ymysg cynulleidfaoedd o BBC yn Gyntaf.

## Dadansoddi'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion

Yn wahanol i ddarlledwyr eraill, gall y BBC ddatrys cwynion gan gynulleidfaoedd cyn y gellir eu huwchgyfeirio i Ofcom.[252] Ar gyfer cynnwys darlledu ac ar-alw, mae Ofcom yn asesu cwynion o dan y Cod a gall gymryd camau gorfodi. Mae ffigur 7 isod yn dangos camau'r broses hon.

**Ffigur 7: Y broses i gynulleidfaoedd sydd wedi cwyno am y BBC**




### Roedd y BBC wedi bodloni ei dargedau ymateb i gwynion yn 2024/25

Fel y dangosir gan ystadegau cwynion y BBC ei hun, cafodd y BBC 160,465 o gwynion yng Ngham 1 yn 2024/2025, gostyngiad o 19,278 o gwynion ers 2023/2024. Ymdriniwyd â 95% o gwynion Cam 1a o fewn deg diwrnod gwaith, o'i gymharu â tharged DPA o 93%.[253] Mae hyn yn well na 2023/2024 pan oedd y BBC newydd fethu ei darged DPA (gan gyflawni 92%).

Rhan allweddol o'r system BBC yn Gyntaf yw'r ymchwiliadau a wneir gan Uned Cwynion Gweithredol y BBC yng ngham 2. Nod DPA yr Uned yw cwblhau 80% o'i hymchwiliadau o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 cymhleth.[254] Yn

[251] Mae ECU y BBC yn ystyried cwynion yng ngham olaf (Cam 2) proses gwynion y BBC ei hun. Mae ganddi'r dasg o ystyried cwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol ar fuddiannau gwneuthurwyr rhaglenni a darparwyr cynnwys.
[252] Mae System BBC yn Gyntaf yn cael ei rhoi ar waith gan y Senedd Brydeinig ac mae'n adlewyrchu Siarter a Chytundeb y BBC.
[253] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/24 y BBC, t.123.
[254] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/24 y BBC, t.123.


2024/2025, daeth 89% o gwynion i ben ar y cam hwn o fewn y targedau hyn. Mae hyn yn welliant ers 2023/2024 pan gafodd 78% o gwynion eu cwblhau o fewn yr amserlen.

Deliodd yr ECU â 658 o gwynion golygyddol yng ngham 2 yn 2024/25 a chafwyd 40 achos o dorri safonau golygyddol.[255]

## Mae Ofcom wedi cael llai o gwynion eleni o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol yn y Siarter

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 cafodd Ofcom 2,204 o gwynion am gynnwys y BBC. O'r rhain, roedd 157 wedi cwblhau proses gwynion y BBC ac felly fe wnaethom gyfeirio'r gweddill yn ôl at y BBC.

**Ffigur 8: Trosolwg o Gwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan system BBC yn Gyntaf yn 2024/25**




Er bod y siart uchod yn dangos na wnaethom lansio unrhyw ymchwiliadau dros y cyfnod hwn, yn yr adroddiad hwn rydym wedi cynnwys astudiaeth achos ar ein hymchwiliad i'r rhaglen ddogfen *"Gaza: How to Survive a War Zone"*. Lansiwyd yr ymchwiliad hwn ym mis Gorffennaf 2025, y tu allan i'r cyfnod adrodd ar gyfer cylch perfformiad 2024/25, ond rydym yn adrodd arno yma oherwydd diddordeb mawr y cyhoedd yn yr achos.

[255] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25 y BBC, t.121.

### Astudiaeth Achos: Gaza: How to Survive a Warzone

Roedd *Gaza: How to Survive a War Zone* ('y Rhaglen') yn rhaglen ddogfen a oedd yn dilyn profiadau pedwar o blant a nifer o oedolion a oedd yn byw drwy'r rhyfel yn Gaza. Yn fuan ar ôl darlledu, gwnaed honiadau bod tad yr adroddwr 13 oed â swydd yn Llywodraeth Hamas na chafodd ei chrybwyll yn y Rhaglen. Ar 19 Chwefror 2025, cyhoeddodd y BBC wybodaeth am hyn ar ei wefan ac ychwanegu testun at fersiwn iPlayer i egluro cyd-destun tad yr adroddwr. Ar 21 Chwefror 2025, tynnodd y BBC y Rhaglen oddi ar iPlayer, gan aros am Adolygiad Golygyddol a chanfyddiadau ei Uned Cwynion Gweithredol yn unol â fframwaith “BBC yn Gyntaf”. Canfu Adolygiad Golygyddol y BBC a chanfyddiadau'r ECU, a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf 2025, fod y BBC wedi torri un o'i Ganllawiau Golygyddol mewn perthynas â Chywirdeb.

Cafodd Ofcom 20 cwyn am y Rhaglen a oedd wedi cwblhau proses BBC yn Gyntaf. Er nad oedd rhai cwynion yn codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad, roeddem wedi ymchwilio i weld a oedd hepgor yr wybodaeth am gysylltiadau teuluol yr adroddwr yn camarwain yn sylweddol er mwyn achosi niwed posibl i wylwyr, yn groes i Reol 2.2 y Cod Darlledu.

Canfu ein hymchwiliad fod methiant y Rhaglen i roi gwybod i'r gynulleidfa am gysylltiad teuluol yr adroddwr â gweinyddiaeth Hamas yn sylweddol gamarweiniol. Roedd yn golygu nad oedd gan y gynulleidfa wybodaeth hanfodol a allai fod wedi bod yn berthnasol iawn i'w hasesiad o'r adroddwr a'r wybodaeth a ddarparodd. Daethom i'r casgliad y gallai hyn erydu'r lefelau uchel iawn o ymddiriedaeth y byddai cynulleidfaoedd wedi'i rhoi mewn rhaglen ffeithiol gan y BBC am ryfel Israel-Gaza, yn enwedig mewn amgylchiadau lle nad oedd newyddiadurwyr rhyngwladol yn gallu cael mynediad annibynnol i Gaza i adrodd ar y rhyfel, ac roedd cynulleidfaoedd yn chwilio am ffynonellau dibynadwy o wybodaeth. Penderfyniad Ofcom oedd bod y Rhaglen wedi camarwain cynulleidfaoedd yn sylweddol er mwyn achosi niwed, yn groes i Reol 2.2 y Cod Darlledu. O ystyried difrifoldeb y tor-amod hwn, fe wnaethom roi cosb i'r BBC a gafodd eu gorchymyn i ddarlledu crynodeb o’n canfyddiadau.

Wrth ddadansoddi nifer y cwynion rydym wedi'u cael am gynnwys y BBC dros y Siarter, mae digwyddiadau byd-eang fel Covid, Brexit, etholiadau a gwrthdaro byd-eang wedi bod yn ffactorau perthnasol o ran sbarduno cynnydd sydyn yn nifer y cwynion. Er enghraifft, fe wnaethom asesu 5,429 o gwynion am safonau'r BBC yn 2020/21, yr uchaf a gawsom mewn unrhyw flwyddyn dros gyfnod y Siarter, a gafodd ei sbarduno gan y pandemig.[256]

Mae nifer y cwynion mae Ofcom yn eu cael mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy'r BBC wedi bod y categori uchaf ar draws y Siarter, yn enwedig yn 2019/2020 oherwydd Brexit a COVID-19. Mae nifer y cwynion am Degwch a Phreifatrwydd a deunydd ar-lein y BBC wedi aros yn gyson ers 2023/24.[257]

[256] Gweler Atodiad 4 Safonau cynnwys, Figur A4.1.

[257] Roedd rhai lefelau uwch o gwynion am ddeunydd ar-lein mewn blynyddoedd blaenorol yn ymwneud â nifer uchel o gwynion a gafwyd am ddarnau unigol o ddeunydd ar-lein y BBC.

# Bu cynnydd yn nifer yr achosion o dorri rheolau golygyddol difrifol a adroddwyd i Ofcom

Ers ein hadolygiad ym mis Mehefin 2022, mae'r BBC wedi bod yn rhoi gwybod fel mater o drefn i Ofcom am achosion difrifol posibl o dorri rheolau golygyddol ar draws ei gynnwys.[258] Drwy roi gwybod i Ofcom am yr achosion posibl hyn o dorri rheolau yn gynnar, gallwn asesu a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a fyddai'n ein sbarduno i gamu i mewn cyn i'r achwynydd gwblhau BBC yn Gyntaf.

Yn ystod 2024/25, dywedodd y BBC wrth Ofcom ei fod wedi nodi'r hyn roedd yn ei ystyried yn bum achos difrifol o dorri'r canllawiau golygyddol.[259] Nid oedd Ofcom yn credu bod angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio pellach o ran yr achosion hyn, o ystyried y camau roedd y BBC eisoes wedi'u cymryd.

## Roedd nifer y cwynion am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy a gafodd Ofcom wedi gostwng

Yn ystod cyfnod 2024/25, gostyngodd nifer y cwynion a gawsom am ddidueddrwydd dyladwy yng nghynnwys y BBC o 1,785 (57% o holl gwynion y BBC i Ofcom) yn 2023/24 i 827 (33%).[260] Mae'r ffigurau hyn ar gyfer didueddrwydd dyladwy yn cynnwys cwynion am Safonau'r BBC a Deunydd Ar-lein y BBC.

O'r 827 o gwynion (662 o achosion) a aseswyd gennym yn 2024/25:

- ni ddilynwyd/ni dderbyniwyd 110 o gwynion (110 o achosion) gan nad oeddem o'r farn eu bod yn codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad o dan ein Cod neu (ar gyfer deunydd ar-lein) o dan Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC a oedd yn haeddu ystyriaeth gan Ofcom;
- cyfeiriwyd y 717 cwyn (552 o achosion) a oedd yn weddill yn ôl at y BBC i gwblhau proses gwynion y BBC; ac
- ni chyfeiriwyd unrhyw achosion i'w hymchwilio.

Yn gyffredinol, mae'r BBC wedi cydymffurfio i raddau helaeth â'n rheolau ar ddidueddrwydd dyladwy ers 2017/18. Rydym wedi cynnal chwe ymchwiliad yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy dros gyfnod y Siarter, gan ddod i'r casgliad bod y BBC wedi torri amodau ar dri achlysur.[261]

Fel rhan o broses BBC yn Gyntaf, mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC yn ymchwilio i gwynion am ddidueddrwydd dyladwy cyn iddynt gael eu codi gydag Ofcom. Yn ystod 2024/25, o'r 18 achos a gafodd eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol gan ECU y BBC, roedd chwech yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy. Ers dechrau cyfnod y Siarter yn 2017, mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cadarnhau 38 achos yn llwyr neu'n rhannol (allan o gyfanswm o 178), lle canfu nad oedd y safon briodol ar gyfer didueddrwydd dyladwy wedi cael ei bodloni.[262]

---

[258] Rydym wedi sefydlu protocol ar gyfer cyfathrebu rhwng y BBC ac Ofcom pan fydd achosion yn dod o dan weithdrefnau'r BBC ar gyfer ymchwiliadau a ysgogir gan y BBC ei hun, i achosion posibl o dorri safonau golygyddol ac achosion llwybr carlam.
[259] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25 y BBC, t.122.
[260] Gweler y blwch crynodeb ar t.66 i gael esboniad am y gostyngiad hwn.
[261] Gweler Atodiad 4 Safonau cynnwys, Tabl 3.
[262] Ymateb y BBC i hysbysiad adran 135 dyddiedig 16 Hydref 2025.

## Ni wnaeth Ofcom gyfeirio unrhyw gwynion am Ddarllediadau'r BBC o Etholiad Cyffredinol y DU at ymchwiliad

Ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024, rhoddodd y BBC canllawiau etholiadau ar waith a gymeradwywyd gan Bwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC,[263] a oedd yn rhoi sylw i ddidueddrwydd dyladwy, tegwch i ymgeiswyr a materion eraill yn ei ddarpariaeth.

Yn ystod etholiad 2024, roedd Ofcom wedi asesu 14 o gwynion (wyth achos) a oedd yn ymwneud â chynnwys etholiadau'r BBC. Cafodd 362 (79 o achosion) eu cyfeirio'n ôl at y BBC i gwblhau proses BBC yn Gyntaf. Nid oeddem wedi ystyried unrhyw gwynion a oedd yn ymwneud â deunydd ar-lein y BBC.[264]

Yn ystod Etholiad Cyffredinol 2024, cafodd yr ECU 63 o gwynion cam 2 (30 o achosion) am gynnwys etholiadau. Ni chafodd 57 o'r cwynion hyn (26 achos) eu cadarnhau, cafodd pedair cwyn (dau achos) eu datrys a chafodd dwy gŵyn (dau achos) eu cadarnhau.[265]

Dyma'r cwynion nodedig a gafwyd a oedd yn ymwneud â chynnwys etholiadau'r BBC:

- Cafodd Ofcom 150 o gwynion am *Question Time Leaders' Special*, a ddarlledwyd ar 28 Mehefin 2024 ar BBC One. Dywedodd cwynion fod rhagfarn yn erbyn Reform UK/Nigel Farage.
- Cafodd Ofcom 43 o gwynion yn ymwneud â'r ffaith nad oedd Reform UK wedi'i gynnwys yn *Question Time Leaders' Special*, a ddarlledwyd ar 20 Mehefin 2024 ar BBC One. Cawsom 26 o gwynion ychwanegol am yr un mater cyn darlledu (dosbarthwyd bod y rhain y tu allan i'r cylch gwaith).
- Cafodd Ofcom 29 o gwynion bod gan *BBC Election Debate* a ddarlledwyd ar 7 Mehefin 2024 'duedd asgell chwith'.

Asesodd Ofcom yr holl gwynion hyn ac nid oedd yn credu bod angen ymchwilio iddynt. Er mwyn cymharu, roedd Ofcom wedi asesu deg cwyn am safonau'r BBC (deg achos) yn ystod Etholiad Cyffredinol 2017 a phedair cwyn (pedwar achos) yn ystod Etholiad Cyffredinol 2019; nid oedd yn credu bod angen ymchwilio iddynt.

## Mae Ofcom wedi parhau i ymchwilio i Gwynion Tegwch a Phreifatrwydd

Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod darlledwyr yn osgoi triniaeth anghyfiawn neu annheg, neu darfu'n ddiangen ar breifatrwydd unigolion neu sefydliadau sy'n ymddangos mewn rhaglenni neu y mae rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn syth (neu yn achos preifatrwydd, mewn cysylltiad â chael gafael ar ddeunydd sydd wedi'i gynnwys ynddynt). Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn cael eu gwneud gan yr unigolion neu'r sefydliadau y mae rhaglenni fel y cawsant eu darlledu yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.[266] Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 roedd Ofcom wedi asesu 47 o gwynion yn erbyn rhaglenni'r BBC am honiadau o drin

---

[263] Mae'r Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol yn un o is-bwyllgorau Bwrdd y BBC y mae ei rôl yn cael ei egluro yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25 y BBC fel "sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau sy'n cael eu gosod gan Fwrdd y BBC yn ei Ganllawiau Golygyddol a bod y BBC yn atebol i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded drwy ei broses cwynion."

[264] Fodd bynnag, fe wnaethom gyfeirio 20 o gwynion am ddeunydd ar-lein (20 achos) yn ôl at y BBC i gwblhau BBC yn Gyntaf.

[265] Ymateb y BBC i hysbysiad adran 135 dyddiedig 20 Awst 2025.

[266] Nid yw'r system BBC yn Gyntaf yn berthnasol i gwynion tegwch a phreifatrwydd, ac yn wahanol i gwynion am safonau cynnwys y BBC, mae modd cyfeirio'r rhain at Ofcom yn y lle cyntaf.

pobl neu sefydliad yn anghyfiawn neu'n annheg, a/neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Mae hyn yn cymharu â 40 o gwynion a wnaed i Ofcom yn y flwyddyn flaenorol.

Yn ogystal â'r rhain, fe wnaethom gwblhau wyth ymchwiliad tegwch a phreifatrwydd i raglenni'r BBC a chafodd dau[267] o'r rhain eu cadarnhau.[268]

Wrth edrych ar gwynion Tegwch a Phreifatrwydd y BBC dros gyfnod y Siarter, mae'r niferoedd wedi aros yn gyson, gan amrywio o 20 i 50 o gwynion yn cael eu hasesu bob blwyddyn. At ei gilydd, rydym wedi cynnal 50 ymchwiliad a chafodd deg o'r rhain eu cadarnhau.

## Mae Ofcom wedi darparu Barn ar ddau achos perthnasol Ar-lein

Ym mis Mai 2017, ymrwymodd Ofcom a'r BBC i drefniant ar wahân yn ymwneud â deunydd ar-lein, lle mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC. Fel y trafodwyd uchod, o dan Gytundeb Fframwaith diwygiedig y BBC yn dilyn Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2024, bydd Ofcom yn cael pwerau newydd i reoleiddio deunydd ar-lein y BBC..

Eleni, fe wnaethom asesu a chau 58 o gwynion (58 o achosion), o'i gymharu â 45 o gwynion (42 o achosion) y llynedd, ynghylch deunydd ar-lein y BBC. Roedd 254 o gwynion eraill (239 achos) wedi cael eu cyfeirio'n ôl at y BBC o dan y dull BBC yn Gyntaf, neu y tu allan i'n cylch gwaith.

O'r 58 achos a aseswyd gan Ofcom yn 2024/25, cafodd 56 eu cau fel 'ddim yn cael eu derbyn' yn dilyn asesiad gan Ofcom. Daethpwyd i'r casgliad bod y ddau achos arall, ar ôl eu hasesu'n fanylach, y tu allan i gylch gwaith Ofcom ac fe'u caewyd ar y sail hon. Yn ogystal â'r 58 asesiad hyn, rhoddodd Ofcom Farn ar ddau achos:

i) Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom gyhoeddi Barn bod y BBC wedi cadw at Adran 3: Cywirdeb, Adran 6: Tegwch â Chyfranwyr a Chydsyniad ac Adran 15: Gwrthdaro rhwng buddiannau yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC mewn perthynas ag erthygl am honiadau bod y darlledwr, Al Jazeera, wedi methu mynd i'r afael â chwynion staff am ymddygiad amhriodol a oedd yn digwydd yn ei bencadlys yn Doha, Qatar ar wefan BBC News *'Al Jazeera staff allege harassment and bullying went unchecked'.*[269]

ii) Ym mis Mai 2024, fe wnaethom gyhoeddi Barn bod y BBC wedi cadw at Adran 4: Didueddrwydd ac Adran 6: Tegwch â Chyfranwyr a Chydsyniad Canllawiau Golygyddol y BBC mewn perthynas ag erthygl ar-lein yn adrodd ar y mesurau diogelwch ar-lein sydd ar waith ar wefan OnlyFans, *'Young children exploited on OnlyFans, says US agent.'*[270]

Dros y Siarter, fe wnaethom gyhoeddi saith barn ar ddeunydd ar-lein y BBC. Roeddem wedi penderfynu nad oedd y BBC wedi dilyn ei Ganllawiau Golygyddol mewn tri achos.[271]

---

[267] Rhifyn 497 a Rhifyn 496.
[268] Fe wnaethon ni adrodd ar un o'r achosion hyn (*The Detectives: Fighting Organized Crime*) yn Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2023-24 gan ei bod hi'n bwysig tynnu sylw ato, er ei fod y tu allan i'r cyfnod adrodd. Rydym yn ei grybwyll yma er mwyn cyflawnrwydd gan ei fod wedi'i gynnwys yng nghyfnod adrodd 2024-25. Nid yw hwn yn dor-rheol newydd.
[269] Bwletin Broadcast and On Demand, Rhifyn 496.
[270] Bwletin Broadcast and On Demand, Rhifyn 498.
[271] Gweler Atodiad 4 Safonau cynnwys, Figur A4.5

Mae Ofcom wedi darparu Barn ar ddau achos deunydd ar-lein a aseswyd y flwyddyn.  At ei gilydd, rydym wedi cynnal 50 ymchwiliad a chafodd deg o'r rhain eu cadarnhau.

## Mae'r BBC wedi gwella tryloywder ei adroddiadau am gwynion

Mae'r BBC yn parhau i wella tryloywder ei adroddiadau am gwynion. Yn ein hadolygiad yn 2022 roeddem wedi diwygio ein gofyniad i'r BBC gyhoeddi ei resymau dros benderfyniadau 'heb eu cadarnhau'.[272] Yn 2024/25, roedd y BBC wedi gwella ei dryloywder yn y maes hwn:

- rhwng 4 Gorffennaf 2022 a 31 Mawrth 2023, cyhoeddodd y BBC ei resymau mewn 188 o achosion heb eu cadarnhau;
- rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cyhoeddodd y BBC ei resymau mewn 186 achos heb eu cadarnhau; a
- rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, cyhoeddodd y BBC ei resymau mewn 240 o achosion heb eu cadarnhau.[273]

Rydym yn croesawu adroddiadau cynyddol y BBC yn y maes hwn ac yn ehangach y camau y mae wedi'u cymryd ers ein Hadolygiad Cyfnodol cyntaf i wella ei brosesau delio â chwynion.

Ar draws y cyfnod adrodd, mae cydymffurfiad cyffredinol y BBC ar draws cynnwys darlledu, ar-alw a deunydd ar-lein wedi bod yn gryf ac rydym yn cydnabod bod y BBC yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau didueddrwydd dyladwy i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae safonau golygyddol y BBC yn dal yn ffocws cryf i gynulleidfaoedd, ynghyd â'r ffordd mae'n delio â chwynion. Byddwn yn parhau i fonitro gwaith y BBC yn y meysydd hyn a byddwn yn ymgysylltu'n agos wrth i Ofcom baratoi ar gyfer ei bwerau newydd.

[272] Yn unol â'n Penderfyniadau ynghylch Cwynion cyfredol, mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi ei resymau dros (i) pob penderfyniad sy'n ymwneud â chwyn am gywirdeb dyladwy neu ddidueddrwydd dyladwy sy'n cyrraedd cam terfynol ei broses gwyno a (ii) pob penderfyniad sy'n ymwneud ag achos lle mae'r BBC wedi cael dros 100 o gwynion am yr eitem yng Ngham 1a.
[273] E-bost gan y BBC i Ofcom ar 17 Tachwedd 2025.